Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
116/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
15/12/2023

# Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: Adroddiad Cwmpasu

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-275-1

**Gwerthusiad o’r System Anghenion Dysgu Ychwanegol: Adroddiad Cwmpasu**

Awduron: Brett Duggan, Sioned Lewis, Sam McAlister-Wilson, Lois Roberts a Hefin Thomas (Ymchwil Arad)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Duggan, B; Lewis, S; McAlister-Wilson, S; Roberts, L; Thomas, H (2023). Gwerthusiad o'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol: Adroddiad Cwmpasu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 116/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-adroddiad-cwmpasu

Safbwyntiau’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Gangen Ymchwil Ysgolion
Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10
Ebost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau ... 2
Rhestr o'r ffigurau ... 2
Geirfa ... 3
1. Cyflwyniad ... 4
2. Methodoleg ... 20
3. Theori newid ... 23
4. Adolygiad o'r dystiolaeth ... 53
5. Mapio data ... 85
6. Y goblygiadau i gamau nesaf y gwerthusiad ... 104
Atodiad A: Y prif ffynonellau ar gyfer yr adolygiad o'r dystiolaeth ... 107
Atodiad B: Llyfryddiaeth ... 111

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1. Amserlen ar gyfer gweithredu system ADY....15
Tabl 2. Camau o weithgaredd a gynlluniwyd yn ystod y gwerthusiad....18
Tabl 3. Crynodeb o ganfyddiadau'r ymarfer mapio data....88

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 1. Theori newid ar gyfer y system ADY - darlun sgematig....29
Ffigur 2. Theori newid ar gyfer y system ADY: mewnbynnau, deilliannau tymor byr a gweithredu (Tudalen 1 o 2)....30
Ffigur 3. Theori newid ar gyfer y system ADY: gweithredu, deilliannau tymor canolig a hirdymor (Tudalen 2 o 2)....31
Ffigur 4. Canran y disgyblion sydd â phob math o ddarpariaeth AAA neu ADY, 2018-202368
Ffigur 5: Canran y disgyblion ag AAA neu ADY yn ôl y math o ddarpariaeth, 2018-2023....69

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| AAD | Anawsterau a/neu anableddau dysgu |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| AGAA | Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol |
| AHY | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| BILl | Bwrdd Iechyd Lleol |
| CADY(au) | Cydlynydd/Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| CAMHS | Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc |
| CBGY | Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| CDU | Cynllun Datblygu Unigol |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Cydlynydd AAA | Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig |
| DDdY | Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol |
| HESA | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| LlDPC ADY | Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| NAPL | Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol |
| SAB | Sefydliad addysg bellach |
| SACDA(au) | Swyddog(ion) Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg |
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithrediad y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Nod yr adroddiad hwn yw cyflwyno canfyddiadau cynnar sy'n deillio o gam cwmpasu'r gwerthusiad. Mae’r adroddiad yn cyflwyno theori newid ar gyfer y diwygiadau, mae'n crynhoi'r canfyddiadau o synthesis o dystiolaeth bresennol ar weithredu'r system ADY, ac yn adrodd ar ddeilliannau ymarfer mapio data. Yn olaf, mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer camau nesaf y gwerthusiad.

1.2 Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

(i) Ym Mhennod 1, rhoddir trosolwg o’r system ADY ynghyd ag amlinelliad o'r cefndir polisi a nodau’r gwerthusiad.

(ii) Mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer cam cwmpasu'r gwerthusiad.

(iii) Ym Mhennod 3, cyflwynir theori newid ar gyfer y system ADY.

(iv) Mae Pennod 4 yn amlinellu synthesis o'r dystiolaeth sydd ar gael ar weithredu’r system ADY hyd yma.

(v) Mae Pennod 5 yn amlinellu canfyddiadau'r ymarfer mapio data, gan ymchwilio i ffynonellau data sydd â'r potensial i gefnogi'r gwerthusiad.

(vi) Yn olaf, yn seiliedig ar y canfyddiadau yn y penodau blaenorol, mae Pennod 6 yn amlinellu'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer camau nesaf y gwerthusiad.

## Cefndir polisi

1.3 System newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed yng Nghymru sydd ag ADY yw'r system ADY. Mae'r system ADY yn disodli'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) flaenorol ar gyfer plant mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc mewn addysg bellach ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD).1

[1] Mae’r Ddeddf ADY yn disodli’r ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol (y darperir ar ei chyfer yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996), Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a deddfwriaeth anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) (y darperir ar ei chyfer yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000).

*Fframwaith deddfwriaethol ADY a'r achos dros newid*

1.4 Cafodd y fframwaith deddfwriaethol ADY presennol ei greu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf), Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf yn nodi'r rhesymau dros ddechrau proses o ddiwygio'r systemau AAA ac AAD blaenorol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Roedd y system flaenorol yn hen ffasiwn ac yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl.
- Darparodd y systemau deddfwriaethol blaenorol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag AAA neu AAD, brosesau cynllunio a chymorth ar seiliau gwahanol i blant a phobl ifanc, yn dibynnu ar eu hoedran, eu lleoliad addysgol a difrifoldeb neu gymhlethdod eu hanghenion. Roedd yr anghysondeb hwn o ran y dull gweithredu yn rhwystr i integreiddio a chydweithio, yn tanseilio amseroldeb ac effeithiolrwydd ymyriadau, ac yn creu hinsawdd wrthwynebol a allai ymddangos yn annheg ac yn ddiffygiol o ran tryloywder.
- Canfu adolygiadau o ddarpariaeth AAA a gynhaliwyd gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a chyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Senedd fod y system AAA flaenorol yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn wrthwynebol.
- Dywedwyd bod y prosesau asesu yn aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus, ac nad oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn hawdd eu defnyddio.
- Roedd anghenion ychwanegol yn cael eu nodi'n hwyr ar adegau ac nid oedd ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu mewn modd prydlon ac effeithiol.
- Dywedodd teuluoedd iddynt orfod brwydro ar bob cam o'r broses i gael y cymorth cywir ar gyfer eu plentyn, ac nad oeddent yn gwybod ble i droi i gael cyngor a gwybodaeth.

1.5 Bwriad y Ddeddf, a ddisodlodd y ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig flaenorol, oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i'r cymorth a'r

cyfleoedd i gyflawni eu potensial, drwy sicrhau eu bod yn cael y ddarpariaeth y mae eu ADY yn galw amdani, a hynny mewn modd amserol ac effeithlon, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu ac elwa ohono.

1.6 Nododd y Memorandwm Esboniadol ragdybiaeth ddeddfwriaethol o blaid addysgu dysgwyr ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd lle bynnag y bo modd, gan ategu polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi ‘system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru’.[2] Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cydnabod efallai na fydd mynychu ysgol brif ffrwd yn briodol neu er lles gorau'r plentyn mewn rhai achosion. Mae adran 51 o’r Ddeddf yn galluogi awdurdod lleol i leoli plentyn y tu allan i’r sector addysg prif ffrwd mewn amgylchiadau o’r fath.

1.7 Drwy fframwaith statudol ADY, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael ei gefnogi i oresgyn y rhwystrau i ddysgu ac yn gallu cyflawni ei botensial yn llawn, drwy greu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn a chanddo anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o oedran ysgol gorfodol neu iau a phobl ifanc ag ADY sydd mewn ysgol/UCD neu addysg bellach (AB),
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro’r cymorth a ddarperir i ddysgwyr ADY sy’n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol,
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

1.8 Mae’r Ddeddf yn defnyddio’r term newydd 'anghenion addysgol ychwanegol (ADY) yn lle’r termau ‘anghenion addysgol arbennig’ (AAA) ac ‘anawsterau a/neu anableddau dysgu’ (AAD).

*Cynlluniau datblygu unigol*

1.9 O dan y Ddeddf, yn gyffredinol bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY, beth bynnag fo difrifoldeb neu gymhlethdod ei anhawster neu anabledd dysgu, hawl i gynllun cymorth statudol a elwir yn gynllun datblygu unigol (CDU). Bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn cael cymorth a elwir yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol

[2] Gweithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol rhwng Medi 2021 ac Awst 2024: canllaw i rieni a theuluoedd

(DDdY) a fydd yn cael ei hamlinellu yn y CDU. Bydd y CDU yn disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r DDdY sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd hefyd yn nodi a ddylai plentyn neu berson ifanc gael DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg; yn yr achosion hynny, rhaid i'r awdurdod lleol (neu gorff y GIG pan fo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y darperir DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.10 Bydd CDUau fel arfer yn cael eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu gan yr ysgol neu'r SAB y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu. Mewn achosion lle mae pennu natur ADY y plentyn neu'r person ifanc, neu'r DDdY sydd eu hangen, y tu hwnt i allu'r ysgol neu'r SAB, neu lle na fyddai'n bosibl iddynt sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol, gellir cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol. Byddai'r awdurdod lleol wedyn yn gyfrifol am bennu natur yr ADY, paratoi ac adolygu'r CDU a sicrhau'r DDdY ynddo.

1.11 Mae'r Cod yn nodi y dylai awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad ag ysgolion a phartneriaid priodol eraill, sefydlu a chyhoeddi set o egwyddorion y byddant yn eu defnyddio wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol gan ddisgybl neu a ddylai'r awdurdod wneud hynny.

*Un ar ddeg nod craidd y system ADY newydd*

1.12 Er mwyn cyflawni tri amcan trosfwaol y Ddeddf (gweler 1.7, uchod), mae un ar ddeg o nodau craidd wedi'u sefydlu, sy'n fframio'r darpariaethau a nodir mewn deddfwriaeth. Mae'r nodau craidd hyn yn cynnwys:

**1. Y term anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Mae'r Ddeddf yn defnyddio'r term newydd 'anghenion addysgol ychwanegol (ADY) yn lle'r termau 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' (AAD).

**2. Ystod oedran 0 hyd at 25**

Bydd un system ddeddfwriaethol ar gyfer y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY.

**3**. **Cynllun unedig**

Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol – y cynllun datblygu unigol (CDU) – yn lle'r amrywiaeth o gynlluniau AAA neu AAD statudol ac anstatudol cyfredol sydd ar gael i ddysgwyr mewn ysgolion ac addysg bellach.

**4. Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod barn dysgwyr, ynghyd â barn eu rhieni/gofalwyr, yn cael ei hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'n gwbl allweddol bod plant a phobl ifanc yn barnu bod y broses gynllunio yn rhywbeth sy'n eu cynnwys yn hytrach na'n rhywbeth sy'n digwydd iddyn nhw.

**5. Dyheadau uchel a deilliannau gwell**

Bydd CDUau yn canolbwyntio ar sicrhau darpariaeth sy'n cyflawni deilliannau gweladwy sy'n cyfrannu'n ystyrlon at allu'r plentyn neu'r person ifanc i gyflawni'i lawn botensial.

**6. System symlach, lai wrthwynebol**

Dylai'r broses o greu a diwygio CDU fod yn llawer symlach nag y mae ar hyn o bryd gyda datganiadau AAA.

**7. Mwy o gydweithredu**

Mae’r system newydd yn annog asiantaethau i rannu gwybodaeth a chydweithio'n well, sy’n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi’n gynnar a bod y cymorth cywir yn ei le er mwyn i blant a phobl ifanc allu cyflawni deilliannau cadarnhaol.

**8. Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach**

Os ceir anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth o'i fewn, mae'r system newydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf lleol bosibl.

**9. Hawliau clir a chyson i apelio**

Os nad oes modd datrys anghytundebau ynghylch cynnwys CDU yn lleol, mae’r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i CDU (ynghyd â’u rhieni/gofalwyr yn achos plant o dan 16 oed) yr hawl i apelio i dribiwnlys.

**10. Y Cod ADY**

Mae’r Cod ADY yn darparu set o baramedrau clir y gellir eu gorfodi’n gyfreithiol y mae’n rhaid i awdurdodau lleol a’r sefydliadau eraill hynny sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu oddi mewn iddynt.

**11. System ddwyieithog**

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ystyried a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc. Os oes, rhaid dogfennu hyn yn y CDU a chymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

*Rolau statudol*

1.13 Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ar gyfer creu nifer o rolau statudol i gefnogi'r system ADY. O dan y system ADY, rhaid i bob ysgol[3] a SAB yng Nghymru ddynodi person i rôl **cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY).** Mae gan y CADY gyfrifoldeb strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn cael eu diwallu. Mae'r Cod ADY yn nodi:

> 'Mae ei rôl yn un strategol o fewn y lleoliad addysg a dylai, felly, naill ai fod yn aelod o'r uwch dîm arwain neu fod â llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arwain. Bydd hyn o gymorth i'r lleoliad addysg wrth gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o ran adnabod a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY…
>
> Bydd angen i'r CADY gyfrannu at y gwaith o gydlynu adnoddau ADY mewn ffordd strategol, er enghraifft trefnu a chefnogi staff...
>
> Ni ddisgwylir i'r CADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gefnogi dysgwyr unigol ag ADY. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am wneud hynny, ond mae staff cymorth dysgu yn gallu helpu'r CADY i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefnogi a bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.' (Cod ADY)

1.14 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) benodi **'swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg' (SACDA)**. Mae rôl y SACDA hefyd yn un strategol o fewn y BILl a rhaid iddo fod yn ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestredig neu weithiwr iechyd proffesiynol arall. Rôl y SACDA yw hyrwyddo cysondeb a thegwch er mwyn sicrhau ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo deilliannau gwell a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r SACDA yn cydlynu trefniadau cydweithio ar gyfer y bwrdd iechyd ac yn darparu gwybodaeth neu gyngor a allai helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

1.15 Yn olaf, rhaid i bob awdurdod lleol ddynodi swyddog i gydlynu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Rôl '**Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar' ('Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar'**) yw hon. Mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am drefniadau'r awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY, sef plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol brif ffrwd. Er mwyn cefnogi hyn, mae'r rôl hefyd yn cynnwys datblygu

[3] Yn cynnwys ysgolion, ysgol feithrin a gynhelir, neu uned cyfeirio disgyblion.

a chynnal perthnasoedd effeithiol ag eraill sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod lleol.

**Ymchwil sylfaenol ar y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru**

1.16 Cyn gweithredu'r diwygiadau ADY, cynhaliwyd astudiaeth gan Arad i bennu gwaelodlin ar gyfer y system AAA bresennol yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Chwefror 2019 a'i fwriad oedd bod yn sail i werthusiad o'r system ADY yn y dyfodol.

1.17 Canfu'r astudiaeth gonsensws ymhlith ymarferwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio yn y sector addysg, fod prosesau ac arferion o fewn y system AAA yn effeithiol. Fodd bynnag, adroddwyd bod heriau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys canfyddiad bod y broses asesu statudol yn rhy hirfaith a'i bod yn cymryd gormod o amser i roi darpariaeth addysg arbennig ar waith. Ystyriwyd bod datganiadau'n rhy eang ac aneglur o ran eu hamcanion, nad oeddent yn cael eu diweddaru'n briodol mewn llawer o achosion ac nid oeddent yn ymateb yn ddigonol i anghenion newidiol dysgwr. Canfu'r astudiaeth hefyd fod ymarferwyr yn ystyried bod adolygu datganiadau yn broses ailadroddllyd. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod lle i wella o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol sectorau er mwyn datblygu perthnasoedd gwaith cryfach a gwella prosesau adolygu ac asesu ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd. Roedd llawer o ganfyddiadau'r astudiaeth waelodlin hon yn gyson â chanfyddiadau adolygiadau blaenorol o'r system AAA a gynhaliwyd gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Senedd.

1.18 Roedd y diwygiadau eisoes yn mynd i'r afael â llawer o'r heriau a nodwyd yn yr astudiaeth waelodlin, gan gynnwys drwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a thrwy greu system fwy amserol ac ymatebol lle y caiff anghenion dysgwyr eu hadnabod yn gynnar.

**Rhaglen trawsnewid ADY**

1.19 Sefydlodd ac ariannodd Llywodraeth Cymru raglen trawsnewid ADY i gefnogi'r broses o bontio i'r system newydd. Cynlluniwyd y rhaglen drawsnewid i reoli'r broses o symud o'r systemau AAA ac AAD blaenorol i system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr 0 i 25 oed sydd ag ADY. Seiliwyd y broses weithredu, cefnogi pontio a chyflwyno'r system newydd ar bum thema:

- Deddfwriaeth a chanllawiau statudol
- Datblygu'r gweithlu
- Cefnogi gweithredu/pontio
- Codi ymwybyddiaeth
- Polisi cefnogi

*Deddfwriaeth a chanllawiau*

1.20 Cafodd y Ddeddf ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2017 a daeth i rym ym mis Ionawr 2018 ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Nod y ddeddfwriaeth, yr is-ddeddfwriaeth ategol a'r canllawiau statudol (gan gynnwys y Cod ADY) yw gwella'r broses o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol, drwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n sicrhau bod cymorth amserol ac effeithiol ar waith.

*Datblygu'r gweithlu*

1.21 Roedd y rhaglen trawsnewid ADY hefyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg er mwyn gwireddu nodau'r system ADY newydd. Datblygwyd hyn drwy i) datblygu sgiliau craidd ymarferwyr mewn ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy roi grantiau i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach (SABau); ii) datblygu sgiliau uwch ymhlith cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY); iii) datblygu sgiliau arbenigol drwy gyllid i gefnogi hyfforddiant ôl-raddedig ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdod lleol sydd ar gael i leoliadau addysg/ysgolion, e.e. seicolegwyr addysg ac athrawon disgyblion sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw.

*Cefnogi gweithredu/pontio*

1.22 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru nifer o fesurau i helpu partneriaid a gwasanaethau trefniadau gweithio agosach ar draws asiantaethau a sectorau wrth baratoi ar gyfer y system ADY newydd. Darparwyd Cyllid Arloesi ADY i gefnogi prosiectau partneriaeth rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, SABau, darparwyr arbenigol, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y blynyddoedd

cynnar a’r trydydd sector. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Strategol ADY i roi cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu’r rhaglen trawsnewid ADY.

1.23 Penodwyd tîm o bum Arweinydd Trawsnewid ADY i roi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, SABau a phartneriaid cyflwyno eraill wrth baratoi ar gyfer pontio i’r system ADY. Fe wnaethant ddatblygu a chyflwyno ystod o becynnau hyfforddi, gan gynnwys arlwy dysgu proffesiynol wedi'i dargedu at gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADYau). Roedd ganddynt hefyd rôl yn y gwaith o fonitro effaith y newidiadau, gan archwilio sut yr oedd partneriaid yn addasu i ddulliau gweithredu newydd ac yn eu hymwreiddio. Ategwyd y rolau hyn gan grŵp llywio cenedlaethol ar gyfer diwygio ADY, a fynychwyd gan randdeiliaid strategol, gan gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, sefydliadau addysg, y trydydd sector a'r sector iechyd. Dyfarnwyd Grantiau Trawsnewid ADY hefyd i gefnogi awdurdodau lleol, SABau, BILlau, y Tribiwnlys ac Estyn er mwyn eu cynorthwyo gyda'u paratoadau.

*Codi ymwybyddiaeth*

1.24 Cyflwynwyd cyfres o weithgareddau codi ymwybyddiaeth fel rhan o'r rhaglen drawsnewid. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyfathrebu ac esbonio eu dyletswyddau deddfwriaethol newydd, a hyrwyddo’r system a’r hawliau y mae’n eu rhoi i blant a phobl ifanc, a rhieni/gofalwyr.

*Polisi cefnogi*

1.25 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda phartneriaid i bontio'n ddidrafferth i'r system newydd. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod awdurdodau lleol a’r holl asiantaethau a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o dan y system AAA yn parhau i gydymffurfio â’r dyletswyddau a osodwyd arnynt nes bod trefniadau newydd yn dod i rym yn ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys rheoli cyd-destun polisi cymhleth, gyda dwy system yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd i bob pwrpas yn ystod y cyfnod pontio.

1.26 Paratowyd adroddiadau yn archwilio’r cynnydd o ran gweithredu’r system ADY ar gyfer Llywodraeth Cymru ac maent yn myfyrio ar agweddau ar y rhaglen drawsnewid. Cafodd yr adroddiadau hyn – rhai ohonynt wedi’u cyhoeddi ac eraill

heb eu cyhoeddi – eu hadolygu fel rhan o’r ymarfer synthesis o dystiolaeth (gweler Adran 3).

### Yr amserlen ar gyfer gweithredu'r system ADY

1.27 Cyn y rhaglen drawsnewid a ddisgrifir uchod, roedd nifer o ardaloedd awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau eraill yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ymchwil weithredu a gweithgaredd treialu i ddatblygu a threialu systemau a dulliau newydd er mwyn helpu i lywio polisïau a deddfwriaeth y dyfodol (gan gynnwys datblygu a threialu CDUau). Roedd hyn yn cynnwys prosiectau ymchwil weithredu rhwng 2009-2012 a oedd yn cynnwys datblygu a threialu templed CDU cynnar. Yn ddiweddarach, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant i ALlau (yn 2015-16 a 2016-17) i hyrwyddo ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn perthynas ag AAA, gan gynnwys datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddi ar y math hwn o ymarfer.

1.28 Dechreuwyd gweithredu’r system ADY yn swyddogol ym mis Medi 2021 ar gyfer plant, o 0 oed hyd at Flwyddyn 10, a oedd yn ‘newydd i’r system’ (hynny yw, nid oedd ganddynt anghenion addysgol arbennig wedi’u nodi). Bydd y broses weithredu’n parhau fesul cam tan 31 Awst 2025.[4] Felly mae dysgwyr ag AAA yn trosglwyddo o’r system flaenorol i’r system ADY dros 4 blwyddyn ysgol, gyda’r bwriad o alluogi meithrinfeydd, ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol i drafod y cymorth sydd ei angen ac i baratoi cynlluniau.

1.29 Mae'r plant yn symud o'r system AAA i'r system ADY mewn grwpiau. Y grŵp cyntaf i symud o’r system AAA i’r system ADY oedd plant:

- a oedd yn cael cymorth drwy'r cynlluniau gweithredu yn y blynyddoedd cynnar, gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, gweithredu gan yr ysgol, neu weithredu gan yr ysgol a mwy[5];
- nad oedd ganddynt ddatganiad AAA / nad oeddent yn rhan o broses datganiad AAA.

[4] Yn dilyn datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Addysg ar 20 Mawrth 2023, cafodd yr amserlen weithredu ei hymestyn. Mae plant a oedd i fod i symud i’r system ADY yn wreiddiol rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2024, bellach symud i’r system newydd rhwng Medi 2023 ac Awst 2025. Nododd datganiad y Gweinidog: '*Bydd hyn yn creu mwy o hyblygrwydd i’r cyrff sy'n gyfrifol am symud plant o'r system AAA i'r system ADY.'*

[5] Mae diffiniadau o weithredu yn y blynyddoedd cynnar, gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy i’w gweld yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru - Cymraeg (llyw.cymru)

1.30 O fis Medi 2022, mae plant ag AAA nad oeddent wedi'u cynnwys yn y grŵp cyntaf wedi symud i'r system ADY. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, estyniad i'r amserlen weithredu o dair blynedd i bedair blynedd (Medi 2021 - Awst 2025). Nod yr estyniad oedd rhoi disgresiwn a hyblygrwydd i ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol i drosglwyddo o'r system AAA i'r system ADY dros gyfnod hwy. Yn ymarferol roedd hyn yn golygu:

- Y gall y rhan fwyaf o blant a oedd i fod i symud i'r system ADY yn wreiddiol rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2024, bellach symud i'r system newydd rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2025.
- Eithriad i hyn oedd bod yn rhaid i blant ym mlwyddyn 6 a blwyddyn 10 yn y flwyddyn ysgol 2023/24 gael CDU neu hysbysiad Dim CDU yn ystod y flwyddyn ysgol 2023/24.
- Rhoddwyd hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol benderfynu sut i wneud y defnydd gorau o'r amser ychwanegol.

Nid effeithiodd yr estyniad ar yr hawl i blant, a'u rhieni, ofyn i blentyn gael ei symud i'r system ADY.

1.31 Mae'r tabl isod yn dangos pryd mae plant yn y grŵp cyntaf a phlant a oedd â datganiadau AAA yn cael eu symud i'r system ADY yn seiliedig ar eu grŵp blwyddyn ysgol.

**Tabl 1. Amserlen ar gyfer gweithredu system ADY**

| Cyfnodau pontio | Carfannau yr effeithir arnynt |
|---|---|
| Tymhorau gwanwyn a haf y flwyddyn ysgol 2021/2022 | Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22 |
| Blwyddyn ysgol 2022/2023: plant â darpariaeth drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy | Blwyddyn 10 (ac unrhyw blant a oedd yn y Meithrin, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 yn 2021/22 na chawsant eu symud i'r system ADY yn ystod 2021/22) |
| Blwyddyn ysgol 2022/2023: plant â darpariaeth drwy ddatganiadau | Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 6, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |
| Blwyddyn ysgol 2023/2024 i 2024/25: plant â darpariaeth drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy | (2023/24) Blwyddyn 6 a Blwyddyn 10<br><br>(2023/24 i 2024/25) Yr holl blant sydd ar ôl heb eu symud (y rhai yn y Meithrin, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023/24) |
| Blynyddoedd ysgol 2023/24 i 2024/25: plant â darpariaeth drwy ddatganiadau | (2023/24) Blwyddyn 6 a Blwyddyn 10<br><br>(2023/24 i 2024/25) Yr holl blant sydd ar ôl heb eu symud (y rhai ym Mlwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9 ym mlwyddyn ysgol 2023/24) |
| Medi 2023 | Bydd y grŵp blwyddyn hynaf a fydd wedi cael ei symud i'r system ADY (sef y rheini ym Mlwyddyn 10 yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22) yn llifo drwodd i addysg ôl-16. |

1.32 Cyhoeddwyd canllaw technegol i weithredu'r Ddeddf ADY, a oedd yn cynnwys y gofynion ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac UCDau, yn 2022. At hynny, cyhoeddwyd canllaw i ymarferwyr ar y trefniadau ar gyfer symud plant o'r system AAA flaenorol i'r system ADY yn 2021. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau, gan gynnwys cyrff llywodraethu, arweinwyr, staff addysgu, a CADYau.

**ADY yn y blynyddoedd cynnar**

1.33 Mae'r Ddeddf a'r Cod ADY yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir. O dan y system ADY, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol, nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir, ADY a, lle bo angen, yn gyfrifol am baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Arweinir y gwaith hwn mewn awdurdodau lleol gan Gydlynydd ADY y Blynyddoedd Cynnar (gweler 1.15 uchod), sy'n gweithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys timau cymorth a chynhwysiant blynyddoedd cynnar lleol, i ddarparu cymorth i blant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Bydd angen i'r gwerthusiad archwilio effeithiolrwydd ac effaith y ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar ar nodau tymor canolig a hirdymor y system ADY.

**Y Cwricwlwm i Gymru**

1.34 Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol i bawb. Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r dysgwr wrth wraidd gweledigaeth a dyheadau hirdymor y cwricwlwm newydd. Nod fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r system ADY yw darparu system addysg gynhwysol a theg yng Nghymru. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i leoliadau addysgol ddatblygu cwricwla ac addysgeg sy'n hyblyg, yn briodol ac yn ymatebol i anghenion unigol pob dysgwr. Rhaid i ysgolion a lleoliadau gynllunio a/neu fabwysiadu cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm, gan ddarparu ar gyfer dilyniant priodol fel y gall dysgwyr ddod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd

- **unigolion iach, hyderus** sy’n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.[6]

Mae Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn darparu gwybodaeth bellach am sut y mae'n ofynnol i ysgolion ddatblygu gweledigaeth a dylunio cwricwlwm sy’n ymgorffori’r pedwar diben. Noda'r canllawiau y dylai ysgolion sicrhau cwricwlwm 'datblygiadol briodol' sy'n galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd ystyrlon. Cydnabyddir y bydd cyflymder cynnydd dysgwyr yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau pob dysgwr unigol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Gwerthusiad o'r system ADY**

*Nodau'r gwerthusiad*

1.35 Nod yr astudiaeth hon yw cynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r system ADY. Mae hyn yn cynnwys datblygu theori newid ar gyfer y diwygiadau, a deall gweithrediad y system, ynghyd ag effeithiau sy'n dod i'r amlwg, ac i ba raddau y mae disgwyliadau'n cael eu bodloni. Mae'r gwerthusiad hefyd yn anelu at nodi rhwystrau a hwyluswyr i weithredu'r system, a nodi mesurau y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi gweithredu a gwireddu amcanion polisi.

1.36 Amcanion yr ymchwil yw:

- creu model rhesymeg a theori newid sy’n cydweddu orau â’r cyd-destun, y dull gweithredu, y rhagdybiaethau, a’r deilliannau a’r effeithiau a ddisgwylir o'r system
- sefydlu dull gwerthuso a all fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil
- canfod i ba raddau y mae’r Ddeddf ADY a’r Cod ADY yn cael eu gweithredu fel y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY a’r Cod ADY
- y ffactorau sy'n hwyluso gweithrediad y system a'r rhai sy'n llesteirio hynny
- profiadau cychwynnol plant a phobl ifanc a’u teuluoedd o’r system ADY gan gynnwys eu profiadau o wneud penderfyniadau am ADY, y prosesau sy’n

[6] Cynllun y cwricwlwm a'r pedwar diben

gysylltiedig â datblygu cynlluniau datblygu unigol (CDUau) ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) a drefnwyd

- canfod profiadau cychwynnol o'r system ADY o safbwynt y rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY
- ymchwilio i gostau ac effeithiau ariannol gweithredu'r diwygiadau, a fydd yn cael ei gyflawni drwy ddulliau ansoddol
- canfod effeithiau cychwynnol gweithredu'r system ADY
- nodi dangosyddion cynnar tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch effeithiolrwydd ac effaith debygol y system ADY mewn perthynas â'r deilliannau disgwyliedig.

*Trosolwg o'r cynllun gwaith*

1.37 Mae cynllun gwaith y gwerthusiad yn seiliedig ar bum cam gweithgaredd, a grynhoir yn Nhabl 2, isod. Mae'r camau hyn yn cynnwys ystod o ddulliau sy'n ceisio cydbwyso ehangder yr ymgysylltiad ag ymarferwyr, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid ledled Cymru a gwaith ymchwil manwl mewn sampl o ardaloedd lleol i ddeall, mor llawn â phosibl, y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r system ADY. Mae'r cynllun ymchwil yn cynnwys agwedd hydredol, gyda dau gam ymchwil ansoddol (Camau 2 a 4) a dwy rownd o arolygon (Camau 3 a 5).

**Tabl 2. Camau o weithgaredd a gynlluniwyd yn ystod y gwerthusiad**

| Cam |
|---|
| **Cam 1: Theori newid a'r cam cwmpasu**<br>(Mawrth-Hydref 2023) |
| **Cam 2: Gwerthusiad o'r broses weithredu – astudiaethau ardal ADY**<br>(Tachwedd 2023 - Medi 2024) |
| **Cam 3: Gwerthusiad o'r broses weithredu – arolygon o ymarferwyr a rhieni/gofalwyr**<br>(Ebrill-Tachwedd 2024) |
| **Cam 4: Gwerthusiad o effeithiau cynnar a chynnydd – astudiaethau ardal ADY**<br>(Medi 2024 - Medi 2025) |
| **Cam 5: Gwerthusiad o effeithiau cynnar a chynnydd – arolygon o ymarferwyr**<br>(Tachwedd 2025 - Medi 2026) |

**Ynglŷn â'r adroddiad hwn**

*Diben yr adroddiad cwmpasu*

1.38 Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi canfyddiadau’r cam cwmpasu a hefyd llywio ac arwain Camau 2 i 5 y gwerthusiad ffurfiannol. Ar ôl nodi’r fethodoleg ar gyfer y cam cwmpasu, mae’n cyflwyno’r allbynnau o gam cwmpasu’r astudiaeth mewn tair adran wahanol (Penodau 3-5):

- Yn gyntaf, mae’n esbonio theori newid ar gyfer y system ADY, gan gyfeirio at ymchwil desg, cyfweliadau a gweithdai gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn a haf 2023. Bwriad y theori newid yw helpu i nodi'r cwestiynau ymchwil allweddol a'r meysydd ymchwilio sy'n flaenoriaeth ar gyfer y gwerthusiad.
- Yn ail, mae'n anelu at lywio’r gwaith o gasglu data cynradd drwy gyfuno gwybodaeth a thystiolaeth bresennol mewn perthynas â gweithredu’r system ADY. Mae'r ymarfer hwn hefyd yn werthfawr o ran nodi materion y mae angen rhoi sylw arbennig iddynt yn ystod gwaith maes gydag ymarferwyr, rhanddeiliaid, dysgwyr a rhieni/gofalwyr.
- Yn drydydd, mae'n archwilio'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn gallu archwilio'r mewnbynnau, y gweithgareddau, y deilliannau a'r effeithiau a nodir yn y theori newid.

1.39 Ein bwriad yw i'r adroddiad yn helpu i sicrhau bod gwaith maes y gwerthusiad yn canolbwyntio’n ddigonol ar y materion hynny sydd bwysicaf i weithrediad llwyddiannus y system ADY.

## 2. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn rhoi manylion y fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod y cam cwmpasu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr ymchwil desg a wnaed, y gwaith maes a gwblhawyd, y prosesau dadansoddol a'u cyfyngiadau. Mae'n cynnwys adrannau ar wahân sy'n crynhoi'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r theori newid, i gynnal y synthesis o dystiolaeth, ac i gwblhau'r ymarfer mapio data.

**Dull o ddatblygu'r theori newid**

2.1 Datblygwyd y theori newid drwy broses ailadroddol, yn seiliedig ar gyfuniad o ddulliau ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil desg, gan adolygu dogfennau polisi a chanllawiau allweddol yn ymwneud â'r system ADY. Edrychodd yr adolygiad hwn hefyd ar amrywiaeth o adroddiadau ymchwil - wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi - a oedd yn canolbwyntio ar y broses weithredu hyd yma. Nod yr adolygiad o ddogfennau oedd deall sut yr oedd gweithgareddau allweddol, deilliannau ac effeithiau disgwyliedig y system ADY wedi'u mynegi a'u dehongli gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid amrywiol. Adolygodd y tîm gwerthuso hefyd fodel rhesymeg drafft ar gyfer y Cod ADY a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'r dogfennau a adolygwyd wedi'u cynnwys yn y llyfryddiaeth a restrir yn Atodiad B.

2.2 Cafodd cyfres o gyfweliadau a gweithdai eu cynnal dros gyfnod o chwe mis gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar draws y meysydd polisi addysg, iechyd a'r blynyddoedd cynnar. Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu hefyd gyda chynrychiolwyr o'r sector addysg bellach, awdurdodau lleol, BILlau, y trydydd sector a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Cynhaliwyd cyfanswm o 21 o gyfweliadau unigol neu drafodaethau mewn grwpiau bach ar wahanol gamau o ddatblygiad y theori newid a dau weithdy gyda swyddogion polisi. Roedd y trafodaethau hyn yn aml yn lled-strwythuredig, gan ganolbwyntio ar nodi ac archwilio deilliannau arfaethedig y system ADY ar gyfer dysgwyr, eu teuluoedd, ysgolion, ymarferwyr a chymdeithas, a chysylltu'r rhain â'r mewnbynnau a'r gweithgareddau y tybir eu bod yn eu cefnogi. Wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen, datblygodd y tîm ddrafftiau cynnar o'r theori newid, a'u trafod a'u hadolygu'n rheolaidd, ar ffurf darluniau ac adroddiadau ysgrifenedig. Roedd y trafodaethau'n aml yn dychwelyd at faterion yn ymwneud ag:

- elfennau'r theori newid:

    - pa mor gywir oedd y theori newid yn adlewyrchu elfennau allweddol o'r system ADY;
    - a oedd yr effeithiau a'r deilliannau a ragwelwyd wedi'u nodi'n gywir;
    - a oedd mewnbynnau a gweithgareddau allweddol wedi'u cofnodi'n briodol;
- <u>nodi risgiau a’r cyd-destun ehangach:</u>
    - y ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar, yn cefnogi neu'n helpu i siapio gweithrediad y system ADY;
    - y ffactorau allweddol sy'n galluogi gweithredu'r system yn effeithiol a'r rhwystrau i hynny;
- <u>y rhagdybiaethau canolog y mae’r theori newid yn seiliedig arnynt:</u>
    - y rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r system ADY ac y dylid eu harchwilio/profi yn ystod y gwerthusiad.

2.3 Roedd hyn yn golygu y mabwysiadwyd dull cydweithredol o ddatblygu’r theori newid: arweiniwyd y broses gan y tîm gwerthuso, ond cafodd ei chyd-greu ochr yn ochr â chydweithwyr polisi ADY a rhanddeiliaid, gan ddefnyddio cyhoeddiadau ac ymchwil a oedd yn bodoli eisoes.

**Synthesis o'r dystiolaeth**

2.4 Cynhaliwyd adolygiad cyflym o’r llenyddiaeth a oedd ar gael er mwyn cael darlun o weithrediad y system ADY. Roedd yr adolygiad hwn yn seiliedig yn bennaf ar ddogfennau a rannwyd gyda’r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys adroddiadau gweithredu mewnol a chanlyniadau chwiliad wedi’i dargedu a gynhaliwyd gan wasanaeth llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (gan ddefnyddio termau allweddol fel ‘Additional learning needs' a ‘special education needs’ yn y prif fynegeion addysg a gwyddorau cymdeithasol). At hynny, cynhaliwyd chwiliad ar-lein, gan ganolbwyntio ar ADY yng Nghymru.

**Mapio data**

2.5 Cynhaliwyd adolygiad desg oprincipaadf ffynonellau data i nodi setiau data y gellid eu mapio yn erbyn yr eitemau yn y theori newid. Ategwyd y broses hon gan

gyfweliadau ag ystadegwyr a rheolwyr data yn Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2023; roedd y rhain yn canolbwyntio ar ddeall argaeledd ffynonellau data yn ogystal ag unrhyw newidiadau a ragwelir a allai effeithio ar argaeledd data yn y dyfodol neu ddilyniant mewn setiau data. Roedd y cyfweliadau hefyd yn archwilio cyfyngiadau’r data a materion i’w hystyried wrth gael mynediad i setiau data a'u defnyddio fel rhan o'r gwerthusiad. Mae Pennod 5 yn cyflwyno canfyddiadau'r broses mapio data gan gynnwys i ba raddau y mae pob eitem yn y theori newid yn cael ei chwmpasu, pa fylchau neu gyfyngiadau sydd yn y data a beth yw'r goblygiadau i'r gwerthusiad.

# 3. Theori newid

3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r dull o ddatblygu'r theori newid; mae'n amlinellu ei swyddogaeth o ran cefnogi gwerthusiad y system ADY; ac yn ei dro, mae'n cyflwyno'r theori, gan egluro gwahanol elfennau'r theori drwy ddarluniau a naratif ategol.

### Cyflwyniad i'r theori newid a sut i'w defnyddio fel rhan o'r gwerthusiad

3.2 Dull sy’n esbonio sut y bwriedir i raglen (neu yn yr achos hwn, system) gyflawni ei nodau a’i hamcanion yw theori newid, drwy nodi'n glir y cysylltiadau tybiedig rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, deilliannau, ac effeithiau hirdymor. Mae’r dull yn rhoi cyfle i fyfyrio ar newidiadau cynnar a thymor canolig a allai ddeillio o ddiwygiadau, a’r ffactorau sy’n dylanwadu arnynt mewn gwahanol gyd-destunau. Mae’r Magenta Book, sef canllaw gwerthuso Llywodraeth y DU, yn nodi bod angen y canlynol er mwyn deall y theori newid:

> 'an understanding of how the intervention is expected to work in practice, e.g. the problem the intervention aims to address; the change it aims to bring about; the causal chain of events that are expected to bring about the change; the main actors; the groups expected to be impacted; and the expected conditions required for the intervention to succeed;
>
> exposing the assumptions upon which the intervention is based and the strength or weakness of the evidence supporting these assumptions;
>
> an examination of the wider context, such as other policy changes or changes in economic, social and environmental factors;
>
> designers and implementers of the intervention have the opportunity to stress-test the intervention design and ensure they agree on how the intervention is expected to work.’ (Magenta Book, Trysorlys EM 2020:24)

3.3 Mae’r rhan hon o’r adroddiad yn disgrifio theori newid ar gyfer y system ADY ac yn cyflwyno’r rhagdybiaethau y mae’r system yn seiliedig arnynt. Mae'r gwaith o ddatblygu'r theori newid yn seiliedig ar ystod o ddogfennau polisi a chanllawiau ac mae'n cydnabod y rhyng-ddibyniaethau rhwng y system ADY a datblygiadau a mentrau polisi eraill, yn nodedig y Cwricwlwm i Gymru.

3.4 Gellir cymhwyso theori newid ar wahanol adegau yng nghylch bywyd rhaglen neu brosiect:

> ‘theory of change thinking can be applied at different stages through the programme cycle [...] These include pre-planning stages of scoping and strategic analysis, design and planning, and throughout implementation. It can be used to

support [...] implementation decision-making and adaptation; to clarify the drivers, internal and external, around an existing initiative; monitor progress and assess impact.’ (Vogel 2012:12)

3.5 Mae’n bwysig nodi, yn yr achos hwn, y bydd y theori newid ar gyfer y system ADY yn cael ei defnyddio fel sail i'r dull o gynnal y broses werthuso dros y 4 blynedd nesaf, i gefnogi’r gwaith o ddylunio offer ymchwil ac i ddarparu pwynt cyfeirio er mwyn fframio canfyddiadau’r gwerthusiad. Fel y nodwyd yn yr adran ar fethodoleg, mae'n seiliedig yn bennaf ar y dogfennau sydd ar gael a mewnbwn gan randdeiliaid strategol. Ein bwriad yw adolygu a mireinio'r theori newid drwy gydol y gwerthusiad. Cam nesaf pwysig yn y broses fireinio hon fydd profi’r theori a’r rhagdybiaethau sy'n sail iddi drwy ymgysylltu ag ymarferwyr ar wahanol lefelau ar draws pob sector yn ogystal â dysgwyr, a’u teuluoedd.

**Trosolwg o'r theori newid ar gyfer y system ADY**

3.6 Wrth wraidd y broses ddiwygio mae trawsnewid i system anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed. Mae’r system ADY newydd hon yn disodli’r system anghenion addysgol arbennig (AAA) flaenorol a’r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD). Nod y Ddeddf a’r Cod ADY yw cefnogi’r gwaith o greu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo a chael mynediad i addysg sy’n diwallu ei anghenion ac sy'n ei alluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa ohono a’i fwynhau.[7]

3.7 Mae’r canllawiau statudol sydd wedi’u cynnwys yn y Cod yn berthnasol i amrywiaeth o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach, timau troseddau ieuenctid, BILlau, Ymddiriedolaethau’r GIG, Tribiwnlys Addysg Cymru a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a ariennir gan awdurdodau lleol.[8]

3.8 Fel y nodir ym mhennod 1, crëwyd fframwaith deddfwriaethol newydd sydd â’r nod o gefnogi system addysg gwbl gynhwysol sy’n sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr drwy:

[7] Cod ADY

[8] Mae rhestr lawn o’r awdurdodau y mae’n rhaid iddynt roi sylw i ddarpariaethau perthnasol y Cod i’w gweld yn adrannau 1.3-1.6 o’r Cod.

- ddull unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau a chanddo ADY, a phobl ifanc ag ADY mewn ysgolion neu addysg bellach
- proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

3.9 Caiff yr amcanion cyffredinol hyn yn y Ddeddf eu hatgyfnerthu gan un ar ddeg nod craidd y system ADY (gweler adran 1.12). Wrth wraidd y diwygiadau mae sicrhau bod y gwaith cynllunio a'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, mae'r theori newid yn dangos bod y gadwyn achosol sy'n arwain at wireddu'r dyheadau ar gyfer dysgwyr yn hir ac yn gymhleth. Mae’r theori newid yn dangos pwysigrwydd mewnbynnau system, a’r cymorth wedi’i dargedu a ddarperir i ymarferwyr i’w galluogi i gyflawni’r darpariaethau a’r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf a’r Cod. Elfen bwysig o’r theori yw bod y broses o weithredu’r system ADY yn cael ei llywio gan egwyddorion y Cod ac y dylai’r egwyddorion hyn gael eu gwreiddio mewn ymarfer a bod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau.

3.10 Mae'r theori newid yn rhagdybio bod cymorth priodol ar gael i sicrhau bod y mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY yn gallu cymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd, gan adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i addysg gynhwysol, a fynegir yn Amcan 3 o 'Cenhadaeth Ein Cenedl: Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb’ (Llywodraeth Cymru, 2023m), ac wedi’u cryfhau gan y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth sy’n rhoi pwys ar greu amgylcheddau dysgu cynhwysol.[9] At hynny, mae’r theori newid yn rhagdybio bod safonau uchel o addysgu a dysgu gan staff addysgu sydd â’r sgiliau a’r wybodaeth angenrheidiol i allu ymateb i anghenion unigol pob dysgwr, gan sicrhau bod dysgwyr ADY yn gallu cael mynediad i gwricwlwm sy’n eu cyfoethogi ac yn eu galluogi i wneud cynnydd o ran eu dysgu.

3.11 Yn hyn o beth, mae’r theori newid yn cydnabod y rhyng-ddibyniaethau rhwng y system ADY a’r broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac mae’n bwysig ystyried y theori newid yng nghyd-destun diwygiadau i'r cwricwlwm. Yn sail i'r ddau ddiwygiad

---

9 Mae creu amgylchedd dysgu effeithiol a chynhwysol yn un o ddisgrifyddion ymarfer effeithiol ar gyfer athrawon mewn rolau arweinyddiaeth ffurfiol o fewn safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017).

mae'r nod cyffredin o ddarparu system addysg fwy cynhwysol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion ac athrawon gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Mae'r adran 'galluogi dysgu' yng nghanllawiau 'cynllunio eich cwricwlwm' wedi'i datblygu i gefnogi uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau i gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm sy'n addysgegol briodol ar gyfer pob dysgwr.[10] Mae'r canllawiau hyn yn nodi y bydd ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY hefyd yn elwa o ddefnyddio'r canllawiau hyn i gefnogi un agwedd neu fwy ar eu datblygiad. Canfu ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar i weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru fod uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau yn cydnabod y cysylltiadau rhwng y diwygiadau i ADY a'r diwygiadau i'r cwricwlwm .[11] Nodwyd bod cyflwyno trefniadau'r cwricwlwm newydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer dulliau mwy cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

3.12 Mewn perthynas â dilyniant ac asesu, mae trefniadau'r cwricwlwm newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, gan gynnwys y rhai ag ADY. Mae addysgeg o ansawdd uchel a phrosesau asesu ffurfiannol effeithiol sy'n cefnogi dilyniant dysgwyr yn allweddol i gyflawni'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae ysgolion yn mabwysiadu ystod o ddulliau asesu sy'n galluogi'r ymarferwr a'r dysgwr i ddeall ble mae'r dysgwr wedi cyrraedd a beth sydd angen iddo'i wneud nesaf yn hollbwysig i gefnogi dysgwyr ag ADY a dysgwyr nad oes ganddynt ADY. Mae'r theori newid yn rhagdybio, wrth i'r system ADY gael ei rhoi ar waith, bod diwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn dod yn rhan bwysig o gynllun gwella ysgol, lleoliad neu sefydliad.

3.13 O ran deilliannau, rhagdybir bod gweithredu a sefydlu system ADY newydd yn cyfrannu at ystod o ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, eu teuluoedd, ymarferwyr a'r system addysg ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- system deg a thryloyw
- mwy o gydweithredu ac integreiddio
- llai o anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach
- cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy
- system ddwyieithog

[10] Gweler Cwricwlwm i Gymru: cynllunio eich cwricwlwm – galluogi dysgu

[11] Ymchwil gydag ysgolion ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn gynnar: cam 2

- mwy o ymddiriedaeth a hyder gan y cyhoedd yn y system ADY
- system symlach, lai wrthwynebol.

3.14 Mae'r theori newid hefyd yn awgrymu mai nod y system yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau hirdymor a chyfleoedd bywyd unigolion, yn ogystal â chanlyniadau cymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig â'r saith nod llesiant sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.15 Mae'r system ADY felly yn gosod dyheadau uchel ar gyfer dysgwyr ac ar gyfer cymdeithas yn ehangach. Bydd y gwerthusiad yn archwilio i ba raddau y mae'r gweithgareddau a'r deilliannau a ddisgrifir yn y theori newid yn cael eu gwireddu'n ymarferol, ac ym mhrofiadau unigolion a gefnogir gan y system ADY a sefydliadau sy'n ymwneud â hi.

**Strwythur y theori newid**


3.16 Mae'r theori newid wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Mewnbynnau'r system, gan gynnwys cyllid (cyllid craidd a chyllid grant), datblygu'r gweithlu a gweithgareddau eraill**, *sy'n cefnogi:*
    - **deilliannau tymor byr** ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr, lleoliadau (gan gynnwys lleoliadau'r blynyddoedd cynnar nas cynhelir, ysgolion, UCDau, lleoliadau AHY a darparwyr ôl-16) a'r system ehangach.
- **Cyflwyno'r system ADY** (ar lefel ysgol a sefydliad mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws awdurdodau lleol ac iechyd)
- Cefnogir y ddau uchod gan **ffactorau ar lefel system a ffactorau cyd-destunol,** sydd, gyda'i gilydd yn cefnogi:
    - **deilliannau tymor canolig** ar gyfer plant a phobl ifanc, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr yn ogystal â'r system ADY yn ei chyfanrwydd:
        - gan gynnwys eu profiadau, eu cynnydd a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
    - **deilliannau tymor hwy** (cymdeithasol):

- cyfrannu at y deilliannau dymunol a nodir yn y cod ADY a'r nodau ehangach a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r strategaeth *Cymraeg 2050*.


3.17 Cyflwynir y theori newid ar ffurf darlun yn Ffigurau 1, 2 a 3 ar y tudalennau canlynol. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg sgematig o brif elfennau'r theori newid, fel y disgrifir uchod. Dilynir hyn gan ddarlun manylach mewn dwy ran (Ffigurau 2 a 3). Mae'r trosolwg sgematig yn cynnwys saethau sy'n dangos y llif tybiedig o fewnbynnau i gyflawni gweithgareddau, ac yna ddeilliannau tymor canolig a thymor hwy. Mae'r trosolwg sgematig (a lefel uchaf y darluniau manwl) hefyd yn dangos bod gwybodaeth a dysg yn llifo ddwy ffordd fel rhan o'r theori. Mae yna ragdybiaeth na all gweithredu'r system ADY fod yn broses gwbl unionlin – o reidrwydd, bydd gwersi'n cael eu dysgu o ddeilliannau tymor byr ac o weithgarwch gweithredu a fydd, er enghraifft, yn sail i weithgaredd i gefnogi'r gweithlu a'r ffordd y caiff cyllid ac adnoddau eraill eu defnyddio.

**Ffigur 1. Theori newid ar gyfer y system ADY - darlun sgematig**





Mae'r ffigur hwn yn rhoi trosolwg o'r theori newid. Rhoddir rhagor o fanylion am bob un o'r segmentau lliw yn y darluniau manwl ar y tudalennau canlynol. Pwrpas yr offeryn hwn yw cynorthwyo'r broses o ddatblygu polisïau a phroses werthuso.

**Ffigur 2. Theori newid ar gyfer y system ADY: mewnbynnau, deilliannau tymor byr a gweithredu (Tudalen 1 o 2)[12]**




12 Diben yr offeryn hwn yw cefnogi a llywio gwerthusiad o'r system ADY. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith cynllunio neu ddarpariaeth gan ysgolion a sefydliadau.

**Ffigur 3. Theori newid ar gyfer y system ADY: gweithredu, deilliannau tymor canolig a hirdymor (Tudalen 2 o 2)**



### Esboniad o'r theori newid

3.18 Mae'r is-adrannau a ganlyn yn rhoi esboniad ar ffurf naratif o elfennau unigol y theori newid, gan ddechrau gyda'r mewnbynnau a'r gweithgareddau ac mae'n trafod pob elfen yn ei thro. Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno rhagor o fanylion am yr eitemau unigol, yn esbonio sut y disgwylir iddynt gyfrannu at gefnogi'r broses o weithredu a/neu wireddu deilliannau bwriadedig y system ADY, a hefyd yn nodi rhagdybiaethau perthnasol sy'n ymwneud â phob rhan o'r theori newid.

3.19 Gyda'i gilydd, rhagdybir bod y mewnbynnau a'r gweithgareddau yn cyfrannu at gyflawni deilliannau tymor byr i blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr a deilliannau o ran y system megis system gynhwysol, deg a thryloyw. Yn eu tro, rhagdybir y bydd y deilliannau hyn yn cefnogi gweithredu'r system ADY. Yn benodol, rhagdybir y bydd ymarferwyr sydd â'r ymwybyddiaeth, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau, yr hyder a'r galluoedd i gefnogi'r system yn sicrhau bod yr egwyddor o system addysg gynhwysol yn cael ei chyflawni'n ymarferol. At hynny, mae'r theori newid yn honni y bydd gweithredu'r system yn effeithiol, fel sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau'r Cod, yn arwain at ystod o ddeilliannau tymor canolig a thymor hwy i ddysgwyr, eu teuluoedd, i ymarferwyr ac, yn y pen draw, i gymdeithas yn ehangach.

3.20 Mae'r cyfeiriadau at *ymarferwyr* yn y bennod hon yn cynnwys arweinwyr (mewn ysgolion a sefydliadau AB fel ei gilydd), athrawon, staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau, darlithwyr a thiwtoriaid mewn sefydliadau AB. Defnyddir *gweithwyr proffesiynol* fel term cyffredinol i gyfeirio at reolwyr gwasanaethau, swyddogion, ac eraill mewn rolau cynllunio, darparu a chefnogi ar draws pob sector, gan gynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

### Mewnbynnau a gweithgareddau

3.21 Er mwyn galluogi ysgolion[13], sefydliadau, awdurdodau lleol, BILlau a phartneriaid eraill i weithredu'r system ADY mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision bwriadedig i ddysgwyr, mae angen darparu cyllid sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol, gwybodaeth ac arweiniad, rhaglenni datblygu'r gweithlu, a chyfleoedd i gydweithio. Mae'r adran hon yn amlinellu ystod o fewnbynnau i'r system ac yn disgrifio'r deilliannau tymor

[13] Yn cynnwys ysgolion, ysgolion meithrin a gynhelir, ac unedau cyfeirio disgyblion.

byr a ddaw yn eu sgil. Mae’r deilliannau tymor byr hyn yn berthnasol i blant a phobl ifanc, ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy’n ymwneud â’r system ADY mewn ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, awdurdodau lleol a BILlau.

*Cyllid*

3.22 Cefnogir y system ADY mewn ysgolion gan gyllid Llywodraeth Cymru ar ffurf cyllid craidd ar gyfer gwasanaethau addysg, a roddir i awdurdodau lleol ac a reolir ganddynt, yn ogystal â grantiau penodol ac arbennig gan y llywodraeth (e.e. grant arloesi ADY, grant trawsnewid ADY, cyllid ar ôl y pandemig). Roedd y gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth AAA/ADY yn 2023-24 yn £549 miliwn.[14] Cyfanswm y cyllid a ddarparwyd drwy grantiau i gefnogi ADY oedd £2.1 miliwn drwy’r Grant Arloesi rhwng 2016-2018; £20 miliwn fel rhan o’r Grant Trawsnewid ADY rhwng 2018-2020; a £77 miliwn mewn cyllid ar ôl y pandemig rhwng 2021-23.[15] (Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data sy’n ymwneud â chyllido ADY yn adran 5 o’r adroddiad hwn). Cefnogir darpariaeth mewn sefydliadau AB drwy gyllidebau craidd colegau. Ariennir DDdY hefyd gan BILlau.[16]

3.23 Daeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd i gynorthwyo gyda chraffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (y Bil) i’r casgliad fod 'disgwyl i’r Bil arwain at arbedion cost'. Os felly, nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd:

> ‘Yn ogystal â chydnabod yr arbedion posibl a allai ddeillio o gyflwyno’r opsiynau a ffefrir, mae’r asesiad effaith rheoleiddiol yn cydnabod na wyddom i ba raddau y caiff yr arbedion eu cyflawni’ (Asesiad Effaith Rheoleiddiol, tud. 94).

Cydnabu’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei bod yn debygol y byddai costau pontio ychwanegol o £11.65 miliwn yn dod i ran Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

3.24 Waeth beth fo’r costau pontio a pharhaus gwirioneddol yn sgil gweithredu’r system ADY, mae’r theori newid yn rhagdybio bod digon o gyllid ar gael i’r holl bartneriaid

[14] Gwariant sydd wedi'i Gyllidebu ar gyfer Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) 2023-24 (

[15] Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (Estyn)

[16] Gall hyn gynnwys cymorth a ddarperir gan therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, CAMHS, pediatreg gymunedol, gwasanaethau anableddau dysgu, gwasanaethau niwroddatblygiadol a thimau gofal sylfaenol.

cyflwyno i sicrhau bod y capasiti a'r cymorth angenrheidiol ar gael i wireddu nodau'r diwygiadau.

**Rhagdybiaethau'n ymwneud â chyllid**

- **Rh1:** Darperir digon o adnoddau i'r holl bartneriaid cyflwyno ar draws y system ADY i alluogi awdurdodau lleol, ysgolion, BILlau a'r holl bartneriaid perthnasol i gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn y Cod ADY ac i alluogi nodau'r diwygiadau i gael eu gwireddu.
- **Rh2:** Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y system ADY yn sicrhau bod gan y gweithlu ddigon o gapasiti i ddarparu cymorth a darpariaeth o ansawdd uchel, a hynny'n gyson, i ddysgwyr ADY ym mhob ardal leol.
- **Rh3:** Nid yw amrywiadau mewn trefniadau cyllido ar lefelau lleol a rhanbarthol yn cael effaith negyddol ar ansawdd y cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ADY mewn gwahanol rannau o Gymru.

*Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar y system ADY*

3.25 Mae paratoi a lledaenu gwybodaeth a chanllawiau priodol yn hanfodol i sicrhau bod pawb (plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr, partneriaid ar draws y system) yn glir ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y system ADY, beth yw eu rôl, a'r paratoadau angenrheidiol i gefnogi gweithredu'r system. Mae hyn yn cwmpasu ystod eang o fewnbynnau, gan gynnwys canllawiau cyhoeddedig ar lefel genedlaethol mewn amrywiaeth o fformatau, ond hefyd cyngor ac arweiniad a ddarperir drwy fecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol (e.e. gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan Arweinwyr Trawsnewid, gan arweinwyr strategol mewn ysgolion a chan sefydliadau AB).

3.26 Mae'r theori newid yn cynnig bod y mewnbynnau hyn yn cyfrannu at well ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system ADY ymhlith plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr ac ymarferwyr a phartneriaid cyflwyno'r system yn y maes addysg, mewn awdurdodau lleol ac yn y maes iechyd.

| Rhagdybiaethau'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad |
| --- |
| ○ **Rh4:** Mae gwybodaeth a chanllawiau cenedlaethol o ansawdd uchel ar gael ar y system ADY, sy'n cael eu defnyddio a'u deall gan weithwyr proffesiynol.<br>○ **Rh5:** Mae gwybodaeth a chanllawiau lleol a rhanbarthol ar gael ar y system ADY sy'n cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol ac sy'n cael eu defnyddio a'u deall gan weithwyr proffesiynol.<br>○ **Rh6:** Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn cyfrannu at eglurder y disgwyliadau ymhlith pawb sy'n ymwneud â'r system ADY.<br>○ **Rh7:** Gwneir dysgwyr a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r system ADY a sut y cânt eu cefnogi o dan y trefniadau newydd.<br>○ **Rh8:** Mae canllawiau ymarferol ar gael i ymarferwyr ym myd addysg ac i bartneriaid cyflwyno ar draws y system i gynorthwyo gyda'r paratoadau ar gyfer y system ADY ac i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY yn meddu ar y ddealltwriaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen i roi'r diwygiadau ar waith. |

*Rhaglen trawsnewid ADY a'r rolau sy'n cael eu creu i gefnogi pontio i'r system ADY*

3.27 Mae'r rhaglen trawsnewid ADY a chreu'r capasiti i gefnogi'r broses bontio yn fewnbwn allweddol yn y theori. Roedd y rhaglen drawsnewid yn cefnogi'r broses o bontio o'r systemau AAA ac AAD blaenorol i system unedig o gefnogi dysgwyr 0 i 25 oed sydd ag ADY.

3.28 Mae'r elfen hon o'r theori newid hefyd yn cyfeirio at y rolau a'r swyddogaethau a gyflawnir gan Arweinwyr Trawsnewid fel mewnbwn tymor byr i ganolig a hefyd penodi unigolion i'r rolau statudol newydd sy'n hanfodol i weithrediad effeithiol y system ADY yn y tymor hwy. Fel y disgrifir yn adran 1.23, chwaraeodd Arweinwyr Trawsnewid rôl allweddol wrth reoli'r broses o bontio i'r system newydd, gan roi cymorth i bartneriaid cyflwyno a'u herio. Mae rolau statudol CADY, SACDA a'r Cydlynydd ADY Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys swyddogaethau strategol hanfodol a fydd yn llywio gweithgaredd ac ymddygiad mewn ysgolion, sefydliadau AB, ac ymhlith partneriaid cyflwyno eraill.

3.29 Mae mewnbwn unigolion yn y rolau hyn yn cyfrannu at gynnydd mewn cyfalaf dynol sy'n un o amodau hanfodol y system ADY, gan gynnwys gwella sgiliau a hyder

ymarferwyr i gefnogi dysgwyr ag ADY. Mewn lleoliadau addysg, mae gwaith CADYau ac uwch dimau arwain yn hanfodol i gefnogi athrawon a staff cymorth i ddarparu gweithgaredd addysgu a dysgu o ansawdd uchel sy'n cefnogi DDdY.

| **Rhagdybiaethau sy'n ymwneud â'r rhaglen trawsnewid ADY a chreu rolau sy'n cefnogi pontio i'r system ADY** |
|---|
| ○ **Rh9:** Mae'r Cod a'r Ddeddf ADY yn ddigon clir ac mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn eu deall.<br>○ **Rh10:** Mae'r rhaglen trawsnewid ADY yn adlewyrchu egwyddorion y cod ADY ac yn rhoi i ymarferwyr ac arweinwyr ym mhob sector y sgiliau, y wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o'r Ddeddf a'r Cod i gefnogi gweithredu'r system ADY.<br>○ **Rh11:** Mae gwaith Arweinwyr Trawsnewid a gwaith y rolau statudol a grëwyd o dan y Ddeddf yn cefnogi gwell ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY. |

*Datblygu'r gweithlu a gweithgaredd dysgu proffesiynol*

3.30 Mae'r theori newid yn rhagdybio bod gweithgaredd datblygu'r gweithlu o ansawdd uchel a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i gefnogi gweithredu'r system a bod ymarferwyr mewn ysgolion a SABau a gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd ac mewn awdurdodau lleol yn gallu manteisio ar gyfleoedd o'r fath. Mae gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn hanfodol i lwyddiant y system ADY. Trefnir gweithgaredd dysgu proffesiynol o amgylch y weledigaeth hirdymor ar gyfer dysgwyr. Mae'n wahaniaethol iawn ac wedi'i osod yn ei gyd-destun, gan adlewyrchu anghenion y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion, mewn AB ac mewn sectorau eraill. Mae'n defnyddio arbenigedd ochr yn ochr â chymorth gan gymheiriaid ac yn cynnwys archwilio effaith ymarfer ar ddysgwyr. Gall dysgu proffesiynol helpu i herio a newid y sefyllfa sydd ohoni. Gall hefyd hyrwyddo cyfleoedd rhwydweithio ac annog y defnydd o dystiolaeth a phrofiadau i ymchwilio i ymddygiad a chredoau ymarferwyr.

3.31 Mae'r theori newid yn cynnig bod dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau, hyder a galluoedd ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn ffyrdd sy'n gwella ymarfer proffesiynol. Mae diwylliant cryf o

ddysgu proffesiynol ar draws y system, wedi'i ysgogi gan ymarferwyr sy'n fframio eu datblygiad eu hunain yng nghyd-destun y system ADY.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â gweithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr** |
|---|
| ○ **Rh12:** Mae digon o gefnogaeth ar gael i weithredu'r system ac ar gyfer a gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn ymwneud â'r system ADY yn ogystal â chyfle cyfartal i gael mynediad i'r rhain.<br>○ **Rh13:** Mewn ysgolion a sefydliadau AB, mae gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu a'i gynnal ac mae lefel briodol o ffocws ar ddysgwyr ag ADY. Mae gweithgaredd dysgu proffesiynol i gefnogi ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol i ddeall gofynion y system ADY wedi'i ymgorffori'n ddigonol yng nghynlluniau gwella ysgolion neu sefydliadau. Mae gweithgaredd dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio i ystyried y cyd-destun y mae ymarferwyr yn gweithio ynddo. Mae'n defnyddio arbenigwyr ochr yn ochr â chymorth gan gymheiriaid ac yn cynnwys ymchwilio i dystiolaeth o'r effaith ar ddysgwyr.<br>○ **Rh14:** Mae dysgu proffesiynol (e.e. LIDPC ADY) yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i ymarferwyr ac arweinwyr ym mhob sector i gefnogi gweithredu'r system ADY, gan gynnwys adnabod, cynllunio a diwallu anghenion dysgwyr.<br>○ **Rh15:** Mae safonau proffesiynol yn cefnogi ymarferwyr sy'n deall y system ADY, sydd wedi ymrwymo iddi, ac wedi'u paratoi'n ddigonol i adnabod ADY, diwallu anghenion unigol dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth a darparu DDdY.<br>○ **Rh16:** Mae trefniadau arolygu yn darparu cymorth a her briodol i sicrhau bod rhaglenni dysgu proffesiynol yn rhaglenni o ansawdd uchel ac yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r system ADY. |

*Dysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ar draws y system ADY*

3.32 Mae'r theori newid yn tanlinellu pwysigrwydd gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i gefnogi arweinyddiaeth. Dylai gweithgaredd dysgu proffesiynol ganolbwyntio ar y galluoedd sydd eu hangen i arwain y broses o weithredu'r system ADY mewn ffordd sy'n cefnogi'r weledigaeth a'r gofynion a nodir yn y Cod ADY. Mae'r galluoedd hyn yn cynnwys gwybodaeth ddofn o'r gofynion a amlinellir yn neddfwriaeth a chod ADY, a'r nodweddion y byddai eu hangen ar bob arweinydd, sef sgiliau rhyngbersonol a sgiliau datrys problemau cryf, a galluoedd i ddatblygu rhwydweithiau a chryfhau ymddiriedaeth o fewn ac ar draws ysgolion.

3.33 Bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi ystod o ddeilliannau sy'n bwysig i weithrediad llwyddiannus y system ADY. Yn gyntaf, bydd y cymorth yn sicrhau gwell gallu ymhlith arweinwyr er mwyn cefnogi datblygiadau mewn gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth a hyder ymarferwyr. Bydd arweinwyr yn gallu meithrin amgylchedd, diwylliant ac amodau sy'n briodol i weithredu'r system ADY yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cefnogi diwylliant o welliant parhaus ymhlith ymarferwyr. Bydd arweinwyr mewn gwell sefyllfa i gefnogi ymgysylltu ag ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Rhagdybiaethau'n ymwneud â gweithgaredd dysgu proffesiynol i arweinwyr**

- **Rh17:** Mae digon o weithgaredd dysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd ac sy'n canolbwyntio ar yr egwyddorion a'r dyletswyddau a amlinellir yn y Ddeddf a'r Cod ADY.
- **Rh18:** Ceir gweithgaredd dysgu proffesiynol ffurfiol ac anffurfiol i sicrhau dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau statudol, ac i gefnogi rheoli a darparu'r system ADY ar gael i bob arweinydd.

*Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), rhaglenni sefydlu a chymorth gyrfa gynnar*

3.34 Mae'r theori newid yn rhagdybio bod AGA a chymorth gyrfa gynnar yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu er mwyn eu helpu i weithredu'r system ADY. Mae rhaglenni AGA yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad athrawon dan hyfforddiant (mewn perthynas ag addysgeg, cydweithio, arloesi, dysgu proffesiynol

ac arweinyddiaeth) sy'n gyson ag egwyddorion y cod ADY. Mae rhaglenni sefydlu a chymorth gyrfa gynnar yn ymgorffori arferion gwaith sy’n sicrhau safonau uchel ymhlith ymarferwyr ac sy’n gyson ag egwyddorion y Cod ADY.

3.35 Mae’r theori newid yn tanlinellu’r angen i ymarferwyr gydnabod o ddechrau eu gyrfaoedd eu bod yn rhan arwyddocaol o’r broses o weithredu'r system ADY ac y gallant gyfrannu mewn ffyrdd ystyrlon at y gorchwyl o ddatblygu system addysg o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae gan newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn y sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r system ADY, a bodloni'r disgrifyddion lefel sefydlu ar gyfer addysgu a nodir yn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

| Rhagdybiaethau'n ymwneud ag AGA a chymorth gyrfa gynnar |
| --- |
| ○ **Rh19:** Mae rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer newydd-ddyfodiaid (gan gynnwys AGA, sefydlu ac Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO)) yn cynnwys dysgu digonol ar egwyddorion y cod ADY ac mae cynnwys y rhaglen yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol. |
| ○ **Rh20:** Mae partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), darparwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO), ymarferwyr a mentoriaid yn datblygu newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu sy’n deall y system ADY ac sydd wedi ymrwymo iddi. |
| ○ **Rh21:** Mae partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), darparwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO), ymarferwyr a mentoriaid yn datblygu newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu sy’n meddu ar y sgiliau i adnabod anghenion dysgwyr ag ADY, cynllunio ar eu cyfer a diwallu eu hanghenion. |

*Cydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol megis gweithwyr iechyd proffesiynol*

3.36 Mae cydweithio effeithiol yn rhan sylfaenol o’r system ADY, lle mae gwasanaethau’n cydweithio i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod cymorth cydgysylltiedig yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gael profiadau cadarnhaol a chyflawni deilliannau da. Yn ystod y blynyddoedd

gweithredu cychwynnol mae cydweithio rhwng ysgolion, SABau, awdurdodau lleol a phartneriaid iechyd yn hollbwysig fel y gellir rhannu profiadau o bontio i'r system newydd a nodi unrhyw heriau a mynd i'r afael â nhw. Mae'r theori newid yn rhagdybio bod rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a thraws-sector yn cael eu hwyluso i ddarparu cyfleoedd i drafod profiadau a rhannu gwybodaeth.

3.37 Bydd cydweithio yn cefnogi dealltwriaeth ar draws y system addysg ehangach o’r cynnydd a wneir o ran gweithredu’r system ADY, ynghyd â dealltwriaeth o’r heriau a wynebir ac ymatebion i’r heriau hyn. Bydd cydweithio rhwng lleoliadau sy'n cynnwys uwch arweinwyr, arweinwyr canol ac ymarferwyr, yn ogystal â phartneriaid allanol, yn golygu bod y gwaith gweithredu’n cael ei gefnogi a’i hyrwyddo ar bob lefel.

**Rhagdybiaethau'n ymwneud â chydweithio rhwng lleoliadau a phartneriaid allanol megis gweithwyr iechyd proffesiynol**

- **Rh22:** Mae ymrwymiad ymhlith lleoliadau i gydweithio ar bob cam o'r broses a gallant wneud hynny. Mae cyfleoedd i bartneriaid cyflwyno ymgysylltu â rhwydweithiau i rannu'r hyn a ddysgir a'u profiadau o’r system ADY.
- **Rh23:** Ceir cydbwysedd priodol rhwng her a chymorth, sy'n arwain at weithgaredd cydweithredol sy'n gynhyrchiol, ac nad yw'n tanseilio paratoadau ysgolion.
- **Rh24:** Mae’r system ADY yn cefnogi pontio rhwng lleoliadau a rhwng addysg brif ffrwd ac addysg arbennig, a dilyniant i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16

**Deilliannau tymor byr a pharhaus**

3.38 Mae'r theori newid yn awgrymu y bydd y mewnbynnau a'r gweithgareddau a amlinellir uchod yn cyfrannu at ystod o ganlyniadau tymor byr y dylid eu hymwreiddio wrth i'r system ADY gael ei rhoi ar waith. Yn achos **plant a phobl ifanc, a'u rhieni/gofalwyr**, bydd darparu gwybodaeth ac arweiniad yn genedlaethol ac yn lleol yn arwain at well ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r system ADY. Bydd rhieni a gofalwyr hefyd yn cael eu cefnogi i ddeall eu hawliau a’r rhan y maent yn ei chwarae mewn penderfyniadau am DDdY, ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r broses datrys anghydfodau o dan y system ADY.

3.39 Bydd **ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol** hefyd yn datblygu gwell ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth. Dylai cyfleoedd datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol gyfrannu at fwy o hyder i gefnogi'r system ADY a gwella sgiliau er mwyn gallu cefnogi dysgwyr ag ADY. Mewn ysgolion a sefydliadau AB, mae gan dimau arwain rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod gwaith cynllunio a darpariaeth yn canolbwyntio ar y dysgwr ac o ran goruchwylio ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r theori hefyd yn cynnig y bydd cydweithio a dysgu proffesiynol (gan gynnwys dysgu proffesiynol wedi'i dargedu at arweinwyr) yn meithrin ymrwymiad i'r egwyddorion a nodir yn y Cod ADY ac awydd ymhlith arweinwyr i sicrhau dull ysgol/sefydliad cyfan o sicrhau DDdY o ansawdd uchel. Mae arweinyddiaeth glir a gwybodus yn hanfodol i sicrhau bod ymarferwyr yn deall y ffyrdd newydd o weithio sy'n ofynnol gan y diwygiadau ac yn ymrwymedig i hynny. Yn benodol, bydd arweinwyr ysgolion yn sicrhau cyfatebiaeth strategol rhwng gweithredu'r system ADY a threfniadau'r cwricwlwm newydd, gan sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael mynediad priodol i'r cwricwlwm.

3.40 Mae'r theori newid yn dangos y bydd yr ystod o weithgareddau ar gyfer ymarferwyr yn cefnogi **deilliannau system gyfan** yn y tymor byr. Bydd penodi unigolion i rolau statudol CADY, SACDA, a Chydlynydd ADY y Blynyddoedd Cynnar yn sicrhau bod dull strategol o gynllunio a darparu ADY yn cael ei fabwysiadu, wedi'i arwain gan ddarpariaethau'r Ddeddf a'r Cod. Bydd y rolau hyn hefyd yn helpu i hwyluso gwell cydweithio, rhannu gwybodaeth ac ymddiriedaeth ymhlith ymarferwyr, lleoliadau a phartneriaid cyflwyno.

### Ffactorau ar lefel system a ffactorau cyd-destunol

3.41 Mae darluniau'r theori newid (Ffigurau 1-3) yn cyfeirio at ffactorau ar lefel system sy'n cyfrannu at weithrediad y system ADY neu sy'n dylanwadu ar hynny. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion y system addysg ehangach, polisïau penodol, diwygiadau ac ymrwymiadau ar draws y meysydd addysg ac iechyd a fydd yn effeithio ar ymarfer, ymddygiad yn ogystal â deilliannau. Mae'r adran hon yn rhestru ystod o ffactorau ar lefel system sy'n darparu cyd-destun ychwanegol i'r system ADY ac, mewn theori, yn cefnogi gweithredu'r system a'r deilliannau. Mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn:

- **Y Ddeddf a'r Cod ADY:** deddfwriaeth a chanllawiau statudol sy'n amlinellu'r dyletswyddau cyfreithiol ar bartneriaid ar draws y system
- **Cwricwlwm i Gymru:** Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r theori newid yn rhagdybio, ochr yn ochr â DDdY, bod darpariaeth gynhwysol ar gael i ddysgwyr, wedi'i datblygu yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. Noda'r canllawiau yr angen i ysgolion '[g]ynllunio cyfleoedd dysgu datblygiadol briodol, wedi'u llywio gan waith arsylwi rheolaidd ac asesiadau parhaus o ddysgu a chyfnod datblygu'r dysgwr.'[17] Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr, lleoliadau a'r rhai sy'n eu cefnogi gydweithio'n effeithiol i sicrhau bod addysgeg o ansawdd uchel ar waith sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni ei botensial.
- **Y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol (NAPL):** gan gynnwys yr hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, rhaglenni dysgu proffesiynol, prosiect ymholiad proffesiynol cenedlaethol (PYPC), Gradd Meistr Genedlaethol mewn Addysg, AGA, a strategaethau datblygu'r gweithlu ar draws yr holl sectorau perthnasol, a fydd yn effeithio ar ddatblygiad y rhai sy'n ymgymryd â rolau statudol o dan y Ddeddf.
- **Cymru Iachach**: cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a'r strategaeth gweithlu gysylltiedig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- **GIG: Gweithio i wella** - y broses ar gyfer codi pryderon neu gwynion yn GIG Cymru
- **y fframwaith cymwysterau** i ddysgwyr
- **atebolrwydd** systemau, gan gynnwys trefniadau arolygu a gweithgareddau gwella ysgolion
- **hawl statudol i apelio** drwy Dribiwnlys Addysg Cymru
- **gweithgaredd monitro a gwerthuso** (e.e. adroddiadau gweithredu ac ymchwil, adolygiadau thematig Estyn) a gweithgareddau i gefnogi system sy'n seiliedig ar dystiolaeth (e.e. gweithgareddau grŵp llywio diwygio ADY).

[17] Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru (Addysgeg)

- **model cymdeithasol o anabledd:** mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n egwyddor arweiniol mewn ystyriaethau polisi sy'n dweud bod pobl yn cael eu gwneud yn anabl gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu nam neu wahaniaeth. Fel y nodir yn y Cod ADY, mae'r model cymdeithasol yn ddull cadarnhaol o ymdrin ag anabledd, sy'n canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gydraddoldeb – ac mae'n gyson â'r ymrwymiad i addysg gynhwysol sy'n sail i'r system ADY.
- **Cymraeg 2050** a Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg, sy'n cynnwys camau gweithredu i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu arbenigedd wrth gefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

3.42 Dylid nodi nad yw hon yn rhestr gyflawn ac mae yna hefyd fentrau a chynlluniau strategol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill a fydd yn dylanwadu ar agweddau ar y system ADY.

**Darparu system ADY**

3.43 Mae'r adran hon yn disgrifio nodweddion gweithredu'r system ADY sy'n ganolog i'r ddamcaniaeth newid. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfateb i elfennau craidd y Cod ADY ac wedi'u fframio gan ymrwymiad polisi i system ADY gynhwysol lle mae mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn addysg brif ffrwd. Mae llawer o'r agweddau hyn ar y system ADY yn rhyngddibynnol – adnabod yn gynnar, proses gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cydweithio rhwng gwasanaethau, prosesau adolygu glir a chadarn. Mae gweithredu effeithiol ym mhob maes ymarfer yn dylanwadu ar ymarfer mewn meysydd eraill yn ogystal â manteisio ar ymarfer mewn meysydd eraill. Ym mhob agwedd ar y system, rhagdybir bod prosesau'n cael eu darparu yn unol ag egwyddorion y cod ADY, sef:

(a) **Gweithredu ar sail hawliau** lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle mae'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig.

(b) **Adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar** lle mae anghenion yn cael eu hadnabod a darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl a phryd

bynnag y bo modd a lle mae ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu.

(c) **Cydweithredu ac integreiddio** lle mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod cefnogaeth gydgysylltiedig briodol yn cael ei rhoi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a deilliannau cadarnhaol.

(d) **Addysg gynhwysol** lle caiff y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ifanc ag ADY eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd a lle y defnyddir dull lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY

(e) **System ddwyieithog** lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser.

*Mae CDUau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gydweithio*

3.44 Mae gweithredu ar sail hawliau wedi'i nodi fel egwyddor allweddol yn y cod ADY. Mae'r theori newid yn nodi bod dysgwyr, yn ddamcaniaethol, yn ganolog i'r broses o ddatblygu CDU, a bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth. Fel rhan o hyn, mae'r theori newid yn rhagdybio bod dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan mor lawn â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau a bod ganddynt hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig. Mae cydweithredu yn ganolog i'r broses, gyda phartneriaid priodol, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, yn rhan o'r broses gynllunio.

*Mae barn plant a phobl ifanc a rhieni a gofalwyr yn ganolog i'r broses gynllunio a'r ddarpariaeth*

3.45 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i farn plant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr gael ei hystyried fel rhan graidd o'r broses gynllunio. Mae'r theori newid yn cynnig bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses gynllunio ac yn ei hystyried 'yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gyda nhw yn hytrach nag iddyn nhw'. Byddan nhw a'u teuluoedd, felly, yn cael eu cefnogi i gymryd rhan drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth glir a diduedd. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawliau amrywiol i blant a phobl ifanc gael gwybodaeth am ADY a'r penderfyniadau sy'n

cael eu gwneud yn eu cylch, ac i wneud eu penderfyniadau eu hunain o dan rai amgylchiadau.

*Mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion ac yn gyson â'r Cod ADY*

3.46 Mae'r theori newid yn rhagdybio, lle bo angen, bod DDdY yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl a bod hynny'n bodloni anghenion y dysgwr. Wrth gynllunio darpariaeth, mae partneriaid perthnasol yn cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau ac yn cymryd rhan ynddi, gan sicrhau cymorth cydgysylltiedig fel bod y dysgwyr yn cael profiadau a deilliannau cadarnhaol. Mae'r theori newid yn rhagdybio bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg, lle y nodir yr angen am hynny, yn unol â'r egwyddor o system ddwyieithog.

*Mae gwasanaethau'n cydweithio i ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol*

3.47 Bydd gan yr holl wasanaethau sy’n ymwneud â gweithio gyda phlant, pobl ifanc a’u teuluoedd, gan gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rôl hanfodol i’w chwarae wrth gydweithio i ddarparu cymorth effeithlon, effeithiol sy’n canolbwyntio ar y plentyn i ddysgwyr ag ADY. Lle y bo'n berthnasol ac yn angenrheidiol, mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i ddarparu cyngor a chymorth mewn modd amserol. Mae’r theori newid yn rhagdybio y bydd y system ADY yn annog gwell cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, sy’n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi’n gynnar a bod y cymorth cywir yn cael ei drefnu i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni’r deilliannau gorau posibl.

*Asesiadau, cynllunio ac ymyriadau amserol*

3.48 Mae'r theori newid yn rhagdybio bod prosesau ar waith i sicrhau asesiadau, cynllunio ac ymyriadau amserol ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae hyn hefyd yn dibynnu ar sgiliau, dealltwriaeth ac adnoddau ymarferwyr i allu cyflawni hyn. Er mwyn gweithredu’r system ADY yn llwyddiannus mae angen nodi anghenion dysgwyr cyn gynted â phosibl - ar ba gam bynnag o’i addysg y mae dysgwr - er mwyn rhoi'r ddarpariaeth briodol ar waith a, lle bo angen, cyflwyno ymyriadau i atal

ADY rhag datblygu neu waethygu. Fel y nodir uchod, mae cydweithredu a chydweithio yn allweddol i sicrhau bod ADY yn cael ei adnabod yn gynnar.

*Prosesau adolygu*

3.49 Mae’r theori newid yn rhagdybio bod prosesau adolygu yn effeithiol o ran sicrhau bod plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid priodol yn cael eu galluogi i gymryd rhan mor lawn â phosibl yn y prosesau adolygu a bod ganddynt hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig. Mae cydweithio yn ganolog i'r broses, gyda phartneriaid priodol, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, yn rhan o'r adolygiadau a'r diwygiadau i CDUau.

*Hawliau apelio*

3.50 Mae'r theori newid yn rhagdybio bod hawliau apelio wedi'u hymgorffori yn y system ADY, bod dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r rhain ac yn cael eu cefnogi i arfer eu hawliau'n briodol. Estynnwyd yr hawliau apelio hyn o dan y Ddeddf. Mae hawliau plant yn greiddiol i'r Ddeddf a rhoddir effaith i egwyddorion CCUHP a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn y Ddeddf a'r Cod. Mae’r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau penodol sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff iechyd roi sylw dyledus i’r confensiynau hyn.

3.51 Lle na ellir datrys anghytundebau ynghylch cynnwys neu ddarpariaeth CDU yn lleol, mae’r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i gael CDU, neu’r rhai sy’n credu y dylent gael CDU, hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r theori yn rhagdybio bod yr hawliau apelio hyn yn cael eu cyfleu, eu hyrwyddo a'u deall ar draws y system.

*System ddwyieithog*

3.52 Mae'n ofynnol i wasanaethau ystyried a oes angen DDdY yn Gymraeg ar y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r theori newid yn rhagdybio bod yr holl bartneriaid cyflwyno perthnasol yn deall y ddyletswydd hon ac yn gweithredu arni. Lle bo angen DDdY yn Gymraeg, caiff hyn ei ddogfennu mewn CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau darpariaeth briodol. Mae mecanwaith wedi’i gynnwys yn y Ddeddf i ddileu, drwy reoliadau, y prawf ‘pob cam rhesymol’, os a phryd yr ystyrir bod hyn yn briodol,

fel bod y dyletswyddau i ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn absoliwt dros amser. Mae cyfres o ddyletswyddau strategol hefyd wedi'u hanelu at hyrwyddo cynnydd tuag at system ADY wirioneddol ddwyieithog.

| Rhagdybiaethau'n ymwneud â gweithredu'r system ADY |
|---|
| ○ **Rh25:** Mae gan ymarferwyr ddigon o amser ac adnoddau i feddwl am y system ADY ac ymgysylltu â hi.<br>○ **Rh26:** Mae gan yr ymarferwyr y sgiliau a'r gallu i weithredu'r system ADY yn unol â'r gofynion a nodir yn y cod ADY ac mewn deddfwriaeth.<br>○ **Rh27:** Ceir eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau pob partner a sut y disgwylir i bartneriaid gydweithio ar draws lleoliadau a gwasanaethau gwahanol i adnabod ADY a chynllunio ar gyfer DDdY a'i chyflwyno. Mae hyn yn cynnwys rolau arweinwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion, UCD a lleoliadau ôl-16, ymarferwyr, CADYau, SACDAau, swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar a rolau allweddol mewn sefydliadau partner eraill gan gynnwys iechyd ac awdurdodau lleol.<br>○ **Rh28:** Mae ymarferwyr yn deall sut i wneud penderfyniadau ar ADY, ac yn cynllunio ar gyfer DDdY.<br>○ **Rh29:** Mae gwaith clwstwr a chymorth ar gyfer gweithredu yn parhau ac yn cael ei brif ffrydio y tu hwnt i'r cyfnod trawsnewid cychwynnol.<br>○ **Rh30:** Mae ymarferwyr yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith clwstwr effeithiol.<br>○ **Rh31:** Mae gwasanaethau datrys anghydfodau ar gael ym mhob awdurdod lleol, ynghyd â llwybrau uwchgyfeirio clir.<br>○ **Rh32:** Mae pob partner sy'n cefnogi dysgwr unigol ag ADY yn deall ei rôl o ran cefnogi'r deilliannau tymor byr, tymor canolig a thymor hir bwriadedig.<br>○ **Rh33:** Mae'r holl bartneriaid perthnasol yn deall y darpariaethau a'r gofynion a nodir yn y Ddeddf a'r Cod ADY a chânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. |

- **Rh34:** Ceir cydweithredu effeithiol o fewn a rhwng lleoliadau yn ogystal â rhwng lleoliadau a phartneriaid megis awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol.
- **Rh35:** Mae dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn prosesau adnabod, cynllunio ac adolygu.
- **Rh36:** Caiff y ddarpariaeth, gan gynnwys DDdY, ei hategu gan addysgu a dysgu o ansawdd uchel ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth sy'n gwella'n barhaus.
- **Rh37:** Caiff ymarfer proffesiynol ei lywio gan safonau proffesiynol perthnasol ym mhob sector.
- **Rh38:** Mae ysgolion a lleoliadau yn datblygu dulliau asesu o ansawdd uchel sy'n addas at y diben ac sy'n canolbwyntio ar gefnogi cynnydd pob dysgwr unigol.
- **Rh38:** Mae cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn hyfforddiant i ddeall gwahanol fathau o ADY, ac i ddatblygu dulliau addysgegol effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.
- **Rh40:** Ceir dealltwriaeth ar lefel system a chymhwysir model cymdeithasol o anabledd a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae lleoliadau yn gwneud addasiadau rhesymol ac yn dileu rhwystrau i bob dysgwr.

**Deilliannau tymor canolig ar gyfer dysgwyr, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr, ac ar draws y system gyfan**

3.53 Gyda'i gilydd bydd gweithgareddau ymarferwyr a ffactorau ar lefel system a chyd-destunol yn cefnogi ystod o ddeilliannau tymor canolig i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr a'r system gyfan.

3.54 O ran **dysgwyr, rhieni a gofalwyr** mae'r theori newid yn rhagdybio bod y system ADY yn cefnogi'r deilliannau tymor canolig a ganlyn:

- Dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn cael profiadau gwell o gyflwyno'r system, gan gynnwys:

    - canfyddiadau bod prosesau adnabod ac asesu cynnar, gwaith cynllunio, darpariaeth, prosesau adolygu ac apelio yn effeithiol ac yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion y cod ADY
    - boddhad gyda dysgu
    - canfyddiadau bod anghenion y dysgwyr yn cael eu diwallu a bod y system yn gynhwysol ac yn deg
    - dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu haddysg eu hunain ac yn cydnabod y rôl y gallant ei chwarae yn hynny o beth.
- Dyheadau, cynnydd a chyrhaeddiad gwell ymysg dysgwyr;
- Prosesau pontio gwell i ddysgwyr rhwng cyfnodau addysg;
- Dysgwyr yn datblygu perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol;
- Dysgwyr yn datblygu eu llesiant, eu gwydnwch emosiynol a'u sefydlogrwydd.

3.55 Mae'r theori newid yn honni bod y system ADY yn arwain at gyfres o ganlyniadau ar gyfer **ymarferwyr a lleoliadau**. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gwelliannau parhaus yn yr addysgu a'r dysgu a ddarperir i ddysgwyr ag ADY;
- Profiadau ymarferwyr o gyflwyno'r system, gan gynnwys:
    - canfyddiadau bod prosesau adnabod ac asesu cynnar, gwaith cynllunio, darpariaeth, prosesau adolygu ac apelio yn effeithiol ac yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion y cod ADY
- Ymdeimlad ymarferwyr o foddhad gyda'u swydd a'u hymdeimlad o lesiant
- Dulliau lleoliadau o asesu ar gyfer dysgu yn helpu ymarferwyr i ddeall a yw'r dysgwyr ag ADY yn gwneud cynnydd.

*Cynnydd y dysgwyr*

3.56 Mae'r theori newid yn rhagdybio y bydd gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Bydd hyn yn cynnwys galluogi dysgwyr i ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth, a datblygu eu sgiliau. Mae'r cod ADY yn nodi deilliannau dymunol eraill sy'n ymwneud â chynnydd

dysgwyr gan gynnwys dysgwyr yn datblygu perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol yn ogystal â'u gwydnwch emosiynol a'u sefydlogrwydd.

**Deilliannau system gyfan**

3.57 Mae'r theori newid yn cynnig bod y system ADY yn cefnogi nifer o ganlyniadau parhaus pwysig ar draws y system gyfan.

- mwy o gydweithio ac integreiddio
- System fwy cynhwysol, teg a thryloyw
- Mwy o ymddiriedaeth a hyder gan y cyhoedd
- System lai wrthwynebus – ychydig iawn o anghytundebau a gwell prosesau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau.
- Cyrhaeddiad yn gwella ar draws y system addysg ar gyfer dysgwyr ag ADY.
- Mwy o degwch yn y system addysg.
- Dysgwyr yn cael DDdY Gymraeg, lle y nodir yr angen am hynny.

**Deilliannau cymdeithasol tymor hwy**

3.58 Rhagdybir y bydd y deilliannau i ddysgwyr a'r deilliannau system gyfan a nodir uchod yn cyfrannu at ystod o ddeilliannau tymor hwy ar lefel gymdeithasol ehangach. Mae'r cod ADY yn nodi sawl enghraifft o ddeilliannau dymunol i berson ifanc gan gynnwys:

- paratoi ar gyfer gwaith
- cyfranogiad cymunedol
- symud ymlaen i addysg arall, gan gynnwys addysg uwch, neu hyfforddiant
- datblygu sgiliau byw'n annibynnol neu sgiliau neu rinweddau defnyddiol eraill ar gyfer bod yn oedolyn.

3.59 Mae gan y system ADY hefyd y potensial i gyfrannu at y dyhead hirdymor i integreiddio'r model cymdeithasol o anabledd, gan helpu i drawsnewid agweddau a hybu dealltwriaeth o abled yn y gymdeithas Gymreig.

3.60 Mae'r system ADY hefyd yn cyfrannu at nodau cymdeithasol ehangach a nodir yng nghynllun gweithredu *Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru* sy'n nodi bod *'diwygiadau addysg yn gysylltiedig â'n nodau fel cenedl, fel y'u nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'* (Llywodraeth Cymru, 2021a). Rhagdybir y bydd gwireddu nodau cyffredin y diwygiadau addysg, yn yr hirdymor, yn cael 'effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar gymdeithas yng Nghymru'. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau:

- Cymru lewyrchus,
- Cymru gydnerth,
- Cymru sy'n fwy cyfartal,
- Cymru iachach,
- Cymru o gymunedau cydlynus,
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu,
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

3.61 Bydd y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru sy'n gysylltiedig â'r nodau llesiant yn helpu i gefnogi dealltwriaeth o gynnydd dros amser. Bydd cynnydd mewn perthynas â llawer o'r dangosyddion a'r cerrig milltir yn cael ei ddylanwadu gan y cymorth a ddarperir gan y system ADY. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynyddu canran yr oedolion sydd â chymwysterau lefel 3 neu uwch erbyn 2050
- Dileu'r bwlch cyflog ar gyfer y rhywiau, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050
- Lleihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion gwarchodedig allweddol penodol a'r rhai heb y nodweddion hynny
- Dileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur
- Cynyddu nifer y bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050
- Gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant.

3.62 Yn ogystal â hynny, drwy geisio sicrhau bod mwy o ddarpariaeth a chymorth ar gael yn Gymraeg, mae'r system ADY hefyd yn cefnogi agweddau ar y Strategaeth Cymraeg 2050 sy'n cynnwys targedau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

3.63 Bydd i ba raddau y bydd y system ADY yn cyfrannu at ddeilliannau ehangach dros amser yn cael eu profi fel rhan o’r rhaglen ymchwil a gwerthuso.

# 4. Adolygiad o'r dystiolaeth

4.1 Mae'r bennod hon yn darparu synthesis o'r dystiolaeth sydd ar gael ar weithredu'r system ADY hyd yma. Mae'n archwilio'r hyn y mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn ei ddweud wrthym am y cynnydd gyda'r broses weithredu ac yn nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol. Yn olaf, mae'r bennod hon o'r adroddiad yn amlinellu materion a themâu sy'n dod i'r amlwg a ddylai fod yn destun gwaith ymchwil pellach fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Yn yr adolygiad o'r dystiolaeth defnyddiwyd ffynonellau amrywiol (a nodir yn Atodiad A) gan gynnwys papurau academaidd, adroddiadau ymchwil a dogfennau polisi allweddol, sydd oll yn ymwneud yn benodol â'r cyd-destun Cymreig.

4.2 Y prif ddogfennau a adolygwyd oedd:[18]

- Adroddiad thematig Estyn (2023a) ar y system ADY newydd, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023: dyma'r cyntaf o ddau adroddiad o leiaf ar y system ADY a luniwyd mewn ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Mae'n canolbwyntio ar y cynnydd a wneir mewn ysgolion o ran gweithredu agweddau allweddol ar y system ADY, yn seiliedig ar **drafodaethau gyda 15 o ysgolion cynradd, wyth ysgol uwchradd a dwy ysgol pob oed.**
- Adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (AGAA) (2023), a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023: adroddiad ymchwil yn seiliedig ar ganfyddiadau **arolwg ar-lein o 730 o arweinwyr ysgol a 12 o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol** gan gynnwys SACDA, Swyddogion ADY ac Arweinwyr Blynyddoedd Cynnar awdurdodau lleol ac Athrawon Ymgynghorol.
- Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i'r broses o weithredu diwygiadau addysg, sy'n cynnwys archwilio'r diwygiadau ADY. Roedd ei ail 'sesiwn galw heibio' gyda'r ymarferwyr addysgol yn cynnwys **grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda 24 o gyfranogwyr o 20 o ysgolion uwchradd.** Mae'r canlyniadau a amlinellwyd mewn nodyn cryno (Mai 2023) wedi'u cynnwys fel rhan o'r synthesis hwn. Cyfeirir hefyd at dystiolaeth

[18] Gweler Atodiad A am ddadansoddiad o'r papurau, sy'n manylu ar eu methodolegau a'u cyfyngiadau.

bellach a ddarparwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan gyrff eraill yn y bennod hon, lle y bo'n berthnasol.

- Papurau sefyllfa a phapurau diweddaru eraill (gan gynnwys adroddiadau heb eu cyhoeddi) a baratowyd gan randdeiliaid gan gynnwys TSANA (Tachwedd 2022), SNAP Cymru (Ionawr 2023 ac Ebrill 2023), Colegau Cymru (Medi 2022), ac arweinwyr trawsnewid ADY (Jones, Medi 2022). Nid yw'r holl bapurau a'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth glir am faint y samplau dan sylw, a chadwyd hyn mewn cof wrth ystyried ystyried faint o bwys i'w roi ar ganfyddiadau'r ffynonellau hyn yn ystod y synthesis hwn. Rydym wedi tueddu i roi llai o sylw i ganfyddiadau o ymchwil a phapurau lle mae gwybodaeth am y sylfaen dystiolaeth yn fwy cyfyngedig neu’n anhysbys.

4.3 Mae’n bwysig nodi cyfyngiadau’r dystiolaeth y mae’r synthesis hwn yn seiliedig arni fel bod unrhyw ddehongliad o’r canfyddiadau’n seiliedig ar ddealltwriaeth o gryfder y dystiolaeth gyfredol a'r bylchau ynddi. Yn gyntaf, mae'r ffynonellau a adolygwyd yn archwilio gweithrediad y system ADY o safbwynt ysgolion a lleoliadau. Mae tystiolaeth o sut y mae partneriaid ar draws y system ehangach – gan gynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau iechyd a'r blynyddoedd cynnar – yn addasu i’r gofynion newydd yn fwy cyfyngedig. Yn ogystal â hynny, nid yw’r dystiolaeth a adolygwyd yn archwilio profiadau dysgwyr, rhieni a gofalwyr o’r system ADY newydd yn llawn. O ganlyniad, nid yw’r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn ein galluogi i gael dealltwriaeth lawn o weithrediad y system ADY ar lefel system gyfan. Ceir rhagor o fanylion am y cyfyngiadau yn Atodiad A.

4.4 Fel y gwelir o’r wybodaeth a ddarperir yn adran 4.2, mae meintiau’r samplau sy’n gysylltiedig â llawer o’r prif ffynonellau tystiolaeth yn gymharol fach, gan gyfyngu ar y gallu i gyffredinoli canfyddiadau a dod i gasgliadau pendant ynghylch gweithredu’r system ADY hyd yma. Yn hytrach, dylid ystyried y canfyddiadau a nodir yn y bennod hon fel rhai sy’n rhoi darlun o'r materion y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt fel rhan o’r gwerthusiad.

4.5 Mae’r dull o drefnu a chyflwyno themâu yn y bennod hon yn seiliedig ar y materion a nodwyd yn y prif ffynonellau tystiolaeth a adolygwyd. Ymchwiliodd yr ymchwilwyr i'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y dogfennau a amlinellir uchod, a gyflwynir yn y bennod hon o dan gyfres o is-benawdau'n seiliedig ar themâu. Wrth archwilio canfyddiadau'r dystiolaeth a oedd ar gael, ystyriwyd hefyd sut y mae'r pynciau hyn yn berthnasol i rannau o'r theori newid. Bydd y broses hon o groesgyfeirio

tystiolaeth bresennol yn erbyn y theori newid yn cael ei defnyddio i helpu i bennu meysydd ffocws ar gyfer camau dilynol y gwerthusiad hwn.

4.6 Mae’r bennod hon wedi’i rhannu’n ddwy, gan wahaniaethu rhwng i) tystiolaeth yn ymwneud â mewnbynnau a pharatoadau ar gyfer y system ADY a ii) tystiolaeth yn ymwneud â gweithredu’r system.

4.7 Mae Rhan Un o’r bennod hon yn trafod y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r gwaith a wnaed i osod y sylfeini ar gyfer diwygio ADY. Mae Rhan Un hefyd yn trafod y dystiolaeth sy'n ymwneud ag eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr adrannau mewnbynnau, gweithgareddau a deilliannau tymor byr yn narlun y theori newid, mae hyn yn cynnwys gweithgareddau a gwblhawyd fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid.

4.8 Mae Rhan Dau yn darparu synthesis o'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â sut y mae'r system ADY yn cael ei gweithredu. Mae Rhan Dau felly'n ymwneud ag elfennau o weithredu'r system ADY a nodir yn y theori newid yn ogystal â rhai canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â'r deilliannau tymor canolig.

4.9 Rhagwelir y bydd rhagor o lenyddiaeth a thystiolaeth ar gael maes o law. Er enghraifft, nododd adroddiad thematig a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Estyn mai hwn oedd y cyntaf o ddau adolygiad o leiaf sy'n canolbwyntio ar weithredu rhaglen ddiwygio ADY (Estyn 2023a, tud.1). Bydd ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid fel rhan o gam nesaf y gwerthusiad hefyd yn cynnig cyfle i ymchwilio i faterion yn ymwneud â gweithredu'r system ADY lle mae'r dystiolaeth bresennol yn gyfyngedig.

### Rhan Un: Gweithgareddau i gefnogi diwygio'r system ADY

4.10 Mae Rhan Un yn trafod y dystiolaeth sy’n ymwneud â gosod y sylfeini ar gyfer y system ADY, gan ganolbwyntio ar y mewnbynnau, y gweithgareddau a’r deilliannau tymor byr a nodir yn y theori newid. Fel y nodir ym mharagraff 4.5, dewiswyd yr is-benawdau yn seiliedig ar y materion a nodwyd yn y dystiolaeth a adolygwyd ac maent wedi'u grwpio'n dair thema: i) datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol; ii) gwybodaeth, cyngor ac arweiniad; a iii) cyllid. Bydd y casgliadau y daethpwyd iddynt mewn perthynas â'r pynciau hyn yn llywio'r gwaith o gynllunio adnoddau ymchwil i'w defnyddio yng nghamau dilynol y gwerthusiad hwn.

*Datblygu'r gweithlu a gweithgaredd dysgu proffesiynol*

4.11 Fel yr amlinellir ym Mhennod 3, mae'r theori newid yn rhagdybio bod gweithgareddau datblygu'r gweithlu a chyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i gefnogi'r broses o weithredu'r system ADY a bod ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn gallu cael mynediad i gyfleoedd o'r fath. Mae'r adran hon yn ymchwilio i ba raddau y mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar weithredu'r system ADY yn cefnogi'r rhagdybiaeth hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y llenyddiaeth a oedd ar gael adeg yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i ymarferwyr addysg. O ganlyniad, mae'r adran hon yn ymwneud â datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol wedi'i anelu at y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn unig, a pha mor effeithiol ydynt. O ystyried y llenyddiaeth gyfyngedig sydd ar gael ar gyfleoedd datblygu'r gweithlu ar gyfer ymarferwyr yn y maes iechyd ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r system ADY, mae angen ymchwilio i'r pwnc hwn fel rhan o gam nesaf y gwerthusiad.

4.12 Mae'r rhaglen trawsnewid ADY (Llywodraeth Cymru, 2018a, tud.4) yn cynnwys rhaglen datblygu'r gweithlu ar gyfer ymarferwyr addysg sy'n canolbwyntio ar dair lefel:

- **sgiliau craidd** i bob ymarferydd gyflwyno'r system ADY newydd;
- **sgiliau uwch** drwy ddatblygu rôl CADYau;
- **datblygu sgiliau arbenigol** drwy gyllid i gefnogi hyfforddiant ôl-raddedig ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol (e.e. seicolegwyr addysg) sydd ar gael i leoliadau addysg/ysgolion.

4.13 Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (LlDPC ADY). Mae'r Rhaglen LlDPC ADY yn rhaglen ddysgu ar-lein sydd â'r nod o gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn eu helpu i wireddu nodau'r ddeddfwriaeth ADY. Mae LlDPC ADY yn cynnwys 20 pennod sy'n ymdrin â phedair thema drawsbynciol: arweinyddiaeth a rheoli, cyfathrebu a chydweithio, ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chefnogi dysgwyr ag ADY. Mae Estyn (2023a, tud.46) yn nodi bod deunyddiau lefel craidd LlDPC (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021) wedi cael eu gweld 8928 o weithiau, gyda'r deunyddiau lefel ganolradd (a

gyhoeddwyd ym mis Medi 2022) wedi cael eu gweld 1,00 o weithiau a deunyddiau lefel uwch (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023) wedi'u gweld 800 o weithiau.[19]

4.14 Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad hwn (Estyn, 2023a; AGAA, 2023; Jones, 2022) yn dangos bod gan ymarferwyr addysg fynediad i gyfleoedd dysgu proffesiynol, a'u bod yn manteisio arnynt. Cynhyrchodd Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY Llywodraeth Cymru adroddiad trosolwg cenedlaethol o'r modd yr oedd partneriaid cyflwyno yn rheoli'r gwaith o roi'r Ddeddf ar waith yn 2022 (Jones 2022). Mae'r adroddiad yn nodi bod '[a]ll local authorities have provided comprehensive professional learning opportunities to schools to ensure that Additional Learning Needs Co-ordinators (ALNCos) have the necessary knowledge and skills to carry out the new duties' (ibid., tud. 2). Canfu'r adroddiad hwn hefyd fod y rhan fwyaf o CADYau wedi cymryd rhan mewn llu o weithgareddau wedi'u harwain gan glwstwr i rannu arfer da (Jones, 2022, tud.3). Mae Estyn (2023a) a AGAA (2023) ill dau yn nodi bod ymarferwyr addysg wedi manteisio ar weithgaredd dysgu proffesiynol; fodd bynnag, nid yw'r ffynonellau hyn yn ein galluogi i ddod i gasgliadau ynghylch y graddau y mae ymarferwyr mewn gwahanol rolau (e.e. uwch arweinwyr, CADYau, athrawon) a gweithwyr proffesiynol mewn awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar a'r sector iechyd wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.

4.15 Yn gyffredinol, fe wnaeth arweinwyr ysgolion a holwyd gan AGAA (2023) sylwadau cadarnhaol ar gyfleoedd datblygu proffesiynol. Canfuwyd bod yr hyfforddiant ar CDUau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn arbennig o fuddiol, a chanfuwyd bod yr enghreifftiau a'r templedi a rennir mewn digwyddiadau hyfforddi yn ddefnyddiol. Dywed Estyn (2023a, tud.11) hefyd y 'siaradodd llawer o ysgolion a gymerodd ran yn hyderus am yr effaith gadarnhaol y mae dysgu proffesiynol wedi'i chael ar staff a disgyblion, fel ei gilydd'. Fodd bynnag, noda hefyd fod 'cefnogi datblygiad proffesiynol holl staff ysgolion, gan gynnwys y rhai sy'n dechrau yn y proffesiwn, o ran addysgu a diwallu anghenion disgyblion ag ADY, yn llai datblygedig' (ibid). Mae Estyn (2023a, tud.132) hefyd yn argymell y dylai ysgolion 'sicrhau bod dysgu proffesiynol staff ysgol yn cynnwys ffocws digonol ar addysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag ADY'. Awgryma hyn fod angen i'r gwerthusiad ymchwilio i a yw ymarferwyr yn teimlo bod digon o gyfleoedd datblygu proffesiynol ar gael, mewn

[19] Cyhoeddwyd adroddiad Estyn ym mis Medi 2023.

perthynas â gweithredu’r system ADY ac mewn perthynas ag arferion addysgeg sy’n cefnogi addysgu a dysgu plant ag ADY.

4.16 Prin yw’r dystiolaeth ynghylch datblygiad y gweithlu ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar mewn perthynas ag ADY, er bod adroddiad AGAA (2023) yn cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth a gasglwyd drwy gyfweliadau lled-strwythuredig â rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â’r blynyddoedd cynnar.[20] Yn ôl y rhai a gyfwelwyd fel rhan o’i ymchwil, dywed AGAA:

> 'mae'r rhan fwyaf o dimau ADY y Blynyddoedd Cynnar yn cynnig amrywiaeth o gymorth mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir ac mae cyfleoedd hyfforddi pwrpasol yn arfer cyffredin. Mae arweinwyr a swyddogion Awdurdodau Lleol yn ystyried hyn fel proses gefnogol iawn sy’n cynnwys mynediad at sesiynau galw heibio, dewislenni hyfforddi ac ymgynghoriadau anffurfiol a thrafodaethau ar gyfer cymorth' (AGAA 2023, tud.35).

Fodd bynnag, fel y trafodwyd, rhaid pwysleisio mai cyfyngedig iawn yw’r sylfaen dystiolaeth o ran datblygu’r gweithlu a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar mewn perthynas ag ADY. Bydd angen gwaith ymchwil pellach felly er mwyn archwilio i ba raddau y mae cyfleoedd o'r fath ar gael a'u heffeithiolrwydd o ran cefnogi gweithrediad y system ADY.

4.17 Mae rhai heriau mewn perthynas â hyfforddiant hefyd yn amlwg yn yr adroddiad gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2023a). Yn fwy penodol, nododd y CADYau ac arweinwyr ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil fod mynediad i hyfforddiant yn broblem ar draws y sector addysg, a bod diffyg ystyriaeth yn cael ei rhoi i argaeledd athrawon. At hynny, teimlai'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil fod yr hyfforddiant yn anhygyrch oherwydd prinder staff cyflenwi. Hefyd, tynnodd CADYau sylw at y ffaith bod hyfforddiant 'naill ai'n cael ei gynnig ar ddechrau'r diwygio ond yn dod i ben ar yr union adeg pan oedd angen cymorth neu nad oedd amser i fynd ar yr hyfforddiant' (tud.4).

4.18 I gloi, mae’r dystiolaeth bresennol yn dangos bod cyfleoedd datblygu proffesiynol sy’n ymwneud â’r system ADY ar gael, bod ymarferwyr addysg wedi manteisio arnynt a bod gan rai ymarferwyr farn gadarnhaol am y gweithgaredd dysgu proffesiynol y maent wedi manteisio arno. Fodd bynnag, nid yw’r dystiolaeth yn dangos i ba raddau y mae ymarferwyr mewn rolau amrywiol (gan gynnwys uwch arweinwyr, CADYau, athrawon, staff cymorth) wedi gallu manteisio ar gyfleoedd

[20] Cynhaliodd AGAA gyfanswm o 12 o gyfweliadau; fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn rhoi manylion ynghylch faint o'r rhai a gyfwelwyd a oedd â rolau blynyddoedd cynnar.

datblygiad proffesiynol, ac a yw cynnwys ac ansawdd y cyfleoedd hyn yn bodloni eu hanghenion. Dengys y canfyddiadau y gall fod angen cyfleoedd datblygiad proffesiynol pellach, wedi'u hanelu'n benodol at y rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn addysg a gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus yn ymwneud ag addysgeg. Yn olaf, mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd i awgrymu y gallai ymarferwyr addysg fod yn wynebu rhai rhwystrau o ran cael mynediad i hyfforddiant, megis cyfyngiadau amser a gallu trefnu staff cyflenwi. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a ystyrir yn yr adran hon yn tanlinellu'r angen i'r gwerthusiad archwilio gweithgaredd datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol yn fanylach. At hynny, dylid nodi nad yw'r dystiolaeth bresennol yn cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r system ADY ar draws y sector iechyd, mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol, gan gynnwys ei heffeithiolrwydd a'i chwmpas. Felly, mae'n hanfodol ymchwilio i hyn fel rhan o waith maes arfaethedig gyda chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r sector iechyd yn ystod y gwerthusiad.

*Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad*

4.19 Mae'r Cod ADY yn cyd-fynd â'r Ddeddf ADY, sy'n darparu canllawiau statudol a chyfarwyddiadau angenrheidiol i gynorthwyo gyda chydymffurfio â'r gyfraith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adnoddau amrywiol, megis taflenni ffeithiau a chanllawiau, sydd ar gael i weithwyr proffesiynol, rhieni ac awdurdodau lleol (gan gynnwys consortia awdurdodau lleol) a byrddau iechyd lleol. Mae rhai sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ag ADY hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth ac adnoddau'n ymwneud â'r system ADY. Er mwyn helpu i baratoi ar gyfer y system newydd, ariannodd Llywodraeth Cymru bum arweinydd trawsnewid ADY i ddarparu cyngor, cymorth a goruchwyliaeth i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach (SABau), a rhanddeiliaid eraill (gweler hefyd 1.23). Mae'r theori newid yn nodi bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad priodol, wedi'u targedu yn hanfodol i greu'r amodau ar gyfer gweithredu'r system ADY yn effeithiol; mae'r adran hon yn rhoi cipolwg o arferion llwyddiannus yn ogystal â heriau fel y'u dogfennir yn y llenyddiaeth gyfredol.

4.20 Yn ôl AGAA (2023), roedd yr ymatebwyr i'w arolwg yn teimlo eu bod, ar y cyfan, yn cael cefnogaeth dda gan eu hysgol a'u hawdurdod lleol. At hynny, tynnodd yr ymatebwyr sylw at 'helaethrwydd y gefnogaeth a gafwyd, ansawdd y wybodaeth ar

faterion megis y prosesau dan sylw, pa mor ddefnyddiol yw'r enghreifftiau a'r templedi a rennir mewn digwyddiadau hyfforddi, y wybodaeth a rhannu arfer da, y cyfle i rwydweithio ac i ofyn cwestiynau ac i gael cyngor' (t.10).

4.21 Mae Estyn (2023a) hefyd yn nodi rhai arferion effeithiol wrth ddarparu cymorth ac arweiniad, gan dynnu sylw'n benodol at effeithiolrwydd arweinwyr trawsnewid rhanbarthol ac awdurdodau lleol o ran darparu cyngor clir, cyson, cywir ac amserol i ysgolion. Fodd bynnag, er bod Estyn (ibid.) yn nodi bod y deunyddiau ar ddiwygio ADY wedi bod yn hygyrch ac yn addysgiadol i weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill, noda fod y defnydd o'r adnoddau hyn a'r graddau y cawsant eu rhannu wedi bod yn amrywiol.

4.22 Mae peth o'r dystiolaeth a adolygwyd yn codi pryderon ynghylch cysondeb y negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau a gyhoeddwyd ar y system ADY, yn benodol cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae'r canllawiau'n cyd-fynd ag arferion addysgol cynhwysol. Yn ôl Knight a Crick (2021, tud.274), mae 'relatively little consistency about how issues of inclusion are understood and communicated within the policy and guidance documents'. Mae Conn a Davis (2023) yn cyfeirio at fylchau yn y canllawiau, gan nodi, er bod y Cod ADY yn cyfeirio at 'addysgu gwahaniaethol', nid oes esboniad penodol o'r hyn y mae hynny'n ei olygu'n ymarferol.

4.23 I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill wedi cyhoeddi gwybodaeth a chanllawiau i gefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r diwygiadau ADY. Dengys y dystiolaeth fod y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio gan ymarferwyr, ond fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol o'r bennod hon, mae'r dystiolaeth hon yn ymwneud â phrofiadau ymarferwyr addysg ac yn cynnig dealltwriaeth gyfyngedig iawn o safbwyntiau rhanddeiliaid eraill ar draws y system. Er bod y dystiolaeth gyfredol yn dangos y bu enghreifftiau o ymarfer effeithiol o ran darparu gwybodaeth a chanllawiau, ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos bod amrywiadau yn y defnydd o ganllawiau a'r ffordd y cânt eu dosbarthu. Awgryma'r dystiolaeth y gallai'r amrywiadau hyn arwain at ymwybyddiaeth gyfyngedig ymhlith rhai gweithwyr proffesiynol a rhieni o'r rhesymeg dros y diwygiadau i'r system ADY a'r hyn a fydd yn newid yn ymarferol o dan y system newydd. Yn ogystal â hynny, awgryma'r llenyddiaeth fod rhywfaint o ddiffyg cydlyniant yn y canllawiau o ran y dull o ymdrin â chynhwysiant, yn ogystal â bylchau yn y canllawiau sy'n ymwneud â'r ddealltwriaeth a dehongliadau o 'addysgu gwahaniaethol'. Mae potensial i hyn

arwain at amrywiadau yn y dull o weithredu agweddau ar y diwygiadau ac mae'n faes y bydd angen i'r gwerthusiad ymchwilio'n fanylach iddo.

*Cyllid*

4.24 Mae cyllid (cyllid craidd a chyllid grant) yn fewnbwn allweddol yn y theori newid. Mae'r llenyddiaeth bresennol hefyd yn pwysleisio arwyddocâd pryderon ynghylch cyllid, yn enwedig o ran digonolrwydd a thryloywder, fel mater pwysig sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â gweithredu'r system ADY. Mae'r adran hon felly'n archwilio tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch cyllid a'i effeithiau ar gyflawni'r diwygiadau.

4.25 Cefnogir y system ADY mewn ysgolion gan gyllid Llywodraeth Cymru.[21] Mae Estyn yn nodi y bu cynnydd sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn y cyllid ar gyfer AAA ac ADY 'am yr wyth mlynedd ddiwethaf o leiaf' (Estyn 2023a, tud.11) a thynnodd sylw hefyd at ddyraniad Llywodraeth Cymru o £67 miliwn i gefnogi diwygio ADY ers y pandemig. Fodd bynnag, mae Estyn (2023a) hefyd yn nodi bod pob awdurdod lleol, a bron pob ysgol yn ei sampl, wedi nodi costau ychwanegol sylweddol wrth weithredu'r diwygiadau i'r system ADY. Yn nodedig, nodwyd bod y costau ychwanegol hyn yn uwch na'r cyllid grant ychwanegol a gawsant.

4.26 Mae AGAA (2023) yn trafod mewnwelediadau pellach i heriau cyllido a adroddwyd gan ysgolion. Nid oedd dwy ran o dair o'r rhai a holwyd gan AGAA yn meddwl y byddai gan eu lleoliad addysgol y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth. At hynny, er bod yr ymatebwyr i arolwg arweinwyr ysgol AGAA yn credu yn gyffredinol bod gan eu lleoliadau weithluoedd medrus i fodloni gofynion ADY, tynnodd sawl un sylw at y ffaith bod cyfyngiadau cyllidebol yn aml yn arwain at brinder staff cymorth profiadol. Ymhellach, dadleuodd sawl arweinydd ysgol fod lefel y cyllid i ryddhau CADYau o'r dosbarth yn 'annigonol ar hyn o bryd a bod hyn, ynghyd â diffyg staff cyflenwi, yn ei gwneud yn heriol gweithredu ALNET' (tud.32).

4.27 Mae Estyn (2023a) hefyd yn dweud bod 'diffyg tryloywder, a dealltwriaeth [ymysg] uwch arweinwyr mewn ysgolion yn y sampl, ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn pennu eu cyllidebau ar gyfer ADY, gan gynnwys y rhai a ddyrennir i ysgolion.' (Estyn, 2023a, tud.11 ). Dywed AGAA (2023) hefyd mai dim ond tua hanner y

---

[21] Gweler [Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig: Ebrill 2023 i Fawrth 2024]() (Llywodraeth Cymru, 2023a)

penaethiaid a oedd wedi cael gwybod am y cyllid a ddyrannwyd i'w lleoliadau ar gyfer ADY, ac nid oedd mwyafrif y penaethiaid a roddodd adborth yn credu bod fformiwla cyllido eu hawdurdod lleol ar gyfer dyrannu'r cyllid i gyflawni'r Ddeddf ADY yn deg. Nid oedd adroddiad AGAA yn cynnwys manylion am ddyraniadau cyllid awdurdodau lleol ac mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau uwch arweinwyr o'r trefniadau cyllido.

4.28 Mae nodyn cryno'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2023a), sy'n seiliedig ar grwpiau ffocws a chyfweliadau â sampl o ysgolion uwchradd yng Nghymru, hefyd yn tynnu sylw at bryderon a fynegwyd gan ysgolion ynghylch lefelau cyllid a thryloywder y trefniadau. Yr hyn a oedd yn arbennig o nodedig oedd y pryder na fydd CDUau yn crynhoi yn llawn yr ystod o gymorth sydd ei angen i gynorthwyo dysgwr ADY, oherwydd penderfyniadau cyllido.

> 'Mae'r risg o beidio â derbyn cyllid digonol wedi creu nerfusrwydd i ofyn am ormod ar CDUau rhag ofn nad ydynt yn gallu cael y cyllid i gynnig y gofynion hyn, gan adael ysgolion mewn sefyllfa anodd oherwydd na allant hunan-ariannu'r adnodd hwn os yw'r awdurdod lleol o'r farn ei fod yn ddiangen'. (Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2023a, tud.3).

4.29 I gloi, yn seiliedig ar y ffynonellau a archwiliwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, mae tryloywder ynghylch cyllid yn dod i'r amlwg fel thema allweddol y mae angen ymchwilio ymhellach iddi, ac felly hefyd y materion posibl yn ymwneud â heriau cyllido a'u heffeithiau ar weithredu'r system ADY. Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg felly'n tynnu sylw at yr angen am asesiad cynhwysfawr o dryloywder y dyraniadau cyllid ar gyfer ADY. Er gwaethaf cyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth, a'r ffaith bod y dystiolaeth sydd ar gael yn dibynnu'n bennaf ar ganfyddiadau arweinwyr ysgolion o ddigonolrwydd y cyllid, mae'n amlwg y dylai'r gwerthusiad archwilio safbwyntiau o bob rhan o'r system ar effeithiolrwydd dyraniadau cyllid ar gyfer ADY. Dylai hyn gynnwys archwilio sut y mae cyfyngiadau cyllido tybiedig neu wirioneddol yn effeithio ar weithrediad llwyddiannus y system ADY.

**Rhan Dau: Gweithredu'r system ADY**

4.30 Mae Rhan Dau yn ymchwilio i'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag elfennau o weithredu'r system ADY, gan gynnwys tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â'r deilliannau tymor canolig a amlinellir yn y theori newid. Mae'n cyflwyno canfyddiadau o dan yr isadrannau canlynol: rôl y CADY; y dehongliad o ADY a DDdY; CDUau; ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a dysgwyr; cydweithio a gwaith

clwstwr; dysgwyr ôl-16; a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n cloi gyda'r goblygiadau i'r gwerthusiad. Fel y nodir ym mharagraff 4.3, mae'r themâu hyn yn seiliedig ar y materion a nodwyd yn y dystiolaeth.

*Rôl y CADY*

4.31 Mae CADYau yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae'n rôl statudol, fel y nodir yn y Cod ADY (gweler hefyd baragraff 1.13) ac mae'n cynnwys rhestr helaeth o ddyletswyddau. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael, a nodir yn yr adran hon, yn dangos bod CADYau yn deall eu rôl a'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd o'r llenyddiaeth bod rhai achosion lle mae'r gefnogaeth a roddir i CADYau gan arweinwyr ysgolion ac awdurdodau lleol yn ddiffygiol, a bod problemau'n ymwneud â llwyth gwaith CADYau.

4.32 Dywed Estyn (2023a) fod CADYau a gymerodd ran yn ei adolygiad thematig wedi dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad a'u bod wedi cynllunio'n dda ar gyfer diwygio ADY. Roedd ganddynt hefyd ddealltwriaeth glir iawn o'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn eu hysgol. Nododd Estyn ymhellach, er bod llawer o CADYau yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol gan eu hawdurdod lleol, a gaiff ei hwyluso drwy fforymau CADY sefydledig, nid oedd rhai ysgolion uwchradd wedi cael cymorth a chyngor gan eu hawdurdodau lleol mewn yn ddigon prydlon.

4.33 Dangosodd canlyniadau arolwg AGAA (2023) fod arweinwyr ysgolion, y mae rhai ohonynt hefyd yn dal swydd CADY, yn gyffredinol yn credu bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r rôl. Yn ôl Estyn (2023a), roedd CADYau mewn rolau arweinyddiaeth uwch wedi dylanwadu ar benderfyniadau strategol ac wedi defnyddio eu swyddi i hyrwyddo ADY ar draws eu hysgolion, ond nododd rhai CADYau, nad oeddent yn rhan o'r tîm uwch-reolwyr, gefnogaeth gyfyngedig gan arweinwyr ysgolion a oedd yn llesteirio eu gallu i ddylanwadu ar fentrau ysgol gyfan.

4.34 Mae gwahanol ffynonellau tystiolaeth yn dangos bod pryderon am lwyth gwaith CADYau. Mae Estyn (2023a) yn nodi bod 'rôl Cydlynwyr ADY ysgolion wedi newid yn sylweddol, nid yn unig o ran baich gwaith ond hefyd o ran cyfrifoldeb' (tud.29). Mae'r adroddiad hefyd yn nod bod 'llawer o Gydlynwyr ADY o'r farn nad ydynt yn cael digon o  amser i gyflawni eu rôl mor effeithiol ag yr hoffent' (tud.30). Yn olaf, noda'r adroddiad ymhellach fod awdurdodau lleol yn yr un modd yn adrodd am

gynnydd mewn llwyth gwaith a chyfrifoldeb y CADY. Gan adleisio'r canfyddiadau hyn, cododd ymatebwyr i'r arolwg a gynhaliwyd gan AGAA (2023) bryderon ynghylch y llwyth gwaith ychwanegol a'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â rôl y CADY, a'r effaith ar lesiant personol. Mae adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2023a) hefyd yn nodi bod CADYau a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws wedi mynegi bod 'diffyg rhannu arfer gorau neu gymorth gan gymheiriaid wedi arwain at ddiffyg hunanhyder i rai' (tud.4).

4.35 Ochr yn ochr â chyflwyno rôl newydd y CADY, mae rolau statudol ychwanegol wedi'u sefydlu: swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar) a'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA). Er bod y rolau hyn yn eu lle ac yn chwarae rhan allweddol yn y broses weithredu, mae llenyddiaeth gyfyngedig ar gael ar hyn o bryd ar sut mae'r rolau hyn yn gweithio'n ymarferol, fodd bynnag, dywed Estyn (2023a, tud.3) ei fod yn bwriadu archwilio'r rolau hyn yn yr adolygiad thematig dilynol, a fydd yn llywio camau'r gwerthusiad hwn yn y dyfodol.

4.36 I grynhoi, roedd yr adran hon yn archwilio rôl y CADY. O'r adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â CADYau, mae'n amlwg bod y rolau hyn yn hanfodol i ddarparu'r system ADY, o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol y CADY ei hun, ond hefyd fel ffynhonnell o arweiniad a chymorth i ymarferwyr eraill. Mae'n ymddangos bod uwch arweinwyr a CADYau yn glir ynghylch elfennau craidd y rôl, fodd bynnag erys cwestiynau ynghylch y dylanwad strategol a'r cymorth a gaiff CADYau nad ydynt yn dal swyddi mewn timau uwch-reolwyr. Yn ogystal â hynny, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod pryderon ynghylch llwyth gwaith y CADY, a allai gael effaith negyddol ar lesiant personol CADYau yn ogystal â chyflwyno heriau i weithredu'r diwygiadau'n llwyddiannus. Bydd yr ystyriaethau hyn, a'u heffeithiau posibl ar weithredu'r diwygiadau, yn ffocws allweddol yng ngham nesaf y gwerthusiad.

*Dehongli ADY a DDdY*

4.37 Er bod diffiniadau o ADY a DDdY wedi'u hamlinellu yn y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r diwygiadau ADY a'r cod ADY, dengys y llenyddiaeth, yn ymarferol, y gallai fod diffyg cysondeb wrth ddehongli'r diffiniadau hyn. Yn ogystal â hynny, awgryma'r dystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad hwn bod ymarferwyr yn defnyddio terminoleg heb fod ganddynt ddealltwriaeth gyffredin ohoni. Nod yr adran hon yw

ymchwilio i natur y diffyg cysondeb ac eglurder hwn, a thynnu sylw at oblygiadau hyn yn ymarferol i'r diwygiadau ADY.

4.38 Mae tystiolaeth o anghysondeb wrth ddehongli a chymhwyso diffiniadau o ADY a DDdY. Dywed Estyn (2023a, tud.16) fod ysgolion yn gyffredinol yn deall y diffiniad o ADY, ac yn 'deall bod angen i blentyn ag ADY gael darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), sef darpariaeth sy'n 'ychwanegol i, neu'n wahanol i, ddarpariaeth a drefnir yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un oedran'. Fodd bynnag, dywedodd rhai awdurdodau lleol ac ysgolion wrth Estyn eu bod yn aneglur ynghylch y diffiniadau cyfreithiol a beth oedd ystyr hyn yn ymarferol a'u bod yn aros am eglurhad gan ganlyniadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Estyn 2023a).

4.39 Mae tystiolaeth bellach o anghysondebau posibl yn y ddealltwriaeth o'r diffiniadau hefyd yn amlwg yn adroddiad thematig Estyn (Estyn 2023a). Er enghraifft, noda'r adroddiad fod llawer o awdurdodau lleol wedi rhoi cyngor yn ddiweddar i ysgolion ar eu cofrestrau ADY, gan gynnwys a yw darpariaeth yn cael ei chofnodi fel DDdY, fodd bynnag, dywedodd nifer bach o ysgolion eu bod wedi herio eu hawdurdod lleol ynghylch ei gyngor a'i ddehongliad o'r diffiniad o DDdY. Soniodd Estyn hefyd am achosion lle roedd rhai CADYau yn credu, yn gyfeiliorus, bod angen diagnosis meddygol cyn gall trefnu DDdY briodol. Mae SNAP Cymru (2023a, tud.1) hefyd yn dweud 'too many [parents] are still telling us that they can't get the support their child needs as they are being told they have to wait for a diagnosis'.

4.40 O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'n ymddangos hefyd bod rhywfaint o amrywiaeth yn y dehongliad a'r defnydd o 'ymateb graddedig' o dan y system ADY newydd. Fel yr amlinellir yn y Cod ADY, 'dylai ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau. Mae hyn yn golygu y dylai'r DDdY sy'n cael ei gwneud fod ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. (Llywodraeth Cymru 2021, tud.231). Ymhlyg yn y datganiad hwn, mae'r ffaith y dylai pob lefel o'r ymateb graddedig gael ei chynnwys mewn CDU (cynllun statudol). Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod hyn yn newid allweddol o'r system AAA flaenorol, lle nad oedd pob lefel o ddull graddedig yn cael ei roi mewn cynllun statudol. O dan y system AAA, dim ond anghenion cymorth lefel uchel neu anghenion cymorth cymhleth a roddwyd mewn datganiad. I'r gwrthwyneb, roedd anghenion cymorth lefel isel (gweithredu gan yr ysgol) a lefel ganolig (gweithredu gan yr ysgol a mwy)

yn cael eu rhoi mewn cynllun addysg unigol, nad yw'n gynllun statudol.[22] Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, o dan y system ADY newydd, dylid rhoi pob lefel o'r dull graddedig (anghenion cymorth lefel uchel, canolig ac isel) mewn cynllun statudol (CDU). Yng nghyd-destun y system ADY, mae'r dull graddedig felly yn ymwneud â lefel y cymorth a amlinellir mewn CDU. [23]

4.41 Mae Estyn (2023a) yn tynnu sylw at y ffaith bod yr ysgolion a'r awdurdodau lleol y siaradwyd â nhw fel rhan o'u hadolygiad 'wedi cael eu cynghori a'u cynorthwyo wrth ystyried a dosbarthu'r cwricwlwm a chymorth, a thrwy oblygiad, yr ymateb graddedig a wnânt ar gyfer disgyblion'. (2023a, tud.24). O ganlyniad i hyn, mae Estyn yn nodi y 'caiff termau fel cyffredinol, cyffredinol a mwy, targedig, arbenigol ac arbenigol, yn cynnwys darpariaeth amlasiantaethol, eu deall yn gynyddol gan awdurdodau lleol a'u defnyddio gan ysgolion' (tud.24). Nid yw'r termau hyn yn eglur yn y Cod ADY, gan ganiatáu i awdurdodau lleol ac ysgolion, yn ôl Estyn, ddosbarthu eu darpariaethau a'u hymateb graddedig 'fel y gwelant yn addas'. Mae Estyn yn adrodd ymhellach fod hyn wedi arwain at 'ddryswch helaeth' a diffyg dealltwriaeth gyffredin o'r termau, sy'n 'effeithio'n uniongyrchol ar b'un a ystyrir bod gan ddisgybl angen dysgu ychwanegol ai peidio' (Estyn 2023a, tud.25). Mae AGAA (2023, tud.36) hefyd yn cyfeirio'n fyr at y mater hwn yn ei adroddiad, gan esbonio, o ran pontio, bod 'diffyg cysondeb ac amrywiaeth pellach yn y ddarpariaeth o sir i sir, o leoliad i leoliad ac o ysgol i ysgol, yn enwedig o ran yr hyn y mae darpariaeth gyffredinol yn ei olygu.'

4.42 Prin yw'r dystiolaeth sy'n bodoli o ran profiadau a chanfyddiadau rhieni a gofalwyr o'r system ADY. Fodd bynnag, mae adborth gan rieni a gasglwyd gan SNAP Cymru[24] rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023 (SNAP Cymru 2023b)[25] yn darparu rhywfaint o dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn hyn o beth. Mae'n werth nodi bod yr adborth a gasglwyd gan SNAP Cymru yn tynnu sylw at bryderon, ymhlith rhai rhieni a gofalwyr, ynghylch cysondeb a chydraddoldeb y ddarpariaeth. Er enghraifft, gan gyfeirio'n benodol at ddarpariaeth gyffredinol, mae SNAP Cymru (2023b)[26] yn

---

[22] Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin
[23] Ibid
[24] Gwefan Snap Cymru
[25] Comisiynwyd SNAP Cymru i gynnal 14 o ddigwyddiadau ledled Cymru i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY a/neu anabledd ar ran Llywodraeth Cymru. Prif nod y digwyddiadau hyn oedd hwyluso rhannu gwybodaeth mewn perthynas â diwygio ADY gyda rhieni a gofalwyr. Roedd y digwyddiadau hyn hefyd yn gyfle i gasglu adborth gan deuluoedd am eu profiadau o ddiwygio ADY, yn ogystal â'u barn am y Cod ADY a'r ffordd yr oedd yn cael ei weithredu.

nodi 'parents and carers reported being concerned that it was too open to interpretation when considering ALN and ALP and whilst in one school a pupil may not have an IDP, in another pupil with very similar needs would' (SNAP Cymru, 2023b, tud.5). At hynny, disgrifiwyd dulliau gwahanol o fonitro disgyblion gan rieni hefyd, gan gynnwys y defnydd o dermau fel darpariaeth gyffredinol a darpariaeth gyffredinol wedi'i thargedu gan rai lleoliadau, yn ogystal â dehongliadau eraill o'r Cod, a oedd yn peri dryswch i rieni (SNAP 2023b).

4.43 I gloi, mae'r dystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad hwn yn dangos, yn ymarferol, y gall fod diffyg cysondeb wrth ddehongli'r diffiniadau o ADY a DDdY. Yn ogystal â hynny, mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at derminoleg sydd wedi dod i'r amlwg, nad yw wedi'i diffinio'n benodol yn y Cod ADY (e.e. 'darpariaeth gyffredinol') sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr heb ddealltwriaeth gyffredin o'r termau, ac y gallai termau o'r fath fod yn ddryslyd i rieni a gofalwyr. Bydd y gwerthusiad, felly, yn anelu at ymchwilio i'r ffactorau sydd i'w priodol i'r diffyg cysondeb a adroddwyd wrth ddehongli'r diffiniadau, a goblygiadau hyn yn ymarferol. Bydd hyn yn cael ei archwilio gyda'r nod o ddarparu argymhellion ar sut y gellir goresgyn yr heriau hyn i sicrhau bod dealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniadau ADY a DDdY ymhlith ymarferwyr.

*Niferoedd y disgyblion ag AAA/ADY*


4.44 Yng nghyd-destun y dystiolaeth o wahanol ffynonellau sy'n tynnu sylw at anghysondebau yn y dehongliad o'r diffiniadau o ADY a DDdY, mae'n bwysig ystyried bod cyflwyno'r diwygiadau i'r system ADY hefyd wedi mynd law yn llaw â gostyngiad ymddangosiadol yn nifer y plant y nodwyd bod ganddynt AAA neu ADY.

4.45 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data blynyddol ar nifer a chanran y dysgwyr ag AAA/ADY yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Fel yr adroddwyd yng nghanlyniadau CYBLD[27], ym mis Ionawr 2023, roedd 63,089 o ddisgyblion ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir (13.4% o'r holl ddisgyblion), o gymharu â 74,661 (15.8%) ym mis Chwefror 2022. Mae Ffigurau 4 a 5 yn dangos canran y disgyblion ag AAA/ADY yn ôl y math o ddarpariaeth AAA neu ADY o 2018 i 2023. Wrth ddehongli'r ffigurau hyn, dylid nodi eu bod yn seiliedig ar ddata a gasglwyd drwy CYBLD, sef casgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion

[27] Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023 | LLYW.CYMRU


ac ysgolion a ddarperir gan bob ysgol a gynhelir, sydd ar agor ar ddiwrnod y cyfrifiad, ym mis Ionawr bob blwyddyn. Felly, ni chaiff unrhyw newidiadau yn nifer y disgyblion ar y systemau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ers mis Ionawr 2023 eu cynnwys yn y data hyn, a dylid dehongli'r ffigurau gyda'r cafeat hwn mewn cof.

**Ffigur 4. Canran y disgyblion sydd â phob math o ddarpariaeth AAA neu ADY, 2018-2023**




Ffynhonnell: StatsCymru

**Ffigur 5: Canran y disgyblion ag AAA neu ADY yn ôl y math o ddarpariaeth, 2018-2023**




Ffynhonnell: StatsCymru

4.46 Disgwylir gostyngiad yng nghanran y disgyblion gyda phob math o ddarpariaeth AAA wrth i blant gael eu symud o'r system AAA i'r system ADY ac, fel y dangosir yn Ffigur 4, gwelir y gostyngiad mwyaf yng nghanran y disgyblion sydd â'r mathau canlynol o ddarpariaeth AAA: gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy. Mae data CYBLD hefyd yn dangos, fel y rhagwelwyd, fod nifer y CDUau (ysgolion ac ALlau a gynhelir) wedi cynyddu ers cyflwyno'r Cod ADY yn 2021. Fodd bynnag, yn nodedig, nid yw'r cynnydd mewn CDUau yn gymesur â'r gostyngiad yng nghanran y disgyblion sydd â darpariaeth gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy.

4.47 Amlygwyd nifer o ffactorau a allai gyfrannu at y gostyngiad a welwyd yn nifer y disgyblion ag ADY/AAA dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys adolygiad systematig gan ysgolion o'u cofrestrau ADY/AAA yn barod ar gyfer cyflwyno'r system ADY. Fel yr adroddwyd yng nghanlyniadau'r cyfrifiad ysgolion ar gyfer mis Ionawr 2023[28], 'mae dadansoddiad o'r data, ynghyd ag adborth gan awdurdodau

[28] Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023 (tud 16)

lleol yn awgrymu bod y gostyngiad yn nifer y disgyblion ADY/AAA dros y ddwy flynedd diwethaf o ganlyniad i adolygiad systematig gan ysgolion o'u cofrestrau ADY/AAA yn barod ar gyfer cyflwyno'r system ADY. Tynnwyd y disgyblion hynny ag anghenion lefel isel, na nodwyd bod ganddynt ADY/AAA cydnabyddedig, oddi ar y gofrestr'.[29] I ategu hyn, mae Estyn (2023a) hefyd yn dweud 'nid yw goruchwylio cofrestrau AAA ar lefel ysgol ac awdurdod lleol wedi bod yn gryf. O ganlyniad, gallai disgyblion fod wedi aros ar  gofrestrau AAA am flynyddoedd lawer (tud.21). At hynny, aiff Estyn ymlaen i nodi bod llawer o ysgolion wedi cynnal adolygiad o'u cofrestrau AAA/ADY yn sgil y diwygiadau i'r system ADY, gan arwain at rai newidiadau.

4.48 Ffactor arall a allai fod wedi dylanwadu ar niferoedd y disgyblion ag ADY/AAA, a amlygwyd hefyd yng nghanlyniadau'r cyfrifiad ysgolion o fis Ionawr 2023, yw dileu'r categori 'Anawsterau dysgu cyffredinol'. Ar gyfer cyfrifiad ysgolion 2023, gofynnwyd i ysgolion 'beidio defnyddio'r categori 'Anawsterau dysgu cyffredinol' ac i ailasesu categori priodol o angen ar gyfer disgyblion o'r fath'.[30] Roedd y categori hwn wedi dod yn un cyffredinol ar gyfer y rhai yr oedd angen cymorth dal i fyny arnynt, gyda mân anghenion a/neu le'r oedd anghenion lluosog yn bodoli, yn lle ei fwriad gwreiddiol, sef dal dysgwyr a oedd yn aros am asesiad'[31]. Yn ôl pob tebyg, mae hyn wedi[32] arwain at dynnu rhai disgyblion oddi ar y gofrestr os canfuwyd nad oedd ganddynt ADY/AAA. Mae Estyn (2023a) hefyd yn nodi 'Nid oedd yn anghyffredin bod disgyblion a oedd yn derbyn ymyriadau dal i fyny yn y tymor byr ar gyfer llythrennedd a/neu rifedd wedi'u categoreiddio'n ddisgyblion sydd ag anhawster dysgu cyffredinol ac wedi'u cofnodi ar gofrestr AAA yr ysgol fel gweithredu gan yr ysgol' (tud.18).

4.49 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi ei bod yn ymddangos bod y ffactorau a amlygir yng nghanlyniadau'r cyfrifiad ysgolion o fis Ionawr 2023 fel rhai a allai fod yn sail i'r gostyngiad mewn disgyblion ADY/AAA dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd yn bennaf (adborth gan ALlau) yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.  Yn gyffredinol, felly, bydd angen rhagor o ymchwil i archwilio cyfraniad posibl y ffactorau hyn at y newidiadau a welwyd yn niferoedd yr AAA/ADY.

[29] Ibid.
[30] Ibid. (tud 16)
[31] Ibid. (tud 17)
[32] Ibid.

4.50 Mae’n werth nodi mai un o'r rhagdybiaethau allweddol a oedd yn sail i’r diwygiadau i'r system ADY, a amlinellwyd ym Memorandwm Esboniadol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) oedd:

> 'Mae'r diffiniad arfaethedig ar gyfer ADY yn debyg i'r diffiniadau presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Dylai nifer y dysgwyr a fyddai ag ADY, felly, fod yr un fath â'r rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ar hyn o bryd.'

Fodd bynnag, mae’r dystiolaeth sy’n dod i’r amlwg mewn perthynas â gweithredu’r system ADY yn awgrymu efallai nad yw’r rhagdybiaeth hon yn gywir. Yn fwy penodol, yng ngoleuni’r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr isadran flaenorol (4.37 ymlaen), mae’n bosibl, yn ymarferol, y bydd anghysondebau yn y diffiniadau o ADY a DDdY, yn ogystal ag amrywiadau yn y ffordd y mae ysgolion yn dosbarthu eu darpariaeth. Yn nodedig, daw Estyn (2023a) i’r casgliad:

> 'Felly, at ei gilydd, er bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn glir, ar y cyfan, am y ddarpariaeth y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion, mae’r graddau y caiff darpariaeth o’r fath ei dosbarthu yn DDdY yn amrywio. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd dim ond pan dybir bod darpariaeth yn DDdY yr ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, a bod angen CDU arno' (Estyn 2023a, tud.23).

Un rhagdybiaeth bosibl felly fyddai y gallai'r amrywiadau hyn yn y dehongliad o'r diffiniadau hefyd fod yn dylanwadu ar niferoedd y disgyblion AAA/ADY i ryw raddau. Fodd bynnag, mae'n rhaid pwysleisio nad yw'r ddamcaniaeth hon wedi'i phrofi ar hyn o bryd a bod angen ymchwilio'n drylwyr iddi er mwyn pennu ei dilysrwydd. Serch hynny, dylid nodi y tynnwyd sylw at bryderon ynghylch effaith cymhwyso’r diffiniad o ADY a’r hyn y gallai hynny ei olygu i niferoedd y CDU yn ymarferol yn ystod y broses ymgynghori ar y Cod ADY. Yn fwy penodol, wrth grynhoi barn y rhanddeiliaid yr oeddent wedi ymgysylltu â nhw i lywio eu hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cod ADY drafft, amlygodd y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2019) fod peth pryder:

> 'ynglŷn â chymhwyso'r diffiniad ADY yn fwy cyffredinol gyda rhai awgrymiadau y bydd pwysau o ran adnoddau yn golygu bod yn rhaid i ddisgyblion ddangos lefel uwch o angen i gael eu barnu fel rhai sydd ag ADY ac sy’n gymwys i gael CDU'.[33]

Yn sgil y pryder hwn, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru:

---

[33] Ymateb y Pwyllgor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: 22 Mawrth 2019 (tud 6). Ar gael ar [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cod anghenion dysgu ychwanegol (ADY)]

> 'i egluro'n ddiamwys yn y Cod ADY nad oes newid i'r trothwy o ran beth yw ADY o dan y system newydd, o'i gymharu ag AAA ar hyn o bryd'.[34]

Mae pryderon y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg felly yn atgyfnerthu'r angen i'r gwerthusiad ymchwilio i'r graddau y gallai amrywiadau yn y modd y caiff y diffiniadau o ADY a DDdY eu dehongli a phwysau ar adnoddau fod yn effeithio ar weithrediad y system ADY ac yn sgil hynny ar nifer y disgyblion y nodir bod ganddynt AAA/ADY.

4.51 Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi bod tirwedd polisi addysg Cymru wedi newid yn sylweddol ers i'r ddeddfwriaeth ADY gael ei llunio gyntaf 10 mlynedd yn ôl. Yn wir, mae tystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad hwn yn dangos y bu newid mewn ffocws polisi yn nhirwedd addysg Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Conn a Davis, 2023; Knight et al., 2022; Knight a Crick, 2021; Conn a Hutt, 2020) gyda ffocws cynyddol ar hawliau plant ac addysg gynhwysol a chan symud tuag at addysg gynhwysol 'development of practices to support the inclusion of all learners' (Conn a Davis, 2023, tud.4). Yr hyn sy'n arbennig o nodedig yw'r ffaith bod y system ADY hefyd yn cael ei rhoi ar waith ochr yn ochr â'r Cwricwlwm i Gymru ac, yn bwysicach, mai nod y ddau ddiwygiad hyn yw darparu system addysg gynhwysol a theg yng Nghymru. Yn arwyddocaol, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i leoliadau addysgol ddatblygu cwricwla ac addysgeg sy'n hyblyg, yn briodol ac yn ymatebol i anghenion unigol pob dysgwr a'i nod yw gwella ansawdd yr addysgu fel y gall ystafelloedd dosbarth prif ffrwd gefnogi cynnydd pob myfyriwr yn effeithiol, gan gynnwys y rhai ag ADY.

4.52 Yn ddiddorol ddigon, nododd ymchwil i weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2023i; Llywodraeth Cymru, 2023j) fod uwch arweinwyr mewn ysgolion wedi nodi bod y cwricwlwm yn caniatáu iddynt hyrwyddo cynhwysiant a chanolbwyntio ar hynny. Amlygwyd newidiadau yn y ffyrdd y mae ymarferwyr addysgol yn cefnogi dysgwyr ADY gan uwch arweinwyr yn y ddwy astudiaeth gynnar hyn o'r Cwricwlwm i Gymru, gyda mwy o drosolwg strategol i ymgorffori cynwysoldeb yn amgylchedd y dosbarth yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â sesiynau unigol â chymorth ar gyfer dysgwyr ADY.

4.53 Yng ngoleuni'r ffaith bod diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru ac ADY yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr, a'r cyfleoedd sy'n deilio o hynny, bydd yn bwysig i'r gwerthusiad ystyried y cyd-destun ehangach hwn ac archwilio'r goblygiadau ar gyfer

[34] Ibid, tud. 6.

gweithredu'r system ADY. Er enghraifft, bydd angen i'r gwerthusiad archwilio effaith y Cwricwlwm i Gymru a newidiadau cysylltiedig i arferion addysgeg ar nifer y dysgwyr y nodwyd bod angen DDdY arnynt.

4.54 Er bod y data a gyflwynir yn Ffigurau 4 a 5 yn ymwneud â nifer y disgyblion ag AAA/ADY ar lefel genedlaethol, o Ddata CYBLD mis Ionawr 2023[35], mae hefyd yn amlwg bod amrywiadau yn niferoedd y disgyblion AAA/ADY ar lefel ranbarthol. Yr hyn sy'n arbennig o nodedig, wrth edrych yn benodol ar y niferoedd â CDU, yw bod data CYBLD yn dangos bod canran y dysgwyr sydd â CDUau (gan gynnwys CDUau a gynhelir gan ysgolion ac awdurdodau lleol) yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol. Mae'n bwysig cydnabod bod y data hyn yn adlewyrchu nifer y CDUau sy'n bodoli ym mis Ionawr 2023, ac felly efallai bod y sefyllfa wedi newid ers hynny. At hynny, mae sawl ffactor yn creu heriau wrth gymharu data rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys amrywiadau yng nghanrannau'r dysgwyr oedd ar gofrestrau AAA awdurdodau lleol yn flaenorol a chyfranogiad rhai awdurdodau lleol, ond nid eraill, mewn gweithgaredd peilot a fu'n sail i'r polisi ADY. Serch hynny, bydd yn bwysig i waith maes y gwerthusiad archwilio'r ffactorau posibl sy'n dylanwadu ar yr amrywiadau rhanbarthol yng nghanran y dysgwyr â CDUau ac ystyried hyn wrth ddewis samplau ar gyfer gwaith maes.

4.55 I grynhoi, mae'n ymddangos bod y data presennol sydd ar gael ar nifer y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt AAA/ADY yn gwrth-ddweud y rhagdybiaeth yn y polisi gwreiddiol na fyddai newid sylweddol yn nifer y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt AAA/ADY yn dilyn cyflwyno'r system ADY. Mae'n bwysig nodi bod y broses weithredu'n dal i fynd rhagddi ac felly rhagwelir y bydd nifer y CDUau yn cynyddu ymhellach wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, dylai archwilio'r ffactorau posibl sy'n dylanwadu ar y newidiadau a welwyd yn niferoedd y disgyblion AAA/ADY a'r amrywiadau rhanbarthol fod yn flaenoriaeth allweddol i'r gwerthusiad. Mae'n debygol y bydd amrywiaeth gymhleth o ffactorau rhyng-gysylltiedig yn sail i hyn, ac nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ar sail y dystiolaeth bresennol. Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth sy'n tynnu sylw at anghysondebau posibl yn y ffordd y deellir ADY a DDdY, dylai'r graddau y mae hyn o bosibl yn effeithio ar niferoedd AAA/ADY, gan gynnwys amrywiad rhanbarthol yng nghanran y dysgwyr â CDUau, fod yn drywydd ymchwilio allweddol ar gyfer y gwerthusiad. Yn olaf, yng

[35] Disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth

ngoleuni'r ffaith bod y diwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru ac ADY yn cael eu rhoi ar waith ochr yn ochr, bydd hefyd yn bwysig i'r gwerthusiad roi ystyriaeth ddyledus i'r cyd-destun ehangach hwn ac ystyried goblygiadau hyn ar gyfer gweithredu'r system ADY.

*Cynlluniau Datblygu Unigol*

4.56 Mae CDUau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r dysgwr a'i riant/gofalwr yn ganolog i'r penderfyniadau, yn rhan bwysig o'r system ADY ddiwygiedig, fel y dangosir yn y theori newid. Fel yr amlinellir yn y Cod ADY, bydd gan ddysgwyr ag unrhyw lefel o anghenion dysgu ychwanegol, y mae angen i DDdY fod ar gael iddynt, hawl i gael CDU sy'n amlinellu eu hanghenion cymorth. Mae CDUau wedi disodli'r Datganiad AAA, y Cynllun Addysg Unigol neu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau blaenorol. Mae'r adran hon yn archwilio'r dystiolaeth bresennol sy'n canolbwyntio ar CDUau, gan gynnwys heriau sy'n gysylltiedig â pharatoi cynlluniau a bodloni amserlenni statudol, yn ogystal â diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am CDUau.

4.57 Yn ôl Estyn (2023a) mae symud o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig i CDUau wedi creu heriau o ran eglurder a chysondeb. Er bod CDUau yn cael eu hystyried yn gynlluniau mwy personol ac yn adlewyrchu cryfderau ac anghenion cymorth ychwanegol myfyrwyr, mae'r broses o'u datblygu a'u cynnal yn cymryd amser, ac mae wedi arwain at gynnydd sylweddol yn llwyth gwaith CADYau (Estyn 2023a; Jones 2022; AGAA 2023). Noda Jones (2022) ymhellach fod paratoi Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf yn gofyn am fwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol, sy'n fwy na'r amser a oedd ar gael i Gydlynwyr AAA o dan y system flaenorol. Mae hyn wedi arwain at fwy o bwysau ar CADYau, gan olygu bod angen cymorth parhaus arnynt a bod angen dyrannu adnoddau iddynt.

4.58 Mae awdurdodau lleol ac ysgolion wedi dweud wrth Estyn bod pwysau sylweddol yn gysylltiedig â bodloni'r amserlenni statudol ar gyfer cyhoeddi CDUau, a bod yr oedi i'w briodoli'n bennaf i anawsterau o ran cael mewnbwn amserol gan asiantaethau allanol, yn enwedig asiantaethau iechyd. Mae Estyn (2023a) hefyd yn dweud mai cyfyngedig yw'r data sydd ar gael i ddangos a oes cydymffurfiaeth ag amserlenni statudol.

4.59 Trafodir heriau tebyg sy'n gysylltiedig â gweithredu CDU ymhellach yn adroddiad AGAA (2023). Er bod y mwyafrif (73 y cant) o'r arweinwyr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg wedi nodi bod eu hysgol wedi'i pharatoi'n dda neu'n dda iawn i baratoi a chynnal CDU, ac er bod yr ymatebwyr yn cydnabod bod yr hyfforddiant a'r cymorth ar CDUau yn ddefnyddiol, mae adroddiad AGAA (2023) yn cyfeirio at heriau wrth weithio gydag asiantaethau allanol i baratoi CDUau. Mae materion eraill a godwyd gan AGAA mewn perthynas â pharatoi CDUau yn cynnwys oedi wrth rannu gwybodaeth, straen ariannol ar sefydliadau addysgol, heriau a chapasiti'n ymwneud â staffio, anawsterau wrth reoli disgwyliadau rhieni, ac anghysondebau mewn CDUau. Nodwyd hefyd bod trosglwyddo gwybodaeth rhwng CDUau ysgolion a CDUau awdurdodau lleol yn broblematig a allai arwain at gymorth annigonol i fyfyrwyr.

4.60 Mae Estyn (2023a, tud.26) yn nodi 'nad yw rhieni ac ysgolion bob amser yn glir am y CDUau hynny a fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol'. Dengys ei adroddiad fod ysgolion yn tueddu i fod yn glir ynghylch y ffaith mai awdurdodau lleol sy'n cynnal y CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd â chofrestriad deuol, er enghraifft disgyblion sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion. Fodd bynnag, ar wahân i'r grwpiau hyn o ddysgwyr, mae'r adroddiadau'n nodi ei bod yn ymddangos bod 'diffyg eglurder a thryloywder ynglŷn â'r CDUau hynny a fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, mae anghysondebau clir o ran arfer. Gallai CDU disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol gael ei gynnal naill ai gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol y maent yn ei mynychu.' (Estyn, 2023a, tud.35). Amlygodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2023a) amrywiadau ar draws awdurdodau lleol:

> 'roedd yn ymddangos bod setiau gwahanol o feini prawf i wahanol gyfranogwyr eu dilyn wrth benderfynu pwy ddylai fod yn gyfrifol am ysgrifennu a chynnal y CDU, ai'r ysgol neu'r awdurdod lleol? Roedd hyn yn amrywio mewn gwahanol feysydd gan achosi rhwystredigaeth ond gan hefyd greu diffyg ymddiriedaeth i rai o'r awdurdodau lleol. (Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2023a, tud.6).

4.61 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC, 2023) yn nodi bod awdurdodau lleol wedi cynnal trafodaethau â rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion a CADYau, ynghylch eu prosesau CDU a bod awdurdodau lleol, o ganlyniad, yn teimlo'n gyffredinol bod CADYau, ysgolion, rhieni a dysgwyr, yn glir ynghylch a yw'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal CDU. Fodd bynnag, aiff CLILC (2023) ymlaen i nodi bod rhai heriau gweithredol yn parhau ac amlinellodd yr angen i

ddarparu cefnogaeth/hyfforddiant pellach i ysgolion sy’n cael trafferth gwneud atgyfeiriadau ar gyfer CDUau awdurdodau lleol, er mwyn osgoi atgyfeiriadau hwyr a all arwain at achosion cymhleth yn gwaethygu a’r perygl o fwy o waith Tribiwnlys.

4.62 I grynhoi, mae’r dystiolaeth a adolygwyd fel rhan o’r astudiaeth hon yn dangos bod y gwaith o baratoi CDUau yn unol ag amserlenni statudol yn rhoi cryn bwysau ar adnoddau, gan effeithio’n sylweddol ar CADYau yn fwyaf nodedig. Bydd angen ymchwil pellach, fel rhan o'r gwerthusiad hwn, i edrych yn fanylach ar y mater hwn. Mae’r llenyddiaeth yn nodi rhai achosion lle mae’n ymddangos hefyd bod diffyg eglurder ymhlith ymarferwyr ynghylch pwy sy’n gyfrifol am gynnal CDUau: mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod angen ymchwilio i’r gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i bennu pwy sy’n cynnal CDUau fel rhan o'r gwerthusiad hwn, gan gynnwys ffocws ar gyfathrebu’r gwahanol ddulliau hyn ag ysgolion, rhieni, gofalwyr a dysgwyr.

*Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a dysgwyr*

4.63 Mae'r Ddeddf ADY yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried barn dysgwyr, yn ogystal â barn eu rhieni/gofalwyr, fel rhan o'r broses gynllunio bob amser. Mae’r theori newid hefyd yn amlinellu pwysigrwydd cynnwys plant, pobl ifanc, a’u rhieni a’u gofalwyr yn y system ADY. Mae’r adran hon yn ceisio archwilio tystiolaeth ynghylch sut y mae hyn yn cael ei gyflawni’n ymarferol. Fodd bynnag, dylid nodi mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar sut y mae dysgwyr yn cymryd rhan yn y system ADY, gan bwysleisio'r angen am fwy o ymchwil i'r agwedd allweddol hon.

4.64 Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi’r defnydd o ddulliau cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ers cryn amser. Yn y cyd-destun hwn, mae’r pontio o’r system AAA flaenorol i’r dull sy’n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a gyflwynwyd gan y Ddeddf wedi cael ei groesawu'n frwd mewn ysgolion ac awdurdodau lleol (Estyn 2023a; Jones 2022). Mae Estyn (2023a) hefyd yn nodi bod hyn wedi arwain at berthynas gryfach rhwng ysgolion a rhieni. Mae ymarferwyr, yn enwedig CADYau, yn canmol yr ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn fel gwelliant sylweddol o ran cefnogi dysgwyr ADY a’u teuluoedd. Noda Jones (2022) fod cyfarfodydd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda dysgwyr a’u teuluoedd yn meithrin lefelau uwch o ymddiriedaeth, gan arwain at wybodaeth fwy ystyrlon sy’n sail i strategaethau cymorth wedi’u teilwra.

4.65 O ran y wybodaeth sydd ar gael i rieni, mae Estyn (2023a, tud.10) yn nodi 'mae ansawdd a hygyrchedd y wybodaeth ar gyfer rhieni ar wefannau Cynghorau ac ysgolion yn rhy amrywiol', a allai arwain at ddryswch i rieni. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cyfeirio at well perthnasoedd gwaith rhwng ysgolion a rhieni, gan arwain at lefelau is o her. Mae’r adroddiad hefyd yn egluro bod mwyafrif yr apeliadau a gyflwynwyd i’r Tribiwnlys Addysg wedi’u cymeradwyo gan awdurdodau lleol neu wedi’u tynnu’n ôl ‘sy’n awgrymu bod llawer o waith i’w wneud o hyd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni i osgoi anghydfod ar adeg gynharach’ (ibid. tud.10). Ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth ychwanegol wedi'i chyhoeddi ynghylch safbwyntiau rhieni ar broses y Tribiwnlys Addysg.

4.66 Yn ôl astudiaeth AGAA (2023), nododd y rhan fwyaf o’r arweinwyr ysgolion a holwyd eu bod yn credu bod eu lleoliad wedi'i baratoi'n dda i gynnwys disgyblion a’u rhieni/gofalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, soniodd AGAA (2023) hefyd am heriau parhaus o ran rheoli disgwyliadau rhieni mewn perthynas â'r ddarpariaeth, sicrhau parhad y ddarpariaeth a mynd i'r afael ag anghysondebau o fewn CDUau. Serch hynny, teimlir bod mabwysiadu dull cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cyfrannu at ddealltwriaeth well o’r system ymhlith rhai rhieni ac yn cefnogi mwy o gynhwysiant (AGAA, 2023).

4.67 Er ei bod yn gyfyngedig, ystyriwyd tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â phrofiadau rhieni o'r system ADY hefyd fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae adborth gan rieni a gasglwyd gan SNAP Cymru[36] rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023 (SNAP Cymru 2023a, 2023b) yn tynnu sylw at bryderon ynghylch oedi cyn gwneud penderfyniadau oherwydd nad yw ysgolion yn cadw at ofynion yr amserlen fel y nodir yn y Cod ADY. Mynegodd rhieni anniddigrwydd hefyd ynghylch disgrifiadau amwys mewn CDUau mewn perthynas ag ADY a DDdY a phryderon am yr anghysondebau rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol o ran eu darpariaeth ADY. Codwyd heriau hefyd o ran cael mynediad i seicolegwyr addysg a defnyddio llinellau cymorth ADY awdurdodau lleol. Yn olaf, er bod rhai rhieni wedi nodi bod ganddynt berthnasoedd cadarnhaol ag ysgolion, codwyd pryderon sylweddol ynghylch mynediad i wybodaeth ddiduedd ac annibynnol, yn enwedig i deuluoedd agored i niwed.

[36] Gwefan Snap Cymru

4.68 I gloi, mae’r dystiolaeth a amlinellir yn yr adran hon yn awgrymu bod llawer o ymarferwyr addysg yn credu bod y defnydd cynyddol o ddulliau cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cyfrannu at berthnasoedd cryfach rhwng sefydliadau addysgol a rhieni plant ag ADY. At hynny, mae tystiolaeth i awgrymu bod arweinwyr ysgolion yn credu eu bod wedi’u paratoi'n dda i gynnwys dysgwyr a’u rhieni neu ofalwyr yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae’r dystiolaeth gan ysgolion a thystiolaeth sy’n dod i’r amlwg gan rieni hefyd yn tynnu sylw at heriau parhaus, gan gynnwys amrywiadau yn ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth i rieni, gan bwysleisio'r angen am well cyfathrebu a thryloywder. Yn bwysig ddigon, bydd y gwaith maes a gynllunnir fel rhan o gam nesaf y gwerthusiad hwn (yn enwedig yr astudiaethau ardal ADY) yn darparu cyfleoedd pellach i ymchwilio i brofiadau rhieni, gofalwyr a dysgwyr o’r system ADY o safbwynt y grwpiau hyn.

*Cydweithio a gweithio mewn clwstwr*

4.69 Mae cydweithio a gwaith amlasiantaeth wedi dod i'r amlwg fel elfennau hanfodol o weithredu ADY. Fel y nodwyd yn y theori newid, mae’r system ADY yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gydweithio i sicrhau bod ADY yn cael ei nodi’n gynnar, a bod cymorth cydgysylltiedig yn cael ei roi ar waith i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae’r adran hon yn adolygu tystiolaeth gyfredol, a ganfuwyd yn arbennig yn yr adroddiadau diweddar gan Estyn (2023a) a AGAA (2023) yn ymwneud â’r graddau y mae asiantaethau’n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth. Gan dynnu ar y dystiolaeth sydd ar gael, aiff yr adran hon ymlaen i amlygu datblygiadau yn ogystal â heriau parhaus i feithrin cydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid ar draws y system.

4.70 Yn ôl adroddiad thematig Estyn (2023), mae llawer o ysgolion wedi datblygu dulliau cydweithredu cadarnhaol gydag awdurdodau lleol. Mae’r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at gynnydd nodedig mewn cydweithio rhwng awdurdodau lleol a darparwyr blynyddoedd cynnar ers cyflwyno rôl swyddog anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar. Yn ogystal, roedd yr ysgolion yn yr adolygiad thematig yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gânt gan ysgolion arbennig. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn rhy amrywiol ar y cyfan. Mae heriau’n parhau o ran cael mynediad i gymorth amserol gan wasanaethau iechyd, a dywedodd ysgolion wrth Estyn fod cael gafael ar

gymorth gan wasanaethau lleferydd ac iaith, timau niwroddatblygiadol a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn her. Mae Estyn hefyd yn dweud nad yw'n glir a oes gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn eu rôl o gefnogi plant sy'n derbyn gofal, ddealltwriaeth ddigon sicr o'r Ddeddf ADY.

4.71 Mae adroddiad AGAA (2023) hefyd yn nodi rhai heriau sy'n ymwneud â gwaith amlasiantaethol. Er bod gwasanaethau awdurdodau lleol yn gyffredinol wedi ymgysylltu mwy ers cyflwyno'r Ddeddf ADY, dywedodd yr ymatebwyr i arolwg AGAA (2023) nad oedd gan wasanaethau eraill, megis gwasanaethau iechyd, gapasiti i ymgysylltu â lleoliadau addysgol. Ymhlith yr heriau a nodwyd mae prinder gweithwyr proffesiynol, a'r angen i uwchsgilio. Gan ymhelaethu ar yr heriau wrth weithio gyda'r maes iechyd, roedd y rhai a gymerodd ran yn astudiaeth AGAA eisiau darganfod mwy am rolau a chyfrifoldebau'r SACDAau. Nododd pob un o'r SACDAau a gyfwelwyd fel rhan o astudiaeth AGAA fod angen i iechyd ac addysg weithio gyda'i gilydd a bod angen cyd-ddealltwriaeth o rolau a phrosesau. Dywed Llywodraeth Cymru hefyd fod gan awdurdodau lleol bryderon ynghylch capasiti gweithwyr iechyd proffesiynol i ymgysylltu'n gyson â'r broses CDU, gan nodi bod 'effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng ALlau a byrddau iechyd yn amrywio, ond mae'n parhau i wella' (Llywodraeth Cymru 2023k, tud.9).

4.72 Mae Estyn (2023a, tud.10) hefyd yn nodi y gall cydweithio â gwasanaethau iechyd fod yn heriol ac mai 'cydweithwyr mewn asiantaethau eraill, yn enwedig asiantaethau iechyd, sy'n cael yr anhawster mwyaf yn darparu cyngor a gwybodaeth [ar gyfer CDUau] o fewn y graddfeydd amser penodol'. Yn ogystal â hynny, nodwyd yn yr adroddiad hwn fod yr ymrwymiad a wna awdurdodau iechyd i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn rhy amrywiol. Roedd y rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad thematig yn croesawu cyflwyno rôl y SACDA er bod ei effaith yn parhau i fod braidd yn aneglur. (Mae Estyn yn bwriadu ymchwilio i rôl y SACDA yn ail gam ei adolygiad thematig).

4.73 Mae Estyn (2023a) hefyd yn nodi heriau o ran cydlynu â gwasanaethau addysg a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a allai o bosibl beryglu cymorth i fyfyrwyr ag ADY, yn enwedig o ran cael mynediad amserol at wasanaethau. At hynny, nodwyd y pwysau parhaus ar gyllid yn y GIG, a allai greu heriau o ran dyrannu adnoddau, yn enwedig o ran y nifer cynyddol o ddisgyblion mewn UCDau ers y pandemig. Mae'r ymatebwyr i ymchwil AGAA (2023) yn amlygu'r angen am well dealltwriaeth o rôl gwasanaethau iechyd wrth lunio CDUau,

pan fo angen meddygol neu iechyd yn effeithio ar ddysgu. Noda Llywodraeth Cymru (2023k, tud.8) hefyd fod heriau o ran gweithio'n gyson ar draws byrddau iechyd o ystyried bod pob un yn gwasanaethu awdurdodau lleol lluosog ac 'fel arfer, mae gan bob ALl arferion gweithredol gwahanol, systemau rheoli gwybodaeth gwahanol a ffyrdd gwahanol o gefnogi ADY. Bydd angen i fyrddau iechyd ac ALlau chwilio am ffyrdd o addasu'r ffordd y maent yn gweithredu er mwyn sicrhau cydweithio.' Fodd bynnag, mae'n bwysig ail-bwysleisio mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth gyfredol ar safbwyntiau ymarferwyr iechyd o ran cydweithio amlasiantaethol (a chydweithio'n fwy cyffredinol) a bydd angen ymchwilio ymhellach i hyn yn y gwerthusiad hwn.

4.74 Mae cydweithio a rhannu gwybodaeth hefyd yn digwydd rhwng lleoliadau addysgol, yn enwedig wrth i ddysgwyr bontio rhwng lleoliadau. Amlygwyd heriau yn y maes hwn yn adroddiad AGAA (2023), gydag ychydig dros hanner yr arweinwyr ysgolion a holwyd yn nodi anawsterau wrth ddarparu ar gyfer dysgwyr ag ADY o leoliadau addysgol eraill. Pwysleisiodd yr ymatebion y mater o oedi neu waith papur coll, sy'n effeithio ar brosesau pontio a CDUau. Cyfeiriodd yr adborth at annigonolrwydd y wybodaeth a ddarparwyd gan leoliadau addysgol blaenorol, gan gynnwys yn ystod y cyfnod pontio o'r cyfnod cyn-ysgol i'r cynradd, o'r cynradd i'r uwchradd, ac o'r uwchradd i addysg bellach. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi pryderon am brinder ac ansawdd y gwaith papur er mwyn gallu cynnal asesiadau'n effeithiol.

4.75 Dengys y dystiolaeth fod gweithio mewn clystyrau o ysgolion wedi hwyluso cydweithio llwyddiannus, gan gefnogi gweithredu'r diwygiadau ADY. Mae adroddiad AGAA (2023) yn amlygu effaith gadarnhaol cymorth a hyfforddiant gan grwpiau clwstwr, gan gyfeirio at ymatebion uwch arweinwyr i'r arolwg. Canfu'r adroddiad hwn hefyd fod ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r amgylchedd cefnogol a ddarperir gan glystyrau a'r cyfleoedd i rannu adnoddau mewn cyfarfodydd clwstwr. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg gan sampl o uwch arweinwyr, dywed AGAA fod gweithio mewn clwstwr yn werthfawr i gefnogi'r broses o ddatrys problemau, rhwydweithio, a chael y wybodaeth am y canllawiau diweddaraf ar weithredu'r system ADY. Teimlai'r rhai a gymerodd ran yn ymchwil y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2023a) hefyd y bu cysylltiadau cryfach a chymorth o fewn clystyrau ynghylch diwygio ADY. Er eu bod yn cydnabod y manteision i ysgolion yn ei sampl yn sgil gwaith clwstwr, mae Estyn (2023) yn mynegi pryderon bod cyllid ar gyfer parhau â'r dull cydgysylltiedig hwn yn ansicr, fodd bynnag: 'Maent [ysgolion] yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan arweinwyr clystyrau a'r cyfleoedd i weithio

gyda chydweithwyr yn eu clwstwr ysgolion. Fodd bynnag, mae cyllid tymor hirach yr ymagwedd gydlynus at weithio mewn clystyrau yn aneglur ac mae hyn yn bygwth cynaliadwyedd yr ymagwedd hon (Estyn, 2023, tud.31)'.

4.76 I grynhoi, dengys y dystiolaeth, er bod enghreifftiau lle mae ysgolion wedi datblygu dulliau cydweithredol cadarnhaol gydag awdurdodau lleol, bod cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn rhy amrywiol ar y cyfan. Mae'n ymddangos bod ymarferwyr addysg wedi croesawu cyflwyno rolau allweddol, fel rôl swyddog anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar a SACDAau, ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod problemau parhaus yn ymwneud â chapasiti ac y gallai hyn fod yn llesteirio gallu partneriaid iechyd i ymgysylltu'n llawn â lleoliadau addysg. Yn ogystal â hynny, mae'r dystiolaeth yn dangos, er bod gwaith clwstwr rhwng lleoliadau addysg yn cael ei werthfawrogi gan ymarferwyr (e.e. ar gyfer rhannu adnoddau, hyfforddiant, a bod yn amgylchedd cefnogol), mae heriau o ran rhannu gwybodaeth yn ystod cyfnodau pontio o un lleoliad addysgol i'r llall. Ar sail y dystiolaeth gyfredol sydd ar gael, mae angen i'r gwerthusiad archwilio sut y mae partneriaid ar draws y system ADY yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth i sicrhau cynllunio a darpariaeth effeithiol sy'n diwallu anghenion dysgwyr. Dylai'r gwerthusiad roi blaenoriaeth i ddeall nodweddion cydweithio effeithiol a nodi pa ffactorau sy'n hwyluso ac yn atal cydweithio effeithiol, gan gynnwys rhwng gweithwyr addysg a gweithwyr iechyd proffesiynol.

*Dysgwyr ôl-16*

4.77 Er bod llawer o'r heriau a'r ystyriaethau a drafodir yn y bennod hon yn berthnasol ar draws pob lleoliad addysgol a grŵp oedran, mae materion amlwg yn y llenyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â gweithredu'r system yn y cyfnod addysg ôl-16 sy'n cael eu trafod yn yr adran hon.

4.78 Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau ac yn cyllido lleoliadau ôl-16 arbenigol ar gyfer pobl ifanc na ellir diwallu eu hanghenion drwy ddarpariaeth brif ffrwd leol yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. O dan y Ddeddf ADY, bydd y cyfrifoldeb hwn yn trosglwyddo o Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol. Mae hyn yn mynd rhagddo, a disgwylir i broses bontio fesul cam gael ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ysgol 2024/2025. O dan y trefniadau newydd, awdurdodau lleol fydd bellach yn gyfrifol am wneud penderfyniadau

gwybodus am gyllido lleoliadau i ddysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth sy'n mynychu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol. Yn ôl adroddiad thematig Estyn (2023), mae strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag ADY yn dal i fod ar gam datblygu cynnar. Mae gwybodaeth gyfyngedig hefyd am sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol ymhlith yr awdurdodau lleol hynny, gan arwain at ddiffyg ymgysylltu â nhw.

4.79 Mae'r Cod ADY yn nodi bod gan berson ifanc yr hawl i hyd at ddwy flynedd o addysg bellach neu hyfforddiant. Y tu hwnt i hynny, pan fo person ifanc yn dymuno parhau mewn addysg bellach ar ôl dwy flynedd, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg bellach a hyfforddiant, gan ystyried y ffactorau a nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Mae nifer o ffynonellau (Papur Trafod y Grŵp Llywio, Ionawr 2023 a TSANA[37]) yn cyfeirio at bryderon ynghylch y dehongliad o'r hawl dwy flynedd i dderbyn addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 a phennu angen rhesymol am addysg neu hyfforddiant ychwanegol ar ôl y ddwy flynedd. Dywed TSANA (2023a, 2023b), 'mae union natur eu hanableddau a'u hanawsterau dysgu yn golygu bod y dysgwyr hyn yn cymryd hwy i ddysgu, a dylid adlewyrchu hynny yn y polisi' fel bod prosesau yn darparu ar gyfer rhaglenni 'mwy na na 2 flynedd' fel y bo'n briodol. Mae TSANA (2023a) hefyd yn codi pryderon ynghylch y ffaith bod y cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau yn newid o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar gyfer lleoliadau mewn colegau addysg bellach arbenigol gan eu bod yn ofni y gallai'r newid hwn beryglu'r cyfleoedd i bobl ifanc ag ADY cymhleth gael mynediad i addysg bellach, yn enwedig ar gyfer y rhai ag anghenion prin a chymhleth na all SABau eu diwallu. Mae hefyd yn gofyn am arweiniad cliriach i sicrhau nad yw anallu SAB i ddiwallu anghenion dysgwr yn awgrymu na ellir darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y dysgwr. Mae'n pryderu y gallai'r diffyg eglurder hwn arwain at roi'r gorau i CDUau yn rhy gynnar.

4.80 Mae Colegau Cymru (2022) yn codi pryderon ynghylch gallu cyfyngedig y gweithlu i gefnogi dysgwyr ag ADY mewn addysg bellach. Er bod nifer y staff sy'n canolbwyntio ar ADY wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o golegau dros y ddwy flynedd hyd at 2022, mae Colegau Cymru yn awgrymu y gallai colegau ei chael hi'n anodd

[37] Mae TSANA, Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector, yn glymblaid o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn eu cefnogi ac yn eu cynrychioli. Caiff ei hwyluso gan Plant yng Nghymru.

diwallu anghenion dysgwyr ag ADY heb gael sicrwydd o gyllid parhaus pellach. Mae hyn yn codi cwestiynau am allu colegau i gynnal cymorth i ddysgwyr ag ADY yn yr hirdymor; mae Colegau Cymru yn damcaniaethu 'if no further funding is identified, they may feel forced to manage their provision by limiting the number of IDPs' (tud.6). Yn ogystal â hynny, maent yn nodi bod heriau'n parhau o ran diwallu anghenion cynyddol gymhleth, gan nad yw SABau yn debygol o allu bodloni'r angen i'r graddau y byddai llawer o awdurdodau lleol yn ei hoffi. At hynny, er gwaethaf ymdrechion i sefydlu protocolau pontio cyson, Protocolau Rhannu Gwybodaeth, a systemau ar gyfer cyfeirio CDU, mae rhywfaint o waith i'w wneud o hyd ar y gweithdrefnau hyn.

4.81 I grynhoi, mae'r adran hon wedi amlinellu heriau sy'n ymwneud yn benodol ag ADY yn y cyfnod addysg ôl-16. Dengys y dystiolaeth fod pryderon wedi cael eu codi ynghylch y dehongliad o'r hawl dwy flynedd i dderbyn addysg bellach a hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth, ac mae'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael yn pwysleisio bod sicrhau cysondeb mewn protocolau pontio a chapasiti digonol mewn sefydliadau addysg bellach yn flaenoriaethau y mae angen rhoi sylw parhaus iddynt. Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, felly, yn tanlinellu'r angen i'r gwerthusiad gynnal ymchwil ar y dehongliad o hawliau ôl-16 ac ar gysondeb gweithrediad y system ADY ar gyfer y grŵp oedran hwn.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg*

4.82 Un o egwyddorion y system ADY yw datblygu system ddwyieithog. Mae'r llenyddiaeth yn amlygu nifer o faterion allweddol sy'n ymwneud â darparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y nodir yn yr adran hon.

4.83 Amlygodd adroddiad ar y cyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg nad yw'r system ADY bresennol yng Nghymru yn diwallu anghenion cenedl ddwyieithog yn llawn. Nododd yr adroddiad mai ychydig o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA)[38] oedd yn rhoi trosolwg clir a manwl o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Amlygodd fod sawl awdurdod lleol yn cyfaddef nad oeddent yn deall yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn llawn, gan arwain at

[38] Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn rhaglen ar gyfer awdurdodau lleol i wella'r gwaith o gynllunio a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal. Mae cynlluniau ar gael yn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032 [HTML] | LLYW.CYMRU

fylchau posibl o ran bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf a'r Cod ADY (Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 2023).

4.84 O'r llenyddiaeth sydd ar gael, daw argaeledd adnoddau i gyflwyno darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg i'r amlwg fel thema allweddol. Er enghraifft, mae darparwyr cyfrwng Cymraeg wedi mynegi pryderon ynghylch argaeledd adnoddau Cymraeg i gefnogi gwaith ADY, gan nodi gwahaniaethau posibl yn yr adnoddau a ddarperir (Estyn, 2023a). Yn ogystal â hynny, disgrifiwyd heriau recriwtio staff cyfrwng Cymraeg fel rhai a oedd wedi bellach yn argyfwng, yn enwedig yn achos cymorth yn yr ystafell ddosbarth/cynorthwywyr dosbarth. Nododd ymchwil AGAA fod rhai ysgolion, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig a chan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cael trafferth recriwtio staff cymwys, gan effeithio ar ansawdd y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr ADY yn y lleoliadau hynny (AGAA, 2023).

4.85 I grynhoi, ar sail y dystiolaeth a adolygwyd, mae heriau amlwg i wireddu'r nod craidd o greu system ADY ddwyieithog. Mae'r heriau hyn yn cynnwys gwendidau mewn cynllunio strategol i gefnogi a datblygu DDdY cyfrwng Cymraeg, adnoddau Cymraeg cyfyngedig, a phrinder staff cymwys sy'n gallu cefnogi dysgwyr ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i'r gwerthusiad ymchwilio i sut yr eir i'r afael â'r materion hyn ac a yw'r system ADY yn cael ei gweithredu'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

*Casgliad*

4.86 Mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth wedi ceisio crynhoi ac amlygu llawer o'r materion a'r ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â gweithredu'r diwygiadau i'r system ADY. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n bwysig cydnabod bod y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch gweithredu'r system ADY yn parhau'n gymharol gyfyngedig ac, ar hyn o bryd, safbwyntiau o ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd yw'r mwyafrif llethol. Ymhen amser, y gobaith yw y bydd tystiolaeth bellach sy'n deillio o brofiadau ystod ehangach o leoliadau addysg (gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ôl-16), partneriaid yn y maes iechyd, awdurdodau lleol yn ogystal â rhieni, gofalwyr a dysgwyr, ar gael; dylai hyn roi gwell darlun o'r heriau a'r goblygiadau i'r rhanddeiliaid hyn wrth weithredu'r diwygiadau i'r system ADY. Fel yr amlinellir yn y crynodebau o bob is-adran uchod, bydd meysydd ffocws allweddol yn cael eu blaenoriaethu yng ngham nesaf y gwerthusiad, fel y nodir ym Mhennod 6.

## 5. Mapio data

5.1 Mae’r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau’r broses mapio data a edrychodd ar y data sydd ar gael a'u cymharu yn erbyn y mewnbynnau, y canfyddiadau a'r effeithiau a amlinellir yn y theori newid yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn, sef:

- mewnbynnau a gweithgareddau
- deilliannau tymor byr (a pharhaus)
- gweithredu'r system ADY
- deilliannau tymor canolig i blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a’r system ADY
- effeithiau hirdymor.

5.2 Mae Atodiad C[39] yn cynnwys disgrifiad o ffynonellau data a nodwyd o dan bob un o'r penawdau uchod ac i ba raddau y mae'r ffynonellau hyn yn ein galluogi i ateb cwestiynau ymchwil a gwerthuso sy'n deillio o'r theori newid. Mae’r ffynonellau data’n cynnwys setiau data gweinyddol y llywodraeth, data cenedlaethol ar gyfranogiad a chyrhaeddiad, data o arolygon addysg a thystiolaeth ymchwil a gwerthuso ad hoc. Rheolir y ffynonellau data hyn gan amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Ar gyfer rhai o'r ffynonellau data a nodwyd, cyhoeddir data, adroddiadau neu fwletinau ystadegol rheolaidd er bod rhai o'r ffynonellau hyn yn ad hoc ac eraill nad ydynt yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd.

5.3 Nodwyd llawer o ffynonellau data sy'n rhoi dealltwriaeth o elfennau penodol o'r theori newid. Fodd bynnag, prin yw'r ffynonellau sy'n archwilio'r cysylltiadau achosol rhwng eitemau, ac mae hyn felly'n cyfyngu ar y graddau y gellir profi'r theori newid gan ddefnyddio ffynonellau data eilaidd presennol.

### Trosolwg o'r ymarfer mapio data

5.4 Mae Tabl 3 yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r ymarfer mapio data. Mae’n nodi’r canlynol:

- Mae colofnau A a B yn cynnwys adrannau ac eitemau o'r theori newid
- Mae Colofn C yn cyflwyno cwestiynau ymchwil cyfatebol yn ymwneud â phob eitem yn y theori newid a'i chyfraniad at eitemau dilynol yn y gadwyn achosol

[39] Atodiad C – i’w gynnwys yn fersiwn 2 sydd i’w chyhoeddi ym mis Chwefror 2024

    - Mae’r cwestiynau hyn yn ymwneud â llawer o’r rhagdybiaethau sydd ymhlyg yn y theori newid, fel y nodir ym Mhennod 2.

- Mae Colofn D yn nodi'r prif ffynonellau data a nodwyd drwy'r broses mapio data
- Mae Colofn E yn dangos i ba raddau y byddai'r data sydd ar gael yn galluogi'r cwestiynau yng Ngholofn C i gael eu hateb ar lefel genedlaethol gan ddefnyddio data eilaidd.[40] At ddibenion yr ymarfer mapio data hwn, mae argaeledd y data wedi’i ddosbarthu fel a ganlyn:
    - **Ddim o gwbl.** Nid yw'r gwaith mapio data wedi nodi unrhyw dystiolaeth eilaidd sy'n galluogi cwestiwn/cwestiynau'r ymchwil i gael eu hateb
    - **Cyfyngedig.** Mae rhywfaint o dystiolaeth ar gael mewn perthynas â’r mewnbynnau neu weithgareddau perthnasol yn y theori newid (e.e. ar gyfer rhai grwpiau o bobl neu sectorau) ond nid ar y deilliannau tymor byr, tymor canolig neu dymor hwy, ac nid yw'n archwilio’r cysylltiadau achosol rhwng eitemau yn y theori newid
    - **Yn rhannol.** Mae rhywfaint o dystiolaeth ar gael mewn perthynas â’r mewnbynnau, gweithgareddau a chanlyniadau tymor byr, canolig neu hwy perthnasol yn y theori newid, ond nid ar y cysylltiadau achosol rhwng y mewnbynnau a’r gweithgareddau a’r deilliannau hyn
    - **Yn llawn.** Mae'r dystiolaeth eilaidd yn galluogi'r cwestiwn/cwestiynau ymchwil i gael eu hateb.
- Mae Colofn E yn dangos bod data cyfredol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn darparu sylfaen dystiolaeth gyfyngedig neu rannol yn unig mewn perthynas â gweithredu'r system ADY ac effeithiau hynny. Nid oes yr un o'r ffynonellau data presennol a nodwyd drwy'r ymarfer mapio data hwn yn galluogi'r cwestiynau ymchwil a amlinellir yn Nhabl 3 i gael eu hateb yn llawn.

[40] Mae data eilaidd yn cynnwys ystadegau a data arolygon (rheolaidd ac ad hoc) a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid yn ogystal ag adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ansoddol, megis adolygiadau, adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau arolygu ysgolion.

    - Mae Atodiad C yn cyflwyno disgrifiad manylach o bob un o'r ffynonellau a nodwyd yn erbyn eitemau o'r theori newid, ac yn rhoi rhagor o fanylion am sut y cafwyd y canfyddiadau yng ngholofn D.
- Mae Colofn F yn nodi pa gamau o'r gwerthusiad ddylai geisio casglu tystiolaeth yn erbyn pob cwestiwn ymchwil
    - Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn dangos y dylai Camau 2-5 gasglu rhywfaint o dystiolaeth sy'n berthnasol i bob cwestiwn.

Mae’r lliwiau tywyll a ddefnyddir yn Nhabl 3 yn cyfateb i’r rhai a ddefnyddiwyd yn adrannau'r darluniau o'r theori newid ym Mhennod 2.

**Tabl 3. Crynodeb o ganfyddiadau'r ymarfer mapio data**

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewnbynnau a gweithgareddau** | Cyllid | I ba raddau y mae cyllid ar gyfer y system ADY yn cyfrannu at wella deilliannau tymor byr y theori newid, gan gynnwys:<br>○ ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o'r system ADY?<br>○ ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r system ADY?<br>○ sgiliau a hyder ymarferwyr i gefnogi'r system ADY?<br>○ gwell cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol a sectorau?<br><br>A oes digon o adnoddau, capasiti a chymorth ar gael i wireddu nodau'r diwygiadau? | Gwariant a Gyllidebwyd ar Ddarpariaeth AAA (Saesneg yn unig) (LlC, 2023a)<br><br>Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br><br>Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023) | Cyfyngedig | 2 a 4 |
| | Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar y system ADY | I ba raddau y mae'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad ar y system ADY yn cyfrannu at wella:<br>○ ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni o'r system ADY?<br>○ ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r system ADY?<br>○ sgiliau, hyder a galluoedd ymarferwyr i gefnogi'r system ADY?<br><br>A oes tegwch o ran mynediad i wybodaeth a chymorth? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br><br>Arweiniad atodol ar gyfer arolygu ADY mewn lleoliadau nas cynhelir (Estyn ac AGC, 2022)<br><br>Adroddiad cynnydd ar weithredu'r diwygiadau i ADY (Jones, 2022) | Cyfyngedig | 2 – 5 |

41 Yn Nhabl 3, mae teitlau'r adroddiadau wedi'u byrhau am resymau'n ymwneud â'r cyflwyniad (mae'r teitlau llawn i'w gweld yn Atodiad B). Defnyddir LlC i gyfeirio at Lywodraeth Cymru yn y tabl.

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | Datblygu'r gweithlu a gweithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr | I ba raddau y mae gweithgaredd datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol i ymarferwyr yn cyfrannu at wella:<br>○ ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r system ADY?<br>○ sgiliau, hyder a galluoedd ymarferwyr i gefnogi'r system ADY?<br><br>A oes mynediad cyfartal i weithgaredd dysgu proffesiynol?<br><br>A yw ymarferwyr yn deall y ffyrdd newydd o weithio sy'n gynhenid i'r diwygiadau ADY?<br><br>A yw ymarferwyr wedi ymrwymo i'r ffyrdd newydd o weithio sy'n gynhenid i'r diwygiadau ADY?<br><br>A oes gan arweinwyr ac athrawon y wybodaeth a'r sgiliau i sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael mynediad priodol i'r cwricwlwm? | Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA):<br><br>Canlyniadau myfyrwyr AGA Cyngor y Gweithlu Addysg<br><br>Rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon: meini prawf achredu (LIC, 2023b)<br><br>Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br><br>Adroddiad cynnydd ar weithredu'r diwygiadau i ADY (Jones, 2022) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Gweithgaredd cydweithredol gan gynnwys rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol | I ba raddau y mae gweithgaredd cydweithredol, gan gynnwys rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol, yn cyfrannu at wella:<br>○ cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, sefydliadau, sectorau?<br>○ ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r system ADY?<br>○ sgiliau, hyder a galluoedd ymarferwyr i gefnogi'r system ADY? | Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023)<br><br>Parodrwydd Colegau ar gyfer Gweithredu'r Ddeddf ADY (Colegau Cymru, 2022) | Cyfyngedig | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a) | | |
| | Gwaith arweinwyr trawsnewid; creu rolau statudol newydd | I ba raddau y mae gwaith arweinwyr trawsnewid a chreu rolau statudol newydd wedi cyfrannu at wella:<br>○ cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, sefydliadau, sectorau?<br>○ ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r system ADY?<br>○ sgiliau, hyder a galluoedd ymarferwyr i gefnogi'r system ADY? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Adroddiad cynnydd ar weithredu'r diwygiadau i ADY (Jones, 2022) | Cyfyngedig | 2 a 4 |
| **Deilliannau tymor byr (a pharhaus)** | Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system ADY ymysg plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr | I ba raddau y mae'r mewnbynnau a'r gweithgareddau yn cefnogi mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system ADY ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr? | Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (TSANA, 2023)<br>Adroddiad cryno 2022-2023 ar y newid o AAA i ADY SNAP (2023b) (Heb ei gyhoeddi) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Gwella ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY ymhlith ymarferwyr | I ba raddau y mae'r mewnbynnau a'r gweithgareddau yn cefnogi mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system ADY ar gyfer ymarferwyr? | Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023)<br>Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Arweiniad atodol ar gyfer arolygu ADY | Yn rhannol | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mewn lleoliadau nas cynhelir (Estyn ac AGC, 2022) | | |
| | Gwella sgiliau a hyder ymarferwyr i gefnogi'r system ADY | I ba raddau y mae'r mewnbynnau a'r gweithgareddau yn cefnogi gwella sgiliau a hyder ymarferwyr i gefnogi'r system ADY ar gyfer ymarferwyr? | Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023)<br>Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Arweiniad atodol ar gyfer arolygu ADY mewn lleoliadau nas cynhelir (Estyn ac AGC, 2022) | Yn rhannol | 2 – 5 |
| | Gwella ymarfer yn yr ystafell ddosbarth | I ba raddau y mae'r mewnbynnau a'r gweithgareddau yn cefnogi gwella ymarfer yn yr ystafell ddosbarth? | Arweiniad i Arolygwyr: ysgolion a gynhelir ac UCDau Estyn (2023b)<br>Arweiniad atodol ar gyfer arolygu ADY mewn lleoliadau nas cynhelir (Estyn ac AGC, 2022) | Yn rhannol | 2 – 5 |
| | System gyfan: rolau statudol yn eu lle | I ba raddau y sefydlwyd rolau statudol? | Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY), LIC | Yn rhannol | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | System gyfan: Gwell cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, sefydliadau, sectorau | A yw'r mewnbynnau a'r gweithgareddau yn cefnogi gwell cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, sefydliadau a sectorau? | Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023)<br>Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â gweithredu** | Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag ADY yn cymryd rhan mewn addysg brif ffrwd ac yn cael mynediad i addysg sy'n diwallu eu hanghenion | A yw mwyafrif y plant a phobl ifanc ag ADY yn cymryd rhan mewn addysg brif ffrwd?<br><br>A yw mwyafrif y plant a phobl ifanc ag ADY yn cael mynediad i addysg sy'n diwallu eu hanghenion? | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a CYBLD ysgolion annibynnol (yn seiliedig ar ffurflenni STATS1 i a gyflwynir i LlC)<br>Data ar absenoldeb (LlC, 2023g)<br>Data ar AHY (LlC, 2023c)<br>Data ar waharddiadau LlC (LlC, 2022a)<br>Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), LlC | Yn rhannol | 2–5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o’r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau’n ymwneud â’r rhagdybiaethau allweddol sy’n sail i’r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ALI | | |
| | Mae'r system ADY yn cyd-fynd â diwygiadau ehangach a blaenoriaethau strategol sy'n ategu gweithredu'r system ac yn cyfrannu at ganlyniadau dymunol | I ba raddau y mae'r system ADY yn cyd-fynd â diwygiadau ehangach a blaenoriaethau strategol sy'n ategu gweithredu'r system ac yn cyfrannu at y deilliannau dymunol? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Ymchwil ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn gynnar (LlC, 2023j) | Yn rhannol | 2–5 |
| **gweithredu'r system ADY** | Cynllun unedig: Mae CDUau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gydweithio | I ba raddau y mae CDUau yn cael eu datblygu mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar gydweithio? | CYBLD, LlC<br>Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Mae barn plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn ganolog i'r broses gynllunio a'r ddarpariaeth | I ba raddau y mae barn plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn ganolog i gynllunio a'r ddarpariaeth | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Tribiwnlys Addysg Cymru | Cyfyngedig | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae DDdY yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ac yn gyson â'r Cod ADY | I ba raddau y mae DDdY yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc?<br>I ba raddau y mae DDdY yn gyson â'r Cod ADY? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Tribiwnlys Addysg Cymru | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Mae gwasanaethau'n cydweithio i ddarparu cymorth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc (addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) | I ba raddau y mae gwasanaethau (addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) yn cydweithio i ddarparu cymorth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc<br><br>Pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cydweithio i sicrhau bod ADY yn cael eu nodi'n gynnar a bod cymorth cydgysylltiedig ar gael i ddiwallu eu hanghenion? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Rhennir gwybodaeth yn effeithiol rhwng ymarferwyr a sefydliadau | I ba raddau y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng ymarferwyr a sefydliadau? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Asesiadau, cynllunio ac ymyriadau amserol | I ba raddau y mae asesiadau, prosesau cynllunio ac ymyriadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a) | Cyfyngedig | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023) | | |
| | Prosesau adolygu sydd ar waith ar gyfer CDUau a DDdY | I ba raddau y mae prosesau adolygu effeithiol ar waith ar gyfer CDUau a DDdY? | Dim wedi'i nodi | Ddim o gwbl | 2 – 5 |
| | Darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol | I ba raddau y mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael ac yn cael eu darparu i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (TSANA, 2023) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Mae hawliau clir a chyson i apelio yn eu lle | I ba raddau y mae hawliau clir a chyson i apelio yn eu lle | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Data Tribiwnlys Addysg Cymru (Tribiwnlys Addysg Cymru, 2022) | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | System ddwyieithog: mae'r angen am DDdY yn Gymraeg wedi'i ddogfennau a | I ba raddau y mae system ddwyieithog ar waith ble mae'r angen am DDdY yn Gymraeg wedi'i ddogfennau a ble y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth | Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023) | Cyfyngedig | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | chymerir pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth | | | | |
| **Deilliannau tymor canolig i blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a'r system ADY** | Plant a phobl ifanc yn cymryd mwy o ran yn y broses gynllunio | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at blant a phobl ifanc yn cymryd mwy o ran yn y broses gynllunio? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Data Tribiwnlys Addysg Cymru | Yn rhannol | 2 – 5 |
| | Profiadau gwell i blant a phobl ifanc | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at well profiadau i blant a phobl ifanc? | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Tribiwnlys Addysg Cymru | Cyfyngedig | 2 – 5 |
| | Dyheadau uchel a chanlyniadau gwell (gan gynnwys cynnydd a chyrhaeddiad) | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at ddyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc a chanlyniadau gwell (gan gynnwys cynnydd a chyrhaeddiad)? | Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd: o 2018/19 i 2022/23 (LIC, 2023n)<br>Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU disgyblion ym mlwyddyn 11 fesul darpariaeth AAA/ADY (LIC, 2023o) | Yn rhannol | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ymgeisiadau a chanlyniadau lefel A (disgyblion oed 17 yn unig) fesul AAA/ADY (LIC, 2022b)<br>Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad): Awst 2021 i Orffennaf 2022 (LIC, 2023c)<br>Data ar absenoldeb (LIC, 2023g) | | |
| | Perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol; gwydnwch emosiynol a sefydlogrwydd | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at berthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol; gwydnwch emosiynol a sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc | Dim wedi'i nodi | Ddim o gwbl | 2 – 5 |
| | Gwell profiadau i rieni a gofalwyr<br>Mwy o reolaeth a pherchnogaeth i rieni a gofalwyr | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at:<br>• Brofiadau gwell i rieni a gofalwyr?<br>• Mwy o reolaeth a pherchnogaeth i rieni a gofalwyr? | Adroddiad ymgysylltu â rhieni SNAP Cymru Ionawr 2023 (SNAP Cymru, 2023a)<br>Adroddiad cryno ar newid o AAA i ADY SNAP Cymru | Ddim o gwbl | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o’r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau’n ymwneud â’r rhagdybiaethau allweddol sy’n sail i’r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (2023b) (Heb ei gyhoeddi)<br>Arolwg Cenedlaethol Cymru | | |
| | Profiadau gwell i ymarferwyr (boddhad swydd, cyfraddau cadw) | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at well profiadau ymhlith ymarferwyr (boddhad swydd, cyfraddau cadw)? | Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023)<br>Arolwg cenedlaethol o'r gweithlu addysg (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2021) (2023 ar gyfer AB) | Ddim o gwbl | 2 – 5 |
| | Mwy o gydweithredu ac integreiddio<br>System gynhwysol, deg a thryloyw<br>Mwy o ymddiriedaeth a hyder gan y cyhoedd<br>System lai wrthwynebol: llai o anghytuno, datrys | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at:<br>• Fwy o gydweithredu ac integreiddio<br>• System gynhwysol, deg a thryloyw<br>• Mwy o ymddiriedaeth a hyder gan y cyhoedd<br>• System lai wrthwynebol: llai o anghytuno, datrys anghytundebau yn gynt<br>• Mae dysgwyr yn cael mynediad i DDdY yn Gymraeg, lle y nodir yr angen am hynny | Adroddiad thematig Estyn (Estyn, 2023a)<br>Adroddiad arolwg AGAA (AGAA, 2023)<br>Data Tribiwnlys Addysg Cymru | Cyfyngedig | 2 – 5 |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r theori newid [Noder: gellir ystyried cwestiynau eraill fel rhan o'r gwerthusiad, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r theori newid] | D. Y prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol[41] | E. I ba raddau y mae'r data yn galluogi'r cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | F. I'w archwilio ym mha gamau gwerthuso? |
|---|---|---|---|---|---|
| | anghytundebau yn gynt<br>Mae dysgwyr yn cael mynediad i DDdY yn Gymraeg, lle y nodir yr angen am hynny | | | | |
| **Effeithiau hirdymor** | Prosesau pontio gwell rhwng cyfnodau addysg | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at brosesau pontio gwell rhwng cyfnodau addysg? | Dim wedi'i nodi | Ddim o gwbl | 4 & 5 |
| | Prosesau pontio gwell rhwng darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth arbenigol | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at brosesau pontio gwell rhwng darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth arbenigol? | Dim wedi'i nodi | Ddim o gwbl | 4 & 5 |
| | Cyflawni eu llawn botensial | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at blant a phobl ifanc yn cyflawni eu llawn botensial? | Dim wedi'i nodi | Ddim o gwbl | 4 & 5 |
| | Gwell cyflogadwyedd | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at wella cyflogadwyedd pobl ifanc? | Astudiaeth o Ddeilliannau Addysg Hydredol. | Yn rhannol | 4 & 5 |
| | Nodau'r Ddeddf Llesiant | I ba raddau y mae gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Ddeddf Llesiant? | Dangosyddion cenedlaethol LlC | Ddim o gwbl | 4 & 5 |

**Crynodeb a'r goblygiadau i'r gwerthusiad**

5.6 Mae canfyddiadau'r gwaith mapio data'n dangos bod sylfaen dystiolaeth gyfyngedig neu rannol ar hyn o bryd ar gyfer ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau ymchwil a nodir yn Nhabl 3. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon, nid yw'r un o'r ffynonellau data presennol a nodwyd drwy'r ymarfer mapio data hwn yn galluogi'r cwestiynau ymchwil a amlinellir yn Nhabl 3 i gael eu hateb yn llawn.

5.7 Mae sawl bwlch yn y sylfaen dystiolaeth, yn enwedig data sy'n dangos profiadau dysgwyr, rhieni a gofalwyr o'r system ADY. Er bod ffynonellau tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn bodoli mewn perthynas â safbwyntiau ymarferwyr addysg (Estyn, 2023a; AGAA, 2023), ceir bylchau o ran barn gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau awdurdodau lleol, y sector iechyd, y blynyddoedd cynnar ac ôl-16. Mae hyn yn dangos y bydd angen i'r gwerthusiad gasglu tystiolaeth gan y cynulleidfaoedd hyn yn ystod ei gamau nesaf. Mae bylchau penodol hefyd wedi'u nodi o ran y data sydd ar gael ar gyfer eitemau unigol yn y theori newid, a'r graddau y mae'r mewnbynnau a'r gweithgareddau yn cyfrannu at y deilliannau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Felly, gwneir yr argymhellion a ganlyn, ar gyfer y gwerthusiad ac ar gyfer gweithgaredd ymchwil ehangach Llywodraeth Cymru, ar sail y canfyddiadau uchod.

5.8 Mewn perthynas â'r mewnbynnau, y gweithgareddau a'r deilliannau tymor byr a nodir yn y theori newid, dylai'r gwerthusiad ystyried:

- ymchwilio i sut y mae cyllid ADY yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau a lleoliadau, ac i ba raddau y mae gweithgareddau a ariennir yn cefnogi'r deilliannau tymor byr a nodir yn y theori newid. Gellid ymchwilio i farn ansoddol ymarferwyr a rhanddeiliaid ar y mater hwn drwy'r astudiaethau ardal.
- yr amrywiadau yng nghanran y cyllid a ddirprwyir i ysgolion a sut y mae hyn yn dylanwadu ar weithredu'r system yn lleol. Dylid ystyried hyn wrth ddewis samplau ar gyfer yr astudiaethau ardal.
- casglu gwybodaeth am i ba raddau y mae rhieni a gofalwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau addysg ac iechyd wedi manteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad am y system ADY, a'u barn ar hynny (gweler y data sy'n ymwneud â chanlyniadau tymor byr)

- casglu tystiolaeth gan ymarferwyr ym mhob sector ar i ba raddau y maent yn credu bod datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol yn helpu i ddatblygu eu hymwybyddiaeth, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system ADY yn ogystal â'r sgiliau a'r hyder i'w chefnogi.
  - at hynny, awgryma'r canfyddiadau fod angen ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch i ba raddau y maent wedi cael mynediad at weithgaredd datblygu'r gweithlu penodol yn ymwneud â'r system ADY.
- ymchwilio i'r graddau y mae gweithgaredd cydweithredol yn digwydd o fewn a rhwng sectorau a sut y mae'n cyfrannu at y deilliannau tymor byr a nodir yn y theori newid.
  - dylai hyn gynnwys barn ynghylch effeithiolrwydd cydweithio ac a yw wedi gwella – gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, sefydliadau ac ar draws sectorau – fel rhan o'r gwaith maes gydag ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol ac uwch arweinwyr
- casglu barn ymarferwyr ar ganlyniadau gweithgareddau trawsnewid a chreu rolau newydd statudol
- ymchwilio i ymwybyddiaeth a dealltwriaeth plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr o'r system ADY

5.9 Mewn perthynas â gweithredu'r system ADY, y deilliannau tymor canolig a hirdymor a nodir yn y theori newid, dylai'r gwerthusiad ystyried:

- casglu data ar safbwyntiau plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr ac ymarferwyr ynghylch i ba raddau yr ystyrir bod y broses o ddatblygu CDUau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gydweithio.
- yn ystod y gwaith maes, archwilio gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr i ba raddau:
  - y mae barn plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn ganolog i'r broses gynllunio a'r ddarpariaeth?
  - y mae DDdY yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc ac yn gyson â'r Cod ADY?

  - y mae gwasanaethau (addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) yn cydweithio i ddarparu cymorth effeithlon ac effeithiol sy’n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc?
  - a yw gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng ymarferwyr a sefydliadau?
  - a oes hawliau clir a chyson i apelio yn eu lle?
  - a oes system ddwyieithog ar waith ble mae'r angen am DDdY yn y Gymraeg yn cael ei ddogfennu a ble y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth?
  - a yw gweithredu'r system ADY yn cefnogi creu system lai wrthwynebol?
- archwilio i ba raddau y mae prosesau adolygu effeithiol ar waith ar gyfer CDUau a DDdY
- archwilio gydag awdurdodau lleol i ba raddau y mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu darparu ledled Cymru a chasglu safbwyntiau rhieni a gofalwyr ar hynny, yn enwedig i ba raddau y mae’n dylanwadu ar eu profiadau o’r system ADY
- casglu data ar ganfyddiadau plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr o i ba raddau y mae’r system ADY yn eu galluogi i gael mynediad i addysg brif ffrwd ac addysg sy’n diwallu eu hanghenion.
- casglu barn ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ar i ba raddau y mae’r system ADY yn cyd-fynd â diwygiadau ehangach a blaenoriaethau strategol.
- casglu barn plant a phobl ifanc (yn ogystal ag ymarferwyr, rhieni a gofalwyr) ar i ba raddau y mae’r system ADY wedi gwella cyfranogiad pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar y system ADY ac mewn agweddau gwahanol arni
- casglu data gan ddysgwyr ar y deilliannau tymor canolig hyn ar gyfer dysgwyr fel rhan o'r dull ansoddol a'r dull sy'n seiliedig ar arolygon.
- casglu barn ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ynghylch a yw gweithredu'r system ADY yn cyfrannu at wella profiadau ymarferwyr (e.e. boddhad swydd, cyfraddau cadw)?

- casglu barn plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr ar eu profiadau pontio
- casglu barn plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr ar i ba raddau y mae'r system ADY yn cyfrannu at ddysgwyr yn cyflawni eu llawn botensial

5.10 Ochr yn ochr â'r gwerthusiad, dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- ymgymryd â rhagor o waith ymchwil i sut y mae awdurdodau lleol yn pennu ac yn dyrannu cyllid ar gyfer ADY, er enghraifft drwy archwilio cyllidebau awdurdodau lleol a fformiwlâu cyllido ar gyfer ADY
- adolygu dogfennau egwyddorion awdurdodau lleol, lle mae'r rhain wedi'u datblygu
- adolygu tystiolaeth o adroddiadau arolygu gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ystyried i ba raddau y mae mewnbynnau a gweithgareddau'r system ADY yn cefnogi ymarfer gwell yn yr ystafell ddosbarth
- a ddylid ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill fel rhan o'r broses werthuso neu fel rhan o'i gweithgaredd ymchwil ehangach, yn enwedig o ran a oes hawliau apelio clir a chyson ar waith
- parhau i fonitro data ar absenoldeb yn ôl y gwahanol fathau o ddarpariaeth ADY yn ystod y gwerthusiad hwn, yn enwedig i ystyried a yw data ar absenoldeb yn gwella ymhlith y rhai sy'n cael cymorth o dan y system ADY newydd.

# 6. Y goblygiadau i gamau nesaf y gwerthusiad

6.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r sylfaen dystiolaeth a gyflwynir ym Mhenodau 4 a 5, yn amlygu'r prif fylchau a ganfuwyd ac yn nodi'r goblygiadau i'r gwerthusiad.

**Y sylfaen dystiolaeth: crynodeb**

6.2 Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth (gweler Pennod 4) a'r ymarfer mapio data (gweler Pennod 5) yn dangos bod ystod o ffynonellau tystiolaeth ar y **rhesymeg** dros y system ADY, y **mewnbynnau a'r gweithgareddau** sydd wedi dylanwadu ar weithrediad y system ADY hyd yma a'r cynnydd a wnaed o ran **gweithredu'r system ADY**. Ymysg y rhain mae setiau data gweinyddol y llywodraeth, arolygon cenedlaethol ac astudiaethau ymchwil ad hoc. Mae nifer o ffynonellau data eilaidd wedi'u nodi ym Mhennod 5 y bydd angen eu hailystyried yn barhaus yn ystod y gwerthusiad er mwyn deall sut y mae'r broses o weithredu'r system ADY yn dod yn ei blaen.

6.3 Mae Penodau 4 a 5 hefyd yn nodi tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o sut y mae'r mewnbynnau a'r gweithgareddau yn y theori newid yn dechrau dylanwadu ar y **deilliannau tymor byr a chanolig** ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr yn ogystal â'r system gyfan. Ar y cam hwn, mae'r sylfaen dystiolaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar farn ymarferwyr mewn lleoliadau addysg, gan roi darlun cyfyngedig neu rannol o gynnydd.

**Mynd i'r afael â bylchau yn y sylfaen dystiolaeth**

6.4 Mae canfyddiadau'r cam cwmpasu hwn yn dangos mai'r prif fylchau yn y sylfaen dystiolaeth yw:

- diffyg tystiolaeth ar y cysylltiadau achosol rhwng eitemau yn y theori newid (e.e., rhwng mewnbynnau a chanlyniadau tymor byr)
    - yn benodol, diffyg data ar ganfyddiadau plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr o sut y mae gweithredu'r system ADY yn dylanwadu ar eu profiadau a'u deilliannau
- diffyg data ar ganfyddiadau ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, yn enwedig y rhai mewn awdurdodau lleol, o leoliadau blynyddoedd cynnar, BILlau a SABau, ar:

- sut  y mae'r broses o weithredu'r system ADY yn dod yn ei blaen yn ymarferol
- beth yw'r ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r system ADY a beth yw'r rhwystrau

- diffyg data mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r deilliannau hirdymor a nodwyd.[42]

6.5 Mae’r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod angen ffocws parhaus ar gasglu barn gyfoes gan ymarferwyr mewn ysgolion ac UCDau, gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy waith Estyn (2023a) a AGAA (2023).

**Y goblygiadau i'r cynllun gwerthuso**

6.6 Dengys canfyddiadau’r astudiaeth gwmpasu y dylai’r astudiaethau ardal (Camau 2 a 4 o’r gwerthusiad hwn) a’r arolygon (Camau 3 a 5) a gynlluniwyd fel rhan o’r gwerthusiad (gweler Pennod 1) gynnwys ffocws ar y cwestiynau ymchwil a nodir ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn. Yn benodol, dylai'r offer ymchwil (holiaduron, canllawiau cyfweld) ganolbwyntio ar y cwestiynau lle mae sylfaen dystiolaeth gyfyngedig neu rannol wedi'i nodi.

6.7 Mae canfyddiadau’r adolygiad o dystiolaeth (Pennod 4) hefyd yn awgrymu y dylai Camau 2-5 y gwerthusiad ymchwilio i nifer o faterion penodol:

- Asesiad o dryloywder ac effeithiolrwydd dyraniadau cyllid ADY a hefyd digonolrwydd adnoddau ariannol a chapasiti’r gweithlu, i weithredu’r system ADY.
- Y berthynas rhwng y diwygiadau ADY a chapasiti’r gweithlu, llesiant staff, a datblygiad proffesiynol, yn enwedig ar gyfer CADYau.
- I ba raddau y ceir dealltwriaeth a dehongliad clir a chyson o ADY a DDdY ymhlith ymarferwyr, lleoliadau ac ar draws awdurdodau lleol, ac ystyried sut y mae'r defnydd o wybodaeth a chanllawiau a'r ffordd y cânt eu lledaenu yn llywio’r dehongliadau hyn.

[42] Mae Adran 5 yn cyflwyno bylchau manylach yn y sylfaen dystiolaeth gyfredol yn erbyn eitemau unigol yn y theori newid, a’r graddau y mae’r mewnbynnau a’r gweithgareddau’n cyfrannu at y deilliannau tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

- Archwilio'r data ar nifer y CDU a'r ffactorau sy'n cyfrannu at amrywiadau ledled Cymru.
- Archwilio sut y mae rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y system ADY a'u cefnogi i ddeall eu hawliau, gan gynnwys materion sy'n deillio o oedi wrth wneud penderfyniadau a'r angen am wybodaeth dryloyw am ddiwygio ADY.
- Ymchwilio i ddulliau awdurdodau lleol o gynnal CDUau ac asesu sut y mae'r dulliau hyn yn cael eu cyfleu i ysgolion, rhieni, gofalwyr a dysgwyr.
- Ystyried materion penodol yn ymwneud â dysgwyr ôl-16, gan gynnwys trosglwyddo cyfrifoldebau o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, gan sicrhau mynediad teg i addysg a hyfforddiant ar gyfer y garfan hon o ddysgwyr.
- Ystyried yr heriau i wireddu'r nod craidd o greu system ADY ddwyieithog ac archwilio a yw'r system ADY yn cael ei gweithredu'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

**Goblygiadau i feysydd ffocws yn ystod y cam ansoddol cychwynnol**

6.8 Bydd cam nesaf y gwerthusiad, yr astudiaethau ardal (Cam 2), yn cynnwys gwaith maes ansoddol mewn 4-6 awdurdod lleol, gan gynnwys gwaith maes gydag:

- Uwch arweinwyr, CADYau, athrawon a darlithwyr a gweithwyr cymorth dysgu, mewn ysgolion, UCDau a SABau yn ogystal â sampl o ddysgwyr a rhieni.
- Gweithwyr proffesiynol mewn awdurdodau lleol a BILlau.

6.9 Bydd yr astudiaethau ardal yng Ngham 2 y gwerthusiad yn rhoi cyfle i ddylunio adnoddau ymchwil sy'n ystyried canfyddiadau'r adroddiad cwmpasu hwn ac yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth. Bydd hyn, yn ei dro, yn galluogi'r gwerthusiad i archwilio i ba raddau y mae'r theori newid ar gyfer y system ADY a'i rhagdybiaethau yn cael eu gwireddu'n ymarferol.

## Atodiad A: Y prif ffynonellau ar gyfer yr adolygiad o'r dystiolaeth

### Y prif ffynonellau tystiolaeth

| **Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol**<br>Awdur: Estyn<br>Dyddiad: Medi 2023 (gan dynnu ar ymchwil tymor yr hydref 2022 tan dymor y gwanwyn 2023) |
|---|
| **Y Themâu a Gwmpesir**<br>• Dealltwriaeth o'r diffiniadau o ADY;<br>• Pontio o AAA i ADY<br>• Rôl CADYau<br>• Cynnal CDUau<br>• Cydweithio a rhannu gwybodaeth<br>• Mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol<br>• Cyllid ar gyfer ADY<br>• Datblygiad proffesiynol<br>• Arferion a chanllawiau effeithiol. |
| **Dull**<br>Cynhaliodd Estyn drafodaethau gyda 29 o ddarparwyr. Roedd hyn yn cynnwys pedwar awdurdod lleol, 15 ysgol gynradd, wyth ysgol uwchradd a dwy ysgol pob oed yn nhymor y gwanwyn 2023.<br>Cafwyd trafodaeth bellach gyda hanner yr awdurdodau lleol ar y rolau statudol a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.<br>Adolygwyd y cynnwys ar wefannau ysgolion ac awdurdodau lleol. |
| **Cyfyngiadau**<br>Mae'r cwmpas yn gyfyngedig gan mai dim ond detholiad bach o ysgolion prif ffrwd ac awdurdodau lleol y mae ymchwil yn eu cwmpasu. Mae bylchau, ond sylwer y bydd y rhain yn cael sylw yn yr adolygiad ail gam a fydd yn edrych ar addysg ôl-16; rolau swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar a'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA). At hynny, bydd yn asesu sut y mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, unedau cyfeirio disgyblion, ac ysgolion arbennig a gynhelir. |

| **Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru?**<br>Awdur: Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth<br>*Dyddiad*: Medi 2023 |
|---|
| Y themâu a gwmpesir:<br>• Dealltwriaeth bersonol a hyder mewn ADY<br>• Sefyllfa lleoliadau addysg<br>• Diwallu anghenion drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Sgiliau, arbenigedd a gallu, Ymgysylltu â phartneriaid<br>• Cyllid ar gyfer ADY |
| **Dull**<br>Ymchwil gefndirol fu'n sail i arolwg ar-lein (a gynhaliwyd gan Ymchwil OB3) o arweinwyr ysgol a CADYau. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Rhagfyr 2022-Ionawr 2023.<br>Cafwyd 730 o ymatebion (O blith y rheini, roedd gan ryw 49 gyfrifoldebau prifathrawiaeth; roedd gan 62% gyfrifoldebau CADY. Roedd y rhan fwyaf wedi'u lleoli mewn lleoliadau ysgol, 69% mewn |

ysgol gynradd, 18% mewn ysgol uwchradd.) Hefyd, cynhaliwyd
12 cyfweliad lled-strwythuredig gyda Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA), Swyddogion ADY Awdurdodau Lleol (ALI), Arweinwyr Blynyddoedd Cynnar ac Athrawon Ymgynghorol, CADY Arweiniol Clystyrau, Estyn a chafwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.

**Cyfyngiadau**

Mae'r adroddiad yn rhoi darlun yn seiliedig ar gyfnod penodol ac efallai nad yw'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Cwmpas cyfyngedig y cwestiynau: Mae'r arolwg yn dibynnu ar safbwyntiau arweinwyr ysgolion o ran sgiliau ac ymgysylltu ac ati heb ymchwilio i weithrediad ymarferol yr agweddau hyn.

Dim dadansoddiad: Cyflwynir rhai canfyddiadau yn seiliedig ar wahanol gategorïau o ymatebwyr megis Cydlynydd ADY, ond ni wneir dadansoddiadau manwl pellach, gan gynnwys mathau o leoliadau.

Gwybodaeth gyfyngedig y tu hwnt i bersbectif arweinwyr ysgol: Er y cynhaliwyd 12 o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda staff nad ydynt yn gweithio yn yr ysgol, prin yw'r sylw a roddir i'r canfyddiadau hynny, ac nid oes unrhyw sôn am adborth gan SACDAau.

**Cyfres o bapurau gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn monitro gweithredu'r diwygiadau addysg**
Awdur: Amrywiol. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth iddo.
*Dyddiad*: 2022 – 2026 (parhaus)

Y themâu a gwmpesir:

- Gweithredu'r system ADY a throsglwyddo dysgwyr yn effeithiol o'r system AAA bresennol.
- Cymhwyso'r diffiniad o ADY, o'i gymharu â'r diffiniad presennol o AAA, ac a oes unrhyw achos o 'godi'r bar' ar lawr gwlad ar gyfer pennu cymhwystra ar gyfer darpariaeth.
- Y gweithgaredd dysgu proffesiynol a'r cymorth arall y mae lleoliadau'n ei gael.
- Ffactorau eraill a allai effeithio ar weithredu'r system ADY, er enghraifft lefelau cyllid a'r hyn a gododd yn sgil y pandemig.
- Yr heriau a'r cyfleoedd penodol sy'n dod i ran gwahanol fathau o ysgolion mewn amgylchiadau amrywiol (e.e. cyfrwng iaith, demograffeg ac ardal) o ran gweithredu'r broses o ddiwygio ADY.

**Dull**
Bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfres o sesiynau galw heibio thematig byr â ffocws drwy gydol y cyfnod. Bydd pob sesiwn galw heibio yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu (e.e. ymweliadau ag ysgolion i siarad â staff, disgyblion a rhieni) a chraffu ar waith un o Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae dwy eisoes wedi'i chwblhau.

- Cynhaliwyd y 'gwiriad' cyntaf ym mis Gorffennaf/Medi 2022 ac ymweliadau ag ysgolion (dim manylion pellach ar gael) a sesiwn graffu gyda Gweinidog y Gymraeg a Addysg.
- Cynhaliwyd yr ail 'wiriad' ym mis Ebrill/Mai 2023 a chasglodd dystiolaeth mewn trafodaethau grŵp ffocws gan 24 o Gydlynwyr ADY ac arweinwyr ysgol o 20 ysgol uwchradd a oedd wedi penderfynu cyflwyno'r cwricwlwm newydd i fyfyrwyr blwyddyn 7 yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23. Gwahoddwyd cyfanswm o 65 o ysgolion i gymryd rhan. Roedd y cyfranogwyr yn dewis eu hunain. Roedd yr ysgolion wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig (6), maestrefol (7) a threfol (7) ar draws 13 o ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae ymgynghoriad agored hefyd, lle y gall unrhyw un sydd â diddordeb yn y cwricwlwm newydd neu'r diwygiadau ADY – megis addysgwyr, rhanddeiliaid, disgyblion neu rieni – gyflwyno eu barn ar unrhyw elfen o gyflwyno'r diwygiadau addysg ar unrhyw adeg.

**Cyfyngiadau**

- Data anghyflawn oherwydd bod y gwaith o gasglu tystiolaeth yn parhau tan 2026.

- Ansicrwydd ynghylch cwmpas a chynhwysedd y data tan ddiwedd y cyfnod casglu data a dadansoddiad dilynol yn 2026.
- Posibilrwydd o duedd yn y sampl oherwydd y defnydd o samplau pwrpasol a samplau cyfleustra.

**Atodiad C** – i'w gynnwys yn fersiwn 2 sydd i'w chyhoeddi ym mis Chwefror 2024

## Atodiad B: Llyfryddiaeth


Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (2023) Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru? neu ar Adroddiad NAEL.pdf (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Colegau Cymru (2022) *ALN Implementation Programme: Colleges' Readiness for the Implementation of the Additional Learning Needs and Educational Tribunal (Wales) Act Key Themes.* Adroddiad mewnol. Heb ei gyhoeddi. [dogfen Saesneg]

Comisiynydd Plant Cymru (2023) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23.* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (2023) *Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol*. (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Conn, C., Hutt. M. (2020) Successful futures for all? Additional learning needs in Wales in the light of curriculum reform. *British Journal of Special Education,* 47(2), tt.152-169. doi: https://doi.org/10.1111/1467-8578.12307 [dogfen Saesneg]

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021) *Arolwg Cenedlaethol y Gweithlu Addysg 2021* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2023) *Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Weithredu Diwygiadau Addysg (2ail sesiwn galw heibio)* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Conn, C., a Davis, S. (2023) Policy implications of collective agency for inclusion: evidence from the Welsh context, *Journal of Education Policy*, Mehefin 2023, tt.1-22. doi: https://doi.org/10.1080/02680939.2023.2222372 [dogfen Saesneg]

*Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.* Ar gael yn legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/welsh (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Estyn (2023a) *Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Estyn (2023b) Arweiniad i Arolygwyr: Beth rydym yn ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2023 (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Estyn ac AGC (2022) *Arweiniad atodol ar gyfer arolygu Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn lleoliadau nas cynhelir* (Ar gael drwy wefan AGC, Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Jones, L. (2022) *ALN Implementation Progress Report September 2022*. Llywodraeth Cymru. Heb ei gyhoeddi. [dogfen Saesneg]

Knight, C., Clegg, Z., Conn, C., Hutt, M., Crick, T. (2022) Aspiring to include versus implicit “othering”: teachers’ perceptions of inclusive education in Wales. *British Journal of Special Education*. 49(1), tt.6-23. doi: https://doi.org/10.1111/1467-8578.12394 [dogfen Saesneg]

Knight, C., Crick, T. (2021) Inclusive Education in Wales: Interpreting Discourses of Values and Practice Using Critical Policy Analysis. *ECNU Review of Education.* 5(2), tt.258-283. doi: https://doi.org/10.1177/20965311211039858 [dogfen Saesneg]

Llywodraeth Cymru (2016) *Gofal plant: canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2017) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. (Cyrchwyd ar Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2018a) *Additional learning needs (ALN) transformation programme*. (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2018b) Addysg bodlonrwydd, dysgu a datblygiad (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2017 i Mawrth 2018 (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2019) *Astudiaeth gwmpasu dysgu proffesiynol ôl-16: adroddiad terfynol* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2021a) Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2021b) *Cwricwlwm i Gymru: Cynllun gweithredu* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2022a) *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2020 i Awst 2021* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2022b) *Ymgeisiadau a chanlyniadau lefel A (disgyblion oed 17 yn unig) fesul AAA/ADY* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2022c) *Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr): Awst 2019 i Orffennaf 2020* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023a) *Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig: Ebrill 2023 i Fawrth 2024.* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023b) *Rhaglenni addysg gychwynnol athrawon: meini prawf achredu* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023c) *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2022 i Awst 2023* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023d) *Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl prif anabledd a/neu anhawster dysgu a rhyw* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023e) *Dysgwyr unigryw mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith fesul rhaglen ac anabledd sylfaenol a/neu anhawster dysgu* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023f) *Canlyniadau cenedlaethol, yn ôl pwnc, blwyddyn a darpariaeth ADY/AAA (Anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig)* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023g) *Absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023 (diwygiedig)* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023h) *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023.* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023i) *Ymchwil gydag ysgolion a dysgwyr ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn gynnar: cam 1* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023j) *Ymchwil gydag ysgolion a dysgwyr ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn gynnar: cam 2* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023k) *IER 34 Ymateb gan Lywodraeth Cymru a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) i weithredu diwygiadau addysg*. (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023l) *IER 05: IER 05 Ymateb gan Lywodraeth Cymru a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) i weithredu diwygiadau addysg.* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023m) *Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023n) *Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd: o 2018/19 i 2022/23* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023o) *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU disgyblion ym mlwyddyn 11 fesul darpariaeth AAA/ADY* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Maxwell, N., Doughty, J., Slater, T., Forrester, D., a Rhodes, K. (2020) Home education for children with additional learning needs – a better choice or the only option? *Educational Review.* 72(4), tt.427-442. doi: https://doi.org/10.1080/00131911.2018.1532955 [dogfen Saesneg]

Parentkind (2023) *Deall absenoldeb disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) (2019) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft: Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*. (Llythyr) (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) (2023a) *Gweithredu diwygiadau addysgol (Ail archwiliad).* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) (2023b) *Gweithredu diwygiadau addysg* (*Sesiwn gyntaf galw heibio).* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

SNAP Cymru (2023a) *Engagement with parents: report of January 2023 workshops*. Adroddiad mewnol. Heb ei gyhoeddi. [dogfen Saesneg]

SNAP Cymru (2023b) *From SEN to ALN: Summary Report 2022-2023*. Adroddiad mewnol. Heb ei gyhoeddi. [dogfen Saesneg]

Tribiwnlys Addysg Cymru (2022) *Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru 2021-22.* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

TSANA (2022a) *Datganiad TSANA ar ddiwygio ADY ôl-16 Tachwedd 2022*. (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

TSANA (2022b) *Datganiad TSANA: Darpariaeth ariannu i pobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn colegau Addysg Bellach arbenigol Rhagfyr 2022.* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)

TSANA (2023) *AEC 05: Ymateb gan TSANA a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) ar gyfer yr ymchwiliad: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?* (Cyrchwyd ar: 13 Rhagfyr 2023)